











# Adroddiad Perfformiad Blynyddol
# **2012/13**

**Cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 23rd Hydref 2013**

A greener place Man gwyrddach

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

| Cynnwys | Disgrifiad | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| **Rhagair** | Neges gan yr Arweinydd | |
| **Cyflwyniad** | Diben yr adroddiad ac esboniad o'r modd y cyflwynir yr adroddiad | |
| **Cynllun Sengl** | 'Caerffili'n Cyflawni' | |
| **Hyrwyddo Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Sut rydym yn hyrwyddo Cydraddoldeb a'r Gymraeg | |
| **Ein Perfformiad** | Hunanasesiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2012/13 ym mhob un o Gyfadranau'r Awdurdod: | |
| | Y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol | |
| | Y Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes | |
| | Cyfadran yr Amgylchedd | |
| | Y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| **Dadansoddiad cyffredinol o berfformiad statudol** | Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) Llywodraeth Cymru a sut roeddem yn cymharu yng nghyd-destun Cymru gyfan. | |
| **Cytundebau Canlyniadau 2010 – 2013** | Crynodebau o'n hasesiad o'r 10 cytundeb sydd gennym â Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn derfynol, sef 2013 | |
| **Sut rydym yn cydweithredu er mwyn gwella** | Asesiad o'n gwaith gyda'n partneriaid yn ystod 2012/13 a gwybodaeth am sut y gwnaethom ymgysylltu â'r cyhoedd | |
| **Crynodeb o Gyllid yr Awdurdod** | Cyllideb a Gwariant. Crynodeb o'r Cyllid | |


| | | |
|---|---|---|
| **Adolygu Ein Gwasanaethau** | Hunanasesu, gwerthuso, archwilio ac arolygu.<br>Gan gynnwys esboniad o'r hyn y dywedodd ein harchwilydd allanol a'n timau archwilio wrthym yn ystod 2012/13 | |
| **Boddhad Cwsmeriaid** | Crynodeb o'r hyn y dywed y cyhoedd wrthym am ein gwasanaethau | |
| **Egwyddorion Corfforaethol 2013-17** | Cyflwyniad i'n set o Egwyddorion Corfforaethol ar gyfer 2013-17 | |
| **Sut i gysylltu â ni** | Ein manylion cyswllt i'ch helpu i geisio rhagor o wybodaeth neu esboniadau neu os hoffech gyflwyno adborth, sylwadau neu gwynion am yr Adroddiad hwn | |
| **Atodiad A** | Adroddiadau Cynnydd o ran Amcanion Gwella 2012-2013 | Atodiad A Dangosfyrddau â hyperddolen ar-lein |
| **Atodiad B** | Tablau'r dadansoddiad cyffredinol o Ddangosyddion Cenedlaethol | |

*Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn a gyhoeddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys gwybodaeth a data ar ddiwedd y flwyddyn am ei berfformiad mewn perthynas â'i weithgareddau a dylid ei ystyried fel adroddiad ail gam y Cyngor a luniwyd o dan Ran 1, Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol 2009 – Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae hyn yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Adrannau 2(1), 3(2), 8(7) a 13(1) o'r mesur.*

*Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.*
*This report is available in English, and in other languages or formats on request.*

# Rhagair

**Arweinydd y Cyngor**
**Y Cyng Harry Andrews**



Fel Arweinydd y Cyngor, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Perfformiad ar gyfer 2012/13. Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg dros amcanion gwella'r cyngor a nodwyd y llynedd ac yn canolbwyntio ar berfformiad mewn meysydd gwasanaeth allweddol.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn darparu gwasanaethau o safon i breswylwyr ledled y fwrdeistref sirol gyfan, ond bu'r flwyddyn hon yn arbennig o anodd i'r sefydliad am ein bod wedi wynebu pwysau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen ac wedi ymdrin â nifer o faterion dadleuol.

Nid yw rhai o'r materion hyn wedi'u datrys eto, ond rydym yn awyddus i sicrhau na thynnir sylw'r cyngor oddi wrth ei ymrwymiad i gyflawni ein Hamcanion Gwella y cytunwyd arnynt.

Er ein bod yn falch ein bod yn perfformio'n dda mewn sawl maes allweddol, rydym hefyd yn cydnabod bod rhai meysydd sydd angen eu gwella ymhellach. Rydym yn hyderus y bydd y cyngor yn gallu rheoli'r materion hyn yn llwyddiannus, diolch i'n gweithlu rhagorol a chefnogaeth barhaus yr aelodau.

Hoffwn sicrhau preswylwyr ein bod yn symud ymlaen fel sefydliad ac yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i bob rhan o'r gymuned.

A gaf i ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses Wella barhaus ac edrychaf ymlaen nawr at weld y sefydliad yn symud ymlaen ac yn cyflawni rhagor o ganlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol.

***Y Cynghorydd Harry Andrews***
**Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

# Cyflwyniad

Mae gan yr Awdurdod lawer o rwymedigaethau deddfwriaethol i'n cymunedau, gan ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau a mynediad i ddarparwyr gwasanaethau, gormod o lawer i gyflwyno adroddiadau arnynt yn y ddogfen unigol hon.  Fodd bynnag, dylai'r adroddiad hwn roi cipolwg i chi ar rai o'r agweddau pwysig ar yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yr adroddiad yw ein gwerthusiad o ba mor dda rydym wedi darparu'r gwasanaethau hynny yn ystod 2012-13.

**Sut rydym yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau a wasanaethir gennym, gan gydymffurfio â deddfwriaeth a mynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n bwysig i'n dinasyddion?**

Nid yw'r rhestr ganlynol yn hollgynhwysfawr, ond fe'i darparwyd er mwyn rhoi syniad i chi o'r pethau allweddol a wna'r awdurdod bob blwyddyn er mwyn gweld a ydym yn gwneud pethau orau y gallwn:

- ✓ Mae rheoleiddwyr allanol yn ein hasesu ac yn arolygu ein Gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol a pholisïau lleol. Ar gyfer 2012/13 ein rheoleiddwyr oedd: Swyddfa Archwilio Cymru, Price Waterhouse Coopers, Estyn ac AGGCC.
- ✓ Mae pob Maes Gwasanaeth yn llunio Cynllun Gwella Gwasanaethau blynyddol, y mae'n ei ddefnyddio i fonitro eu gweithgareddau darparu gwasanaethau a chyflwyno adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn.
- ✓ Mae gan bob Maes Gwasanaeth ei 'Gerdyn Sgorio Perfformiad' ei hun er mwyn helpu i fonitro, dadansoddi a chofnodi gwybodaeth am berfformiad drwy gydol y flwyddyn.
- ✓ Mae llawer o'n Gwasanaethau yn rhan o grwpiau partneriaeth neu grwpiau cydweithredu ehangach, lle maent yn llunio strategaethau, cynlluniau a rhaglenni partneriaeth y maent yn eu defnyddio ar y cyd i fonitro eu gweithgareddau a'u cynnydd.
- ✓ Mae gan yr awdurdod system ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ar sawl lefel rhwng swyddogion a chynghorwyr, megis Craffu, y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio.
- ✓ Mae gwasanaethau yn cynnal ac yn monitro Cofrestr Risgiau, sy'n monitro pethau a allai amharu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- ✓ Mae gwasanaethau yn llunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (trosolwg o'r modd y rheolir busnes ac y cyflwynir adroddiadau arno).
- ✓ Mae gwasanaethau yn cynnal ac yn monitro datganiadau cyfrifon ariannol cyfnodol.
- ✓ Mae gennym Bwyllgor Craffu sy'n monitro gwahanol agweddau ar berfformiad a chyllid.
- ✓ Rydym yn defnyddio cwynion, canmoliaeth a gwaith ymgynghori ehangach i gasglu adborth a gwybodaeth gan ein dinasyddion a'n cymunedau.  Er enghraifft, fforwm y dinasyddion, y panel safbwyntiau, y fforwm ieuenctid, Arolwg o Aelwydydd bob dwy flynedd, yn ogystal â gwybodaeth weithredol o'r gwaith rydym yn ei wneud mewn partneriaeth â'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Bwrdd Iechyd, Grwpiau Gwirfoddolwyr, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Contractwyr a buddiannau 3$^{ydd}$ partïon eraill, megis datblygwyr.
- ✓ Mae ein cyflogeion yn cymryd rhan mewn Adolygiadau Datblygu Perfformiad blynyddol.

- ✓ Mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro gweithgareddau a chanlyniadau a gyflawnir yn erbyn gweithgareddau penodol a ariennir drwy grant.
- ✓

**Sut rydym yn gwybod ein bod yn dyrannu cyllidebau ac yn ymdrin â'n harbedion a'n dadfuddsoddiadau arfaethedig yn effeithiol.**

Mae'r awdurdod yn cynllunio ac yn cymeradwyo ei gyllidebau ar sail egwyddor Cynllunio Tymor Canolig 3 blynedd, sy'n ystyried tueddiadau a phatrymau gwario hanesyddol, mentrau cenedlaethol a lleol ac argaeledd ffynonellau arian lluosog, y mae rhai ohonynt yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

Ein prif egwyddorion yw diogelu darpariaeth gwasanaethau, swyddi, gwella ein cymunedau, ei drigolion, ein seilwaith a chefn gwlad oddi amgylch, heb beryglu gwarannau ariannol yr awdurdod nawr ac yn y dyfodol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi wynebu cyfyngiadau ariannol llym sydd, mewn rhai meysydd gwasanaeth, wedi newid y ffordd rydym yn gwneud pethau (y cyfeirir atynt weithiau fel arbedion a dadfuddsoddiadau arfaethedig).

Mae'r Awdurdod, drwy waith cynllunio ariannol darbodus, gwaith monitro rheolaidd a thrylwyr a rheoli gwariant, ad-drefnu gwasanaethau, gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ag eraill, wedi llwyddo i weithio o fewn yr arian a ddarparwyd i ni yn ystod y blynyddoedd diwethaf heb beryglu'r gymuned na'r awdurdod. Am ragor o fanylion:
http://www.caerphilly.gov.uk/site.aspx?s=qb29+uFQcBPQLO2sM5/LABAEg3prVya8

**Sut y bydd yr Adroddiad wedi'i strwythuro?**

Bob blwyddyn, mae'r awdurdod yn monitro ac yn adolygu ei lefelau o ddarpariaeth gwasanaethau yn barhaus yn erbyn llond gwlad o wybodaeth, gan gynnwys adborth gan ddinasyddion, er mwyn nodi ei sefyllfa bresennol o ran bodloni gofynion deddfwriaethol penodol a darparu gwasanaethau effeithlon o safon i'n dinasyddion a'u cymunedau.


Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar roi i'r darllenydd asesiad o berfformiad a chyflawniadau'r cyngor a meysydd i'w gwella yn ystod y flwyddyn adrodd 2012/13.

Er mwyn gwneud y ddogfen hon yn haws i'w darllen, o dan yr adran **Ein Perfformiad**, rydym wedi darparu asesiad gan bob Cyfadran ar gyfer 2012/13. Bydd asesiad pob Cyfadran yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- ✓ Datganiad sefyllfa blynyddol y Gyfadran
- ✓ Asesiad o'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni ein Hamcanion Gwella ar gyfer y Gyfadran ar gyfer y flwyddyn dan sylw
- ✓ Dadansoddiad o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ar gyfer y Gyfadran ar gyfer 2012/13

- ✓ Gwybodaeth a gwaith dadansoddi ariannol sy'n ymwneud â'r Gyfadran ar gyfer 2012/13
- ✓ Gwerthusiad o wybodaeth arall am berfformiad a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ynghylch y gyfadran

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am y ffordd mae'ch Cyngor yn mynd ati i wneud gwahaniaeth i chi a'n cymunedau ac yn croesawu unrhyw sylwadau neu adborth rydych am eu cyflwyno.  Os hoffech gymryd rhan bydd yr adran sy'n dwyn y teitl ‘Sut i Gysylltu â ni’ ar dudalen 94 yn dweud wrthych sut i wneud hynny.




# Y CYNLLUN SENGL – 'CAERFFILI'N CYFLAWNI'

Ers 2004 bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid yn gweithredu strategaeth a elwir yn 'Strategaeth Gymunedol'. Roedd y Strategaeth Gymunedol yn gynllun hirdymor (10-15 mlynedd) a sefydlwyd gwahanol Bartneriaethau Strategol er mwyn cyflawni'r strategaeth. Mae'r Partneriaethau hyn wedi datblygu dros y blynyddoedd ac mae ganddynt hanes profedig o lwyddiant. Y partneriaethau yw:

- Y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Mwy Diogel
- Y Bartneriaeth Amgylchedd Byw
- Y Bartneriaeth Adfywio

Yn ystod 2011, nododd Cadeiryddion y Partneriaethau uchod a Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) Caerffili fod angen gwella strwythur Partneriaeth Strategaeth Gymunedol Caerffili, lleihau biwrocratiaeth, ailflaenoriaethu a chanolbwyntio ar wella'r modd rydym yn cyflawni newidiadau yn y gymuned mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, a bod cyfle i wneud hynny. At hynny, o ganlyniad i bwysau'r dirwasgiad a lleihad mewn gwariant cyhoeddus ar lefel genedlaethol, roedd angen cyflwyno'r rhaglen newid hon ynghynt.

I gyd-fynd â'r rhaglen waith hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (ar 19eg Mehefin, 2012) "Cydamcanu – Cydymdrechu: Canllawiau ar sut i integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau". Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau statudol ac roedd yn ei gwneud yn ofynnol i BGLlau symleiddio eu priod "dirweddau" Partneriaeth a llunio **Cynllun Integredig Sengl.** Cadarnhaodd a chymeradwyodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili y Cynllun Integredig Sengl, sy'n dwyn y teitl "**Caerffili'n Cyflawni**" yn ei gyfarfod ar 17eg Ebrill, 2013. Ar gyfer pob canlyniad a blaenoriaeth, rydym wedi nodi ein sefyllfa bresennol, yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma, yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud a sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth. Bydd y cynllun hwn wedi llwyddo pan fydd pob sefydliad yn deall y synergedd rhwng y canlyniadau a nodwyd gennym a'r gwaith y bydd pob un ohonom yn ei wneud i gefnogi pob blaenoriaeth. Mae cyswllt rhwng pob un o'r blaenoriaethau ac, felly, mae cyswllt rhwng pob un o'n camau gweithredu.

Er bod y cynllun hwn yn disodli nifer o gynlluniau presennol yr oedd yn ofynnol i ni eu llunio yn flaenorol, megis y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Diogelwch Cymunedol, mae'n ymrwymiad diwyro gan bob un ohonom i gyflymu'r broses newid, atgyfnerthu trefniadau gweithio mewn partneriaeth, cydweithredu amlasiantaeth a bod yn gyfrifol am ei gyflawni. Byddwn yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar gyda'r rhai sy'n wynebu amrywiaeth o anfanteision ac, uwchlaw pob dim, ar wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ein cymunedau, gyda'n cymunedau.

Bydd y Grŵp Cyflenwi Lleol (GCLl) yn gyfrifol ac yn atebol i'r BGLl am lunio a chyflawni cynlluniau gweithredu er mwyn cyflawni pob blaenoriaeth a'i chanlyniadau a nodwyd.

Rydym bellach yn gweithio ar ein cynlluniau gweithredu a'n mesurau perfformiad er mwyn monitro a ydym yn gwneud cynnydd yn erbyn ein gwelliannau arfaethedig a byddwn yn gallu rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am y cynnydd sydd wedi'i wneud y flwyddyn nesaf. Caiff perfformiad ei gyflwyno, ei fonitro a'i adolygu gan y GCLl a BGLl Caerffili. At hynny, bydd Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn craffu ar ***CAERFFILI'N CYFLAWNI***, fel rhan o Raglen Waith Craffu'r Cyngor.

Am ragor o wybodaeth am ***CAERFFILI'N CYFLAWNI – sef Cynllun Integredig Sengl BGLl Caerffili***, ewch i wefan Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili yn:
http://your.caerphilly.gov.uk/communityplanning/content/caerphilly-local-service-board




# Hyrwyddo Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Mae'r Cyngor hwn yn gweithio i sicrhau y gall pawb yn ein cymunedau gael y gwasanaeth sydd ei angen arno heb gael ei atal rhag gwneud hynny gan rwystrau na fyddai rhywun arall yn eu hwynebu ac felly rydym yn ymrwymedig i sicrhau y gall pawb ym Mwrdeistref Sirol Caerffili gael mynediad teg a chyfartal i wasanaethau a chyflogaeth, drwy ymgysylltu ag unigolion er mwyn deall eu hanghenion a darparu gwasanaethau sy'n eu diwallu.

Yn 2012, lluniodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cynnwys saith amcan cydraddoldeb strategol a ddatblygwyd drwy ymgysylltu ac ymgynghori, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau o ran Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (gan gynnwys dyletswyddau parhaus o dan ddeddfwriaeth flaenorol). Mae'r cynllun, ynghyd â rhagor o wybodaeth a'r adroddiadau blynyddol, ar gael yn www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb.

**Datganiad Cydraddoldeb y Cyngor:**

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion ac amcanion gwahanol a byddwn yn gweithio'n weithredol yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hybu cysylltiadau da, a pharch at ei gilydd yn ein holl gymunedau, trigolion, aelodau etholedig, ymgeiswyr am swyddi a'n gweithlu, a rhyngddynt.

Byddwn hefyd yn gweithio i greu mynediad cyfartal i bawb at ein gwasanaethau, heb ystyried tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, daliadau crefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o'r Iaith Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am bobl ddibynnol neu unrhyw reswm arall na ellir dangos bod cyfiawnhad iddo.









PASSPORT TO EMPLOYMENT
SC231 SOCIAL CARE
MC578 MECHANIC
CA923 CATERING
HE447 HEALTH
EN190 ENGINEER
MN361 MANAGER
Passport
CAERPHILLY
Programme






CO2
CARBON
MANAGEMENT



# Y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol

## Datganiad Perfformiad Cyffredinol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2012/13

**Nicole Scammell**

Cyfarwyddwraig Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol



Mae Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys y gwasanaethau canlynol: Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyllid Corfforaethol, Gwasanaethau Rheoli Perfformiad ac Eiddo, Gwasanaethau TG (gan gynnwys Cyfathrebu a Chanolfannau Cwsmeriaid yn Gyntaf) a Thai. Mae gennym hyd at 1100 o Gyflogeion sy'n helpu i gefnogi gwasanaethau a dinasyddion mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

Roedd yn flwyddyn brysur i'r gwasanaethau corfforaethol a bu ein Hadran Adnoddau Dynol yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu ac ymestyn Cynllun Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau Caerffili. Lansiwyd y cynllun hwn, a elwir bellach yn Gynllun Pasbort, er mwyn rhoi sgiliau a phrofiad i unigolion sy'n ddi-waith a'u helpu i gael gwaith drwy amrywiaeth gwahanol o lwybrau. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn ac mae cyfleoedd yn codi i ddatblygu ymhellach. Mae llawer o ddiddordeb o'r tu allan yn y cynllun. Felly mae trefniadau cydweithredu yn debygol o gael eu rhoi ar waith ar gyfer y cam nesaf.

Mae'r rhaglen 'O Fudd-dal i Waith' yn gwneud newidiadau mawr i Fudd-daliadau Tai ar gyfer tenantiaid y cyngor a thenantiaid landlordiaid cymdeithasol eraill. Mae Llywodraeth y DU yn lleihau faint o fudd-dal tai y gall rhai unigolion ei hawlio yn seiliedig ar faint yr eiddo a rentir a'r unigolion sy'n byw yno. Cymeradwywyd Deddf Diwygio Lles Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2012 ac mae un o'r prif newidiadau yn ymwneud â budd-daliadau tai. Gwelodd llawer o denantiaid tai cymdeithasol (sy'n rhentu gan y Cyngor neu Gymdeithas Dai) newid yn eu budd-dal tai o fis Ebrill 2013. Mae hyn hefyd yn effeithio ar ddyraniadau eiddo am ei bod yn bosibl y bydd tenantiaid yn ceisio newid i gartrefi â llai o ystafelloedd gwely ac efallai na fydd hyn yn cyd-fynd â'n stoc tai bresennol. Rydym yn parhau i weithio gyda thenantiaid a phartneriaid er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a chymorth ar gael i bawb sydd eu hangen.

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yn ymrwymedig i'r agenda gydweithredu ac, felly, byddant yn parhau i chwarae rhan lawn yn y Prosiect Gwasanaethau Cyfreithiol a Rennir ar gyfer De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru. Bydd y flwyddyn i ddod yn un hanfodol bwysig a heriol i Gaerffili a'r naw Awdurdod arall sy'n cymryd rhan, pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniadau pwysig ynghylch dyfodol y cydweithrediad.

Rydym wedi datblygu proses gwyno gorfforaethol gadarn ymhellach ac erbyn hyn rydym yn bwriadu defnyddio gwybodaeth sy'n dod i law i wella gwasanaethau drwy sefydlu Grŵp 'Gwrando a Dysgu'. Y bwriad oedd y byddai'r system hon ar waith erbyn diwedd 2012/13 ond cafodd ei gohirio ac nis sefydlwyd tan 1af Ebrill 2013. Fodd bynnag, rydym bellach yn symud ymlaen.

Gwnaethom gryn dipyn o waith ar ddadansoddi gwaith craffu ein Haelodau a cheir rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn o dan yr adran ‘Adolygu ein Gwasanaethau’.

Rydym wedi rhoi Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol ar waith, er i'r cynllun gael ei feirniadu ychydig gan ein harchwilwyr, oherwydd ei natur strategol (am eu bod yn credu ei fod yn fwy gweithredol o ran ei natur). Mae'r adroddiad yn cydnabod bod llawer o newidiadau wedi bod yn y ffordd y mae'r Cyngor wedi rheoli ei asedau dros y 18 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'n awgrymu bod y Cyngor wedi bod yn araf yn datblygu meysydd allweddol, megis cynlluniau rheoli asedau gwasanaethau. Byddwn yn mynd i'r afael â'r mater hwn wrth i ni symud ymlaen.

Mae Gwasanaethau Eiddo wedi arwain y gwaith o gyflawni Datblygiad Chwaraeon Ysbyty Ystrad Fawr, sy'n gyfleuster o'r radd flaenaf a fydd yn cynnwys dau arwyneb chwarae artiffisial 3$^{edd}$ Genhedlaeth (3G) ar gyfer pêl-droed a rygbi. Bydd y datblygiad hwn yn darparu cyfleuster o'r radd flaenaf i'w ddefnyddio gan y gymuned leol, sy'n ategu ein hymdrechion i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith pob grŵp oedran yn yr ardal. Disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2014.

Agorodd dwy Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid mewn llyfrgelloedd newydd eu hadnewyddu ym Margod a Rhisga. Fodd bynnag, roedd disgwyl i lyfrgell Caerffili agor ar ddiwedd 2012 ond mae wedi'i gohirio tan fis Tachwedd 2103 yn sgil penderfyniad newydd gan y Cyngor i brynu'r eiddo yn hytrach na'i gymryd ar brydles. Wrth wneud hynny byddwn yn arbed tua £5m.

Rhoddwyd Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion ar waith a chynhaliwyd ein harolwg o aelwydydd a gynhelir bob dwy flynedd, sy'n rhoi cyfle i ni holi dinasyddion am ein gwasanaethau. Er y dylai'r arolwg hwn fod wedi'i gynnal ym mis Chwefror, cafodd ei ohirio tan fis Mehefin 2013. Dangosodd canlyniadau'r arolwg diwethaf o Aelwydydd yn 2011 fod 78% o ymatebwyr yn fodlon ar y gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan y Cyngor ac yn ein harolwg mwyaf diweddar yn 2013 cynyddodd y cyfraddau boddhad i 82% (gweler boddhad cwsmeriaid tudalen 92)

Yn dilyn canlyniad y Bleidlais ar Drosglwyddo'r Stoc Tai, mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) bellach yn rhaglen flaenllaw fawr i'r Cyngor sy'n cynnwys gofyniad cyllidebol o tua £200m rhwng 2012 a 2019 a mwy nag £800m dros oes y cynllun busnes 30 mlynedd. Mae cyflawni'r rhaglen yn her sylweddol ac yn gyfle i gysylltu canlyniadau tai a chanlyniadau adfywio. Gweddnewid ystadau yw un o'r wyth thema weithgarwch yn Strategaeth Adfywio'r Cyngor, sef “Pobl, Busnes, Lleoedd”. Dylai'r buddsoddiad yn SATC fod yn sbardun i gyflawni amcanion ehangach gan gynnwys swyddi newydd a chyfleoedd hyfforddi i bobl leol. Mae gwaith eisoes wedi dechrau o ddifrif i gynyddu cyfranogiad tenantiaid; mae gweithgorau wedi'u creu sy'n cynnwys tenantiaid, aelodau o'r cabinet a swyddogion ond bydd y strategaeth newydd yn darparu fframwaith i gynnwys tenantiaid ym mhob maes o'r gwasanaeth tai a ledled y fwrdeistref.

## Gwybodaeth a gwaith dadansoddi ariannol ar gyfer y Gyfadran Gorfforaethol ar gyfer 2012/13

Ar y cyfan, mae'r Gyfadran yn parhau i weithio o fewn terfynau'r gyllideb a ddyrannwyd iddi ar sail gyson ac mae wedi gwneud rhai arbedion ac arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn rheoli pwysau costau sy'n deillio o newidiadau demograffig a'r galw cynyddol am wasanaethau. Roedd angen gwneud yr arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd hyn er mwyn atal costau diangen a cheisio dod o hyd i ffyrdd gwell o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Dros y tair i bum mlynedd nesaf bydd y dirwedd ariannol yn parhau i fod yn un heriol i'n hawdurdod ac er bod Gwasanaethau Corfforaethol wedi llwyddo i reoli eu cyllid yn dda yn ystod 2012-13, mae'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu yn y dyfodol yn rhai gwirioneddol, sylweddol a heriol.

Y sefyllfa alldro ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 2012/13 oedd tanwariant cyffredinol o £787k ac roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i oedi na ellid ei osgoi cyn llenwi swyddi gwag, ynghyd ag oedi cyn caffael meddalwedd newydd. Nodwyd y tanwariannau mwyaf sylweddol yn yr Adran Cyllid Corfforaethol (£383k), TG (£176k) a Gwasanaethau Rheoli Perfformiad ac Eiddo (£160k).

Un o'r prif heriau sy'n ein hwynebu yn y dyfodol yw bod llywodraeth ganolog yn torri gwariant a bydd hyn yn ei dro yn lleihau'r arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i'w ddyrannu i wasanaethau cyhoeddus. Gan fod angen diogelu iechyd a thrafnidiaeth bydd llai o adnoddau ar gael i Lywodraeth Cymru eu rhoi i lywodraeth leol ac mae arwyddion y caiff setliadau blynyddol yn y dyfodol eu rhewi neu eu lleihau.

Gan fod 70% o arian y cyngor yn dod o Lywodraeth Cymru (codir 30% o'r dreth gyngor) gallai unrhyw leihad fod yn un sylweddol. Mae a wnelo un o'r prif heriau sy'n wynebu gwasanaethau corfforaethol â'r 'addewid' lle mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i arian Llywodraeth Leol ddiogelu meysydd penodol megis Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgolion. Golyga hyn y caiff unrhyw doriadau eu gwneud i'r gwasanaethau y tu allan i'r meysydd hyn, sef yr Amgylchedd a Gwasanaethau Corfforaethol.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth iddi ddod i law. Ceir rhagor o wybodaeth am y sefyllfa ariannol yn gyffredinol ar dudalen x

Ar y dudalen nesaf rydym yn darparu asesiad o berfformiad yn erbyn ein Hamcan Gwella ar gyfer 2012/13.

## Amcan Gwella - Sicrhau bod dinasyddion yn deall pam, pryd a sut i ymgysylltu â ni (AG 1)

Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2012/13:

- Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â dinasyddion ac yn rhoi adborth iddynt.
- Bydd dinasyddion yn deall yn well eu rôl yn ymgysylltu â'r cyngor ac yn deall sut y gallant ddylanwadu ar bolisïau a gwasanaethau a'u llunio drwy ymgysylltu.
- Yn 2013 bydd yr Arolwg o Aelwydydd gan y cyngor yn dangos gwelliant yng nghanfyddiad cwsmeriaid o'n gwasanaethau.
- Byddwn yn sicrhau cymysgedd mwy cynrychioliadol o ddinasyddion sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau ymgynghori / ymgysylltu sy'n cyfateb i ddemograffeg y boblogaeth leol.
- Drwy ein proses gwyno gorfforaethol, rydym yn casglu gwybodaeth ac mae dinasyddion yn deall bod hyn yn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn gwneud pethau.

☹ Aseswyd yr Amcan Gwella hwn a daethpwyd i'r casgliad ein bod wedi **Methu** â'i gyflawni yn 2012/13. Y rheswm dros hyn yw, er i ni osod y sylfeini ar gyfer gwneud y gwelliannau, ein bod yn araf yn gwneud hynny ac, felly, nad oeddem wedi cyflawni unrhyw newid yn y flwyddyn adrodd 12/13. Disgwyliwn gael darlun llawnach o effaith ein camau gweithredu yn 2013/14

**Yn hyn a wnaethom yn dda a'r gwahaniaeth a wnaeth**

Cafodd ein proses gwyno newydd ei lansio a'i hyrwyddo er mwyn gwella ymwybyddiaeth cwsmeriaid o sut y gallant roi adborth i ni. Datblygwyd strategaethau Ymgysylltu â Dinasyddion allweddol ar gyfer y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a chytunodd y Cabinet ar flaenraglen waith gadarn. Fel rhan o'r rhaglen waith hon bydd yr awdurdod yn mabwysiadu dull newydd o ymgysylltu â'n rhanddeiliaid.
Mae datblygiadau i'w nodi yn cynnwys y canlynol:

- Mabwysiadu Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion newydd ar gyfer CBSC
- Mabwysiadu Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion newydd ar gyfer y BGLl
- Comisiynu Arolwg o Aelwydydd 2013 (Mehefin 2013)
- Creu Cronfa ddata Ymgynghori gorfforaethol newydd
- Datblygu amserlen hyfforddi a dysgu newydd ar gyfer staff

Mae archwiliad o systemau ymgysylltu cyfredol a ddefnyddir ledled yr awdurdod wrthi'n cael ei gynnal a byddwn yn ystyried ffyrdd newydd o ymgysylltu - yn enwedig gan ddefnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol. Mae gweithgor ar draws cyfadranau hefyd wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau y mabwysiedir dull cyson o weithredu ar draws meysydd gwasanaeth yn y dyfodol.

**Yr hyn nad aeth yn dda**

Er bod cynnydd da wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf o ran datblygu agenda Ymgysylltu â Dinasyddion y cyngor ni chyflawnwyd llawer o'n camau gweithredu yn ystod 12/13 ac araf fu'r cynnydd. Roedd disgwyl i'r Arolwg o Aelwydydd gael ei gynnal ym mis Chwefror 2013 ond fe'i gohiriwyd ac fe'i cynhaliwyd yn ystod mis Mehefin 2013. Felly, ni fu'n bosibl i ni ddiweddaru rhai o'r camau gweithredu a dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â'r canlyniadau.

Rydym wedi adolygu a diweddaru ein polisi cwynion yn unol â'r argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â gweithredu polisi cwynion cyffredin ledled Cymru. Roedd y broses gwyno newydd ar waith erbyn 1af Ebrill 2013. Rydym bellach yn cynnal Grwpiau Gwrando a Dysgu rheolaidd, a fydd yn ein galluogi i ddadansoddi'r cwynion a gawn a deall mwy amdanynt. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn dod o dan y flwyddyn 2013/14, felly ni ellir ystyried bod rhai o'r camau gweithredu a'r mesurau ar gyfer 2012/13 wedi'u cwblhau.

**Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well**

Er bod llawer o'r prosesau a'r gweithdrefnau bellach ar waith, ar ddiwedd 2012/13 ni allwn ddweud ein bod wedi llwyddo i sicrhau bod dinasyddion Bwrdeistref Sirol Caerffili yn deall pam, pryd a sut i ymgysylltu â ni a'r effaith a gaiff eu hymgysylltu o ran ein helpu i wella gwasanaethau ar y cam hwn. Mae hwn yn fater y bydd angen i ni ei adolygu nawr ar ddiwedd 13/14 er mwyn gweld a yw'r sylfeini a osodwyd bellach yn gweithio.

Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A

## Dadansoddi Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ar gyfer 2012/13
## Gwasanaethau Corfforaethol

| Cyf | Disgrifiad | 2011 12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **HHA 013** | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref lle yr ataliwyd digartrefedd am o leiaf chwe mis. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 84.1/13% | $10^{fed}$ allan o 22 | | 80.0/13% | 88.2/13% | $11^{eg}$ allan o 22 | 62.6/13% |
| ☺ | Dros y tair blynedd diwethaf ac er gwaethaf llawer o amgylchiadau cyfnewidiol a all effeithio ar y gweithgaredd hwn, nad ydynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr awdurdod, mae ein canlyniadau perfformiad gryn dipyn yn well na'r disgwyl. Ein targed nôl yn 2010/11 oedd 50% i ddechrau, fe'i codwyd i 80% ar gyfer 2011/12 a 2012/13 ac er ein bod wedi gweld cynnydd cyson yn nifer yr achosion dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i gynnal lefelau da o berfformiad. Roedd y ffigur ar gyfer 2012/13, sef 88.2% (247 allan o 280 o achosion) yn welliant o gymharu â'r 84.1% (195 allan o 232 o achosion) yn 2011/12 ac roedd hefyd yn well na chyfartaledd Cymru Gyfan, sef 62.6%.<br>Credwn fod ein gwaith atal Digartrefedd, cynyddu adnoddau staff a gwneud gwell defnydd o nifer o ffrydiau ariannu presennol, wedi sicrhau'r gwelliant hwn. Mae taliadau tai dewisol wedi'u defnyddio i ariannu diffygion mewn rhent a daethpwyd â gwahanol ffrydiau ariannu eraill at ei gilydd er mwyn sicrhau bod opsiynau tai mwy fforddiadwy yn y sector rhentu preifat ar gael i aelwydydd sy'n wynebu toriadau yn sgil y Mesur Diwygio Lles, neu y mae angen cymorth mewn argyfwng arnynt. Mae hyn, ynghyd â'r gwaith partneriaeth parhaus mewn perthynas ag achub morgeisi wedi atal mwy o aelwydydd rhag bod yn ddigartref nag yn y flwyddyn flaenorol. | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **PSR 002** | Nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl. (DSC)<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | 333 | $14^{eg}$ allan o 22 | | 320 | 299 | $13^{eg}$ allan o 22 | 271 |

| Cyf | Disgrifiad | 2011 12 | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ein Canlyniad** | **Safle yng Nghymru** | **Targed** | **Ein Canlyniad** | **Safle yng Nghymru** | **Cyfartaledd Cymru Gyfan** |
| ☺ | Llwyddwyd i leihau nifer gyfartalog y diwrnodau calendr rydym yn eu cymryd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac mae nifer gyfartalog y diwrnodau wedi lleihau o 333 diwrnod yn 2011/12 i 299 diwrnod yn 2012/13. Er nad yw hyn cystal â chyfartaledd Cymru Gyfan, sef 271 diwrnod, un o'r pethau allweddol a'n helpodd i wella oedd symleiddio ein gweithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog. | | | | | | |
| **PSR 004** | Canran yr anheddau yn y sector preifat a fu'n wag am fwy na chwe mis ar 1 Ebrill a ddychwelwyd i feddiannaeth yn ystod y flwyddyn drwy gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. **(DSC)**<br><br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 4.63% | 8fed allan o 22 | 3.80% | 3.07% | 16eg allan o 22 | 5.11% |
| ☹ | Roedd y broses o roi'r cynllun Benthyciadau newydd "Troi Tai'n Gartrefi" ar waith yn ystod 2012/13 wedi dargyfeirio ein hadnoddau mewnol i'r fath raddau fel na fu'n bosibl i ni wella ar y ffigur o 4.63% (36 eiddo allan o 777) o anheddau yn y sector preifat a fu'n wag am fwy na chwe mis a ddychwelwyd i feddiannaeth yn 2011/12. Yn 2012/13, gostyngodd y ganran ar gyfer Caerffili i 3.07% (29 eiddo allan o 944), sy'n is na chyfartaledd Cymru Gyfan, sef 5.11%. Fodd bynnag, rydym bellach wedi neilltuo adnoddau ychwanegol i'r swyddogaeth hon a gobeithio y byddwn yn gweld gwelliant yn y ffigurau ar gyfer 2013/14. Er na lwyddwyd i gyflawni ein targed, dylid nodi bod dychwelyd unrhyw eiddo a fu'n wag ers amser maith i feddiannaeth o fudd i'r gymuned/dinasyddion. Ar gyfer 2011/12 roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog, sydd wedi gostwng bellach yn 2012/13 i'r chwartel isaf. | | | | | | |

| Dengys ein dangosyddion perfformiad y canlynol: | | | |
|---|---|---|---|
| Canlyniadau'r flwyddyn bresennol o'u cymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol | (coch) | ☹ | Yn waeth na'r flwyddyn flaenorol |
| | (oren) | 😐 | Yn cyfateb i'r flwyddyn flaenorol |
| | (gwyrdd) | ☺ | Yn well na'r flwyddyn flaenorol |
| | | **Dd/G** | Nid oes data ar gael neu ni ellir ei gymharu – gweler sylwadau unigol am esboniad. |

## Gwerthuso gwybodaeth arall am berfformiad a gasglwyd yn ystod y flwyddyn 2012/13 ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol

- ☺ Llwyddwyd i gyflymu'r broses o dalu anfonebau i fusnesau bach a chanolig i 12.78 diwrnod. Mae hyn fwy na diwrnod yn gyflymach nag yn 2011/12 pan gymerodd 13.92 diwrnod. Mae hyn yn helpu i wella llif arian parod busnesau.
- ☺ Eleni dyfarnwyd 185 o gontractau i gyflenwyr lleol. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r ffigur a gofnodwyd y llynedd, sef 148.
- ☺ Ar gyfartaledd, mae'n cymryd 10.28 diwrnod i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budd-daliadau Treth Gyngor a newidiadau mewn amgylchiadau. Mae hyn yn well na'r 12.07 diwrnod a gofnodwyd yn 2011/12. Gyda llai o adnoddau ac o ystyried effaith y newidiadau i Fudd-daliadau Lles, perfformiad da yw hwn.
- ☺ Casglwyd 96.40% o'r holl dreth gyngor a oedd yn ddyledus yn y flwyddyn ariannol. Mae hyn ychydig yn well na'n perfformiad y llynedd, sef 96.20%, sy'n golygu mai dyma'r gyfradd gasglu uchaf a gyflawnwyd gan yr awdurdod hyd yma.
- ☺ Gwnaed 184 o adeiladau'r cyngor yn addas ac yn rhesymol hygyrch i aelodau anabl o'r cyhoedd.
- ☺ O'r cwynion a gafwyd yn 2012/13. Ymatebwyd i 98% o'r cwynion a gafwyd o fewn yr amserlenni.
- ☺ Wrth ymweld â'n Canolfannau Cwsmeriaid yn Gyntaf, gwelwyd 84.80% o gwsmeriaid o fewn 10 munud, sy'n well na'r ffigur a gofnodwyd yn 2011/112, sef 82.26%
- ☺ Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd 98.20% o gwsmeriaid a oedd yn ymweld â'n Canolfannau Cwsmeriaid yn Gyntaf eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent newydd ei gael.
- ☺ Ar y cyfan roedd ein gweithlu yn cynrychioli poblogaeth y Fwrdeistref Sirol o rwn canran ein cyflogeion sy'n anabl neu sy'n dod o leiafrif ethnig.
- ☺ Penderfynir ar 78.67% o gyflwyniadau digartrefedd o fewn 33 diwrnod gwaith.
- ☺ Pan ofynnwyd iddynt nodi pa mor fodlon oeddent ar yr amser a gymerwyd i gwblhau gwaith grant, dywedodd 96% o dderbynwyr eu bod yn fodlon. Hefyd, dywedodd 99% o dderbynwyr grant eu bod yn fodlon ar ansawdd y gwaith a wnaed.
- ☺ Ar ddiwedd 2012/13 roedd 1.23% o'n Stoc Tai yn wag. Golygai hyn, allan o'r 10912 o adeiladau, fod 134 yn wag.
- ☺ Roedd 91.5% o denantiaid yn fodlon ar y Gwasanaeth Dyrannu a Gosod Tai a ddarperir gennym. Mae hyn yn well na chanlyniad y flwyddyn flaenorol, sef 89.64%.
- ☺ Yn 2012/13 talwyd 94.20% o anfonebau o fewn 30 diwrnod. Mae hyn yn well na'r ffigur a gofnodwyd y llynedd, sef 93.39%.

- ☹ Yn 2012/13 ein cyfradd absenoldeb oherwydd salwch oedd 4.08%. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ffigur a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol, sef 3.93%. Ar nodyn cadarnhaol, ni fu 45% o gyflogeion yn absennol oherwydd salwch yn 2012/13
- ☹ Yn ein Canolfan Gyswllt, atebwyd 75.13% o alwadau o fewn 20 eiliad. Mae hyn yn is na'r 83.17% a atebwyd o fewn yr amser targed y llynedd. Ar gyfartaledd, cymerodd 24.85 eiliad i ateb galwad.
- ☹ O'r 637 o geisiadau am wybodaeth a gafwyd gan y Cyngor o fewn telerau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, ymatebwyd i 473 o fewn 20 diwrnod, sy'n cyfateb i 74.25%. Mae hyn yn llai na'r 84% o geisiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod yn 2011/12
- ☹ Nifer gyfartalog y diwrnodau a dreulir gan bob teulu digartref mewn llety Gwely a Brecwast oedd 39 diwrnod yn 2012/13. Yn 2011/12 nifer gyfartalog y diwrnodau oedd 37.21. Gellir esbonio hyn gan y ffaith bod Defnyddwyr ein Gwasanaethau Gwely a Brecwast bellach yn cymryd ychydig mwy o amser i ymchwilio a gwneud penderfyniadau am eu bod wynebu problemau mwy cymhleth.. Hefyd, mae meini prawf llymach yn cael eu defnyddio mewn meysydd penodol, megis dim alcohol/cyffuriau. Mae hyn yn golygu y bydd rhai yn aros mewn llety Gwely a Brecwast am fwy o amser. Mae hefyd yn bosibl bod rhai unigolion yn amharod i lofnodi cytundebau ar gyfer tenantiaethau sicr oherwydd y dreth ystafell wely newydd sydd wedi'i chyflwyno, am nad ydynt yn gallu fforddio talu'r gwahaniaeth.
- ☹ Mae lefel boddhad y tenantiaid hynny sydd wedi symud i gartref newydd wedi gostwng i 73.13%, sy'n is na'r lefel boddhad a gofnodwyd yn 2011/12, sef 77.04%. Yn gyffredinol, mae'r lefel o anfodlonrwydd ond wedi codi ychydig dros 1% am fod nifer o unigolion yn ateb y cwestiwn drwy nodi ‘dim barn’, sydd wedi effeithio ar lefelau boddhad.
- ☹ Mae 47.09% o arwynebedd mewnol crynswth (GIA) adeiladau'r awdurdod lleol mewn cyflwr gwael neu wael iawn, er bod hyn yn golygu bod 52.91% yn cael eu hystyried yn foddhaol neu'n dda.

# Y Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Datganiad Perfformiad Cyffredinol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2012/13

**Sandra Aspinall**

Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwraig Addysg a Dysgu Gydol Oes



Mae'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gyfrifol am ddarparu addysg statudol i blant a phobl ifanc ac mae'n rhoi cymorth ac arweiniad i deuluoedd er mwyn rhoi cyfleoedd i'r plant a'r bobl ifanc hynny gyflawni o fewn eu hysgolion a'u cymunedau. Mae gennym fwy na 5000 o aelodau o staff sy'n gweithio mewn amrywiaeth o rolau megis ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cyllid Addysg, Addysg Oedolion, Gwasanaeth Ieuenctid a Gwasanaethau Llyfrgell.

**Yr hyn a aeth yn dda eleni:**

- Symudodd ein gwasanaethau i wasanaeth a rennir, sef y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), ym mis Medi 2012 ac aeth y broses drosglwyddo hon yn dda.
- Cyflwynwyd Fframwaith Ymyrryd yr EAS. Golyga hyn fod pob ysgol wedi'i dosbarthu ac mae'r ysgolion hynny sydd angen cymorth fwyaf yn cael y cymorth priodol gyda chynlluniau ymyrryd a chaiff cynnydd ei fonitro.
- Dechreuwyd hyfforddi pob Clerc Ysgol ym mhob Ysgol er mwyn gwella ffurflenni Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer disgyblion, gan arbed tua £350k eleni.
- Agorwyd ysgol gynradd newydd Cwm Ifor yn unol â'r fanyleb ac fe'i hystyrir yn brosiect enghreifftiol.
- Rhoddodd Llywodraeth Cymru gronfa o £3m i gaffael hen safle ysgol Sant Ilan er mwyn datblygu ysgol gyfrwng Cymraeg newydd arno.
- Rydym wedi parhau â'n rhaglen o wella'r cyfleusterau lles yn ein hysgolion.
- Cynhaliwyd rhaglen o adolygiadau o adeiladau ein hysgolion cynradd, a arweiniodd at leihad yn nifer y lleoedd gwag.
- Cwblhawyd y gwaith o gaffael a dodrefnu cyfleusterau Llyfrgell wedi'u hadnewyddu ac adeiladau newydd yn 2012-13 ar amser ac o fewn y gyllideb gan gynnwys Llyfrgell Abercarn ac mae gwaith dadansoddi perfformiad cychwynnol yn nodi cynnydd o 9% yn nifer y llyfrau a fenthycwyd a chynnydd o 28% yn nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd

**Yr hyn y mae angen i ni wella arno**

- Mae angen codi safonau yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ymhellach.
- Mae angen ymgorffori Fframwaith Ymyrryd yr EAS yn llawn er mwyn cynyddu lefelau cymorth a her i bob ysgol ymhellach ac mae angen datblygu prosesau sicrhau ansawdd yr EAS ymhellach.
- Mae angen mireinio'r defnydd a wneir o ddata presenoldeb er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus.
- Mae angen rhoi rhagor o hyfforddiant i Glercod Ysgol er mwyn cynyddu'r potensial i gael grantiau cymorth

**Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf?**

Mae angen i ni gwblhau ein hadolygiad o anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant, gan gynnwys pa wasanaethau sydd eu hangen ar gyfer disgyblion rhwng 14 a 19 oed a rhoi argymhellion ar waith unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.
Rydym am barhau i adolygu'r defnydd a wneir o ddata o fewn y prosesau hunanwerthuso sefydledig er mwyn sicrhau gwelliant pellach.
Mae angen i ni roi rhagor o hyfforddiant i Glercod Ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.
Mae angen i ni fwrw ymlaen â Cham 1 o'r rhaglen ad-drefnu addysg uwchradd – Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae angen i ni fwrw ymlaen â'r rhaglen ad-drefnu addysg uwchradd fel mater o flaenoriaeth, er mwyn lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd.
Mae'r defnydd o dargedau perfformiad 'Go4it' ar gyfer benthyca llyfrau wedi cyrraedd uchafbwynt - mae angen mabwysiadu dull newydd o weithredu er mwyn i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd gyflawni ei nodau o gynyddu nifer yr unigolion sy'n ymweld â llyfrgelloedd a sicrhau bod mwy o ddeunyddiau yn cael eu benthyca. Disgwylir i Raglen Moderneiddio Llyfrgelloedd y Cyngor gael ei chwblhau yn ystod 2013-14, yn arbennig gwaith adnewyddu Llyfrgell Aberbargod, cynllun Neuadd Goffa Trecelyn a Llyfrgell a Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd Caerffili.

**Eleni buom yn destun arolygiad gan ESTYN a'r Farn Gyffredinol oedd: Boddhaol:** cafwyd bod safonau yn gyffredinol yn foddhaol, yn benodol:

- Yn 2011 yng nghyfnod allweddol 3, roedd dwy o bob tair ysgol uwchradd yn is na'r cyfartaledd ac, yng nghyfnodau 3 a 4, roedd gormod o ysgolion yn y chwarter isaf ar gyfer dangosyddion perfformiad pwysig o'u cymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim;
- Nid yw Caerffili wedi cyrraedd ei meincnod a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yng nghyfnod allweddol 3 yn y tair blynedd diwethaf;
- Nid yw ysgolion uwchradd wedi'u dwyn i gyfrif yn gyson am eu perfformiad ac, o ganlyniad, mae rhai ysgolion wedi bod yn rhy araf yn gwella.
- Mae nifer y gwaharddiadau tymor penodol o ysgolion am bum diwrnod neu lai wedi cynyddu'n sylweddol; ac ers yr arolygiad diwethaf yn 2009.
- Ni wnaed fawr ddim cynnydd o ran lleihau'r nifer sylweddol o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd a chynradd.
  Fodd bynnag, nodwyd enghreifftiau o arfer da, megis;

- ✓ Pan gymherir perfformiad ysgolion yng Nghaerffili â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, yn seiliedig ar y ganran sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 1 a 2;
- ✓ Mae perfformiad yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella yng nghyfnod allweddol 4 dros y pedair blynedd diwethaf ac yn 2011 cyrhaeddodd yr awdurdod y ddau brif feincnod ar gyfer cyfnod allweddol 4;
- ✓Mae prosesau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynnar a chymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion corfforol a'u hanghenion dysgu; ac mae Caerffili yn llwyddo i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).

Cafwyd pum argymhelliad i wella'r meysydd a nodwyd uchod a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i wneud y gwelliannau hynny.

Ar gyfartaledd, bu'n flwyddyn gymysg o ran perfformiad. Mae cyfraddau presenoldeb wedi cynyddu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae nifer gyfartalog y diwrnodau ysgol y mae disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol yn aros cyn cael cynnig addysg amgen llawn amser bron wedi haneru eleni. Rydym wedi ymuno â gwasanaeth newydd a rennir ar gyfer Addysg, sef yr EAS, ac mae hyn wedi bod yn newid mawr. Ychwanegwch rywbeth ynglŷn â Llyfrgelloedd neu ganolfannau cymunedol. Mae arolygiad ESTYN wedi rhoi barn allanol ar rai meysydd sy'n mynd yn dda a rhai meysydd lle mae angen i ni wella fel y nodwyd uchod.

Ac yn olaf, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg wyneb yn wyneb a gynhelir ledled Cymru bob blwyddyn lle y gofynnir i 14,500 o unigolion 16 oed a throsodd roi eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u hardal leol. Rhoddwyd atebion ymatebwyr ar raddfa o 0 (gwael iawn) i 10 (eithriadol o dda) ac mae'n braf nodi bod Pobl yng Nghaerffili wedi rhoi'r sgôr uchaf ar gyfer cyflwr addysg , sef 7.0 (y sgôr isaf oedd 6.1 a chyfartaledd Cymru oedd 6.4). Ein nod yw adeiladu ar y lefel hon o foddhad gydag amrywiaeth o fentrau gwella ar gyfer 2013-2014.

## Gwybodaeth a gwaith dadansoddi ariannol ar gyfer 2012/13

Yn gyffredinol mae'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes (gan gynnwys ysgolion) yn cofnodi tanwariant cyffredinol o £2m ar gyfer 2012/2013 sy'n cynnwys tanwariant o £480k ar gyfer ysgolion a £364k a briodolir i Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg.

Mae'r Gyfadran (heb gynnwys) yn cofnodi tanwariant o £1.521m. Mae hyn yn cynrychioli tanwariant ym mhob un o'r tri Maes Gwasanaeth: Cynllunio a Strategaeth £635k, Dysgu, Addysg a Chynhwysiant £494k a Dysgu Gydol Oes £392k.

Dros y tair i bum mlynedd nesaf bydd y dirwedd ariannol yn parhau i fod yn heriol i'n hawdurdod ac er bod Gwasanaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi llwyddo i reoli eu cyllid yn dda yn ystod 2012-13, mae'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu yn y dyfodol yn rhai gwirioneddol, sylweddol a heriol.

Mae'r tudalennau canlynol nawr yn rhoi sylw i'n perfformiad yn erbyn ein Hamcan Gwella ar gyfer 12/13 a data perfformiad ehangach:

## Amcan Gwella - Gwella Sgiliau Plant a Phobl Ifanc (AG 4)

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2012/13**

1. Gwella sgiliau ein holl ddysgwyr drwy'r nodau a amlinellwyd yn strategaeth Sgiliau Caerffili, i wella mynediad at ddysgu.
2. Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant
3. Lleihau nifer yr oedolion ifanc sy'n gadael heb gymhwyster
4. Lleihau nifer y plant a phobl ifanc a gaiff eu gwahardd yn barhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd

Aseswyd yr Amcan Gwella hwn a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn **Rhannol Lwyddiannus** ar gyfer 2012/13.

Daethom i'r casgliad hwn oherwydd, er bod yr holl gamau gweithredu o fewn ein cynllun gweithredu (gweler atodiad A) wedi'u cwblhau'n llawn a bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ers yr adroddiad blaenorol (gweler isod), cynyddodd nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn 2012/13, er i'r adroddiad gan ESTYN (fel y nodwyd ar dudalen) yn 2013 nodi ein bod wedi llwyddo i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, ers hynny. Fodd bynnag, barn gyffredinol adroddiad Estyn oedd bod ein perfformiad yn 'ddigonol'. Mae'r adroddiad yn defnyddio yn bennaf ddata o'r Flwyddyn Academaidd 11/12, a gwblhawyd ym mis Awst 2012 am mai dyma'r data diweddaraf o fewn blwyddyn academaidd a gwblhawyd.

**Yr hyn a wnaethom yn dda a'r gwahaniaeth a wnaeth**

Dengys y data fod cynnydd parhaus wedi'i gofnodi o ran Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3 sydd wedi codi o 62.4% i 68.4%, sy'n golygu bod BS Caerffili wedi codi i'r 18fed safle yng Nghymru, ac yng Nghyfnod Allweddol 4 mae'r Dangosydd Pynciau Craidd wedi codi o 41.8% i 43%. Cynyddodd canran y disgyblion sy'n cyrraedd L4+ ar ddiwedd Asesiadau CA2 yn SAESNEG 2% o 82% i 84%, bron 2% yn achos y Gymraeg a mwy na 2% yn achos MATHEMATEG.

**Yr hyn nad aeth yn dda**

Dengys y data a gofnodwyd o ran y bwlch rhwng canran y bechgyn a chanran y merched ar gyfer y dangosyddion hyn nad yw'r bwlch wedi cyflawni'r targed. Fodd bynnag, mae'r data yn gyson â'r garfan o ddisgyblion a aseswyd. Rydym bellach wedi sefydlu proses i olrhain perfformiad disgyblion er mwyn nodi gwahaniaethau sylweddol ym mherfformiad disgyblion a phennu targedau priodol.

Roedd perfformiad y dangosyddion ar gyfer canran y bobl ifanc sy'n cyrraedd trothwy Lefel 1 a Lefel 2 yn is na'r canlyniad disgwyliedig. Roedd hyn i'w briodoli i danberfformiad nifer fach o ysgolion o fewn yr awdurdod, a amharodd ar y gwelliannau a wnaed gan lawer o ysgolion eraill. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi'i friffio'n llawn ar berfformiad pob ysgol uwchradd a bydd arweinwyr systemau yn cefnogi ac yn herio pob ysgol o ran pennu targedau priodol, olrhain disgyblion a monitro perfformiad

**Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well**

Cynyddodd canran y bobl ifanc y nodwyd nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (5.9% o 4.5% yn y flwyddyn flaenorol) a barnodd arolygiad ESTYN fod perfformiad yr awdurdod yn Ddigonol, a gwnaeth bum argymhelliad ar gyfer gwella.
Gwnaeth arolygiad Estyn (Gorffennaf 2012) a'r adroddiad dilynol gyfanswm o bum argymhelliad, yr oedd dau ohonynt yn arbennig o berthnasol i'r amcan gwella hwn. Argymhelliad 1 yw y dylid rhoi strategaethau gwella ar waith a chymryd camau penodol er mwyn gwella canlyniadau i ddysgwyr, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ac mae argymhelliad 2 yn cyfeirio at atgyfnerthu'r lefel o her i'n hysgolion uwchradd. Mae'r rhain yn ffocws allweddol i'r awdurdod ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar godi safonau a gwella canlyniadau, yn enwedig yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.

Yn 2012/13 agorodd y bwlch rhwng canran y bechgyn a chanran y merched sy'n bodloni'r dangosydd pynciau craidd yn CA3 o –5.10 i -14.10 ac agorodd y bwlch rhwng canran y bechgyn a chanran y merched sy'n bodloni'r Dangosydd Pynciau Craidd yn CA4 o –4.00 to –8.00. Ni chyflawnwyd y targedau a bennwyd. Fodd bynnag, mae'r data yn gyson â'r garfan o ddisgyblion ac mae angen gwneud mwy o waith i olrhain perfformiad disgyblion o ran pennu targedau

I grynhoi, roedd 21 o ddarnau o dystiolaeth i fesur yr amcan hwn. Ni chyflawnodd chwech eu targedau. O'r chwe darn hynny o dystiolaeth, roedd tri o fewn 2% o'r targed. Fodd bynnag, mae'n well gennym farnu ar b'un a yw perfformiad wedi gwella o gymharu â'r llynedd fel adlewyrchiad mwy cywir o berfformiad.

Gweler y manylion llawnach a'r Cynllun gweithredu yn Atodiad A

## Dadansoddi Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ar gyfer 2012/13

### Gwasanaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **EDU 002i** | Canran y disgyblion (gan gynnwys y rheini yng ngofal awdurdod lleol) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | 0.36/13% | $11^{eg}$ allan o 22 | 0.4% | 0.4% | $17^{eg}$ allan o 22 | 0.4% |
| ☹ | Yn 2012-13 roedd 65 yn llai o blant ar y gofrestr (2,155) ac un plentyn ychwanegol (cyfanswm o naw) a adawodd addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar gyfer 2011/12 roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog, sydd wedi gostwng bellach yn 2012/13 i'r chwartel isaf, er ei bod yn unol â chyfartaledd Cymru Gyfan a'n targed. | | | | | | |
| **EDU 002ii** | Canran y disgyblion yng ngofal awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a gymeradwywyd. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | 0% | $1^{af}$ allan o 22 | 0% | 6.1% | $16^{eg}$ allan o 22 | 5.7% |
| ☹ | Yn 2012-13 roedd naw plentyn 15 oed ychwanegol mewn gofal ar y gofrestr o gymharu â 2011-12. Nid ymatebodd dau blentyn i'r gwasanaeth a ddarparwyd iddynt a gwnaethant adael heb unrhyw gymwysterau. Gan nad oedd gennym unrhyw blant a adawodd yr ysgol heb gymhwyster ddwy flynedd ynghynt pennwyd targed o 0%, a oedd yn amlwg heriol. Ar gyfer 2011/12 roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn y chwartel uchaf, sydd wedi gostwng bellach yn 2012/13 i'r ystod ganolog ac ychydig y tu allan i gyfartaledd Cymru Gyfan. | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **EDU 003** | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol sy'n bodloni'r dangosydd pynciau craidd a bennwyd gan asesiad athro. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 79.7% | 14$^{eg}$ allan o 22 | 79.5% | 82.7% | 14$^{eg}$ allan o 22 | 82.8% |
| ☺ | Rydym wedi gwella ar berfformiad y flwyddyn flaenorol drwy sicrhau cynnydd o 2.99%. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog. | | | | | | |
| **EDU 006 ii** | Canran y disgyblion a aseswyd, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cael asesiad athro yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 9.5% | 13$^{eg}$ allan o 22 | 11% | 11% | 11$^{eg}$ allan o 22 | 16.8% |
| ☺ | Yn 2012-13 cafodd 20 disgybl ychwanegol eu hasesiadau athro yn Gymraeg, sy'n gynnydd o 1.5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a llwyddwyd i gadw safle yn y chwartel canol a chyflawni ein targed, sef 11. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog. | | | | | | |
| **EDU 011** | Y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 403.6 | 16$^{eg}$ allan o 22 | 415 | 429.7 | 17$^{eg}$ allan o 22 | 468.3 |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 Ein Canlyniad | 2011/12 Safle yng Nghymru | 2012/13 Targed | 2012/13 Ein Canlyniad | 2012/13 Safle yng Nghymru | 2012/13 Cyfartaledd Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ☺ | Yn 2012-13 sgoriwyd 29,916 o bwyntiau ychwanegol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2011-12) gan 65 yn llai o ddisgyblion a rhagorwyd ar ein targed, sef 415. Caiff y mesur hwn ei ddisodli gan y 'sgôr cap' gyfartalog sydd ond yn cyfrif sgorau'r cymwysterau uchaf a enillwyd. Ar gyfer 2011/12 roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog ac er bod ein sgôr wedi gwella ar gyfer 2012/13, rydym wedi symud i mewn i'r chwartel isaf ac yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | |
| **EDU 015 a** | Canran y datganiadau anghenion addysgol arbennig terfynol a roddwyd i ddisgyblion o fewn 26 wythnos, heb gynnwys eithriadau. (DSC) **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 95.8% | 4ydd allan o 22 | 91% | 100% | 1af allan o 22 | 71.3% |
| ☺ | Yn 2012-13 cynyddodd perfformiad 4.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2011-12) i gyrraedd 100%. Mae'r mesur yn dal i fod yn y chwartel uchaf yng Nghymru ac roedd 28.7% yn uwch na Chyfartaledd Cymru Gyfan. Anfonwyd datganiad anghenion addysgol i 72 o ddisgyblion ychwanegol a derbyniodd pob un o'r 72 o ddisgyblion ei ddatganiad o fewn y terfyn amser, sef 26 wythnos. | | | | | | |
| **EDU 015 b** | Canran y datganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA) terfynol a roddwyd i ddisgyblion o fewn 26 wythnos, heb gynnwys eithriadau. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 100% | 1af allan o 22 | 96% | 100% | 1af allan o 22 | 95.9% |
| 😐 | Yn 2012-13 parhaodd y mesur hwn ar 100% am yr ail flwyddyn yn olynol a derbyniodd pob un o'r 14 o ddisgyblion y rhoddwyd datganiad AAA iddynt, heb gynnwys eithriadau, y datganiad hwnnw o fewn 26 wythnos. Mae prosesau wedi gwella er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion yn gyflymach. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru ar frig y chwartel uchaf (1af). | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ein Canlyniad** | **Safle yng Nghymru** | | **Targed** | **Ein Canlyniad** | **Safle yng Nghymru** | **Cyfartaledd Cymru Gyfan** |
| **EDU 017** | Canran y disgyblion a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyrhaeddodd drothwy L2 gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | Dd/G | Dd/G | | 46% | 45.1% | 19eg allan o 22 | 50.7% |
| | Cyflwynwyd EDU017 fel mesur newydd i set ddata'r Dangosydd Strategol (DSC) ar gyfer 2012/13. Fodd bynnag, buom yn casglu'r data hwn ers sawl blwyddyn. Dengys y tabl uchod Dd/G ar gyfer 2011/12 am fod y tabl hwn ond yn cymharu setiau data'r DSC o flwyddyn i flwyddyn.<br>Ar gyfer 2011/12: Cofnodwyd canlyniad o 43.3% (962 allan o 2,220 o ddisgyblion) ar gyfer y mesur hwn.<br>Ar gyfer 2012/13: Dengys ein canlyniadau fod perfformiad wedi gwella ychydig ers 2011/12 i 45.1% (971 allan o 2,155 o ddisgyblion). Roedd y perfformiad hwn ychydig yn is na'n targed ac mae'n ein rhoi yn y chwartel isaf o gymharu â gweddill Cymru. Roeddem 5.6% yn is na Chyfartaledd Cymru Gyfan ac 16.3% yn is na'r awdurdod a berfformiodd orau yng Nghymru. | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **EDU 004** | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol sy'n bodloni'r dangosydd pynciau craidd a bennwyd gan asesiad athro. **(MAC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 62.4% | 19eg allan o 22 | | 59.5% | 68.4% | 18fed allan o 22 | 72.7% |
| ☺ | Yn 2012-13 aseswyd 131 yn llai o ddisgyblion (2,155) yng nghyfnod allweddol 3 o gymharu â 2011-12 (2,286) a bodlonodd 47 o ddisgyblion ychwanegol (1,473) y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3, o gymharu â 2011-12 (1,426), a oedd 8.9% yn fwy na'r targed. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn y chwartel isaf. | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **EDU 016 a** | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (MAC) **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 92.8% | 18fed allan o 22 | | 93.3% | 93.2% | 18fed allan o 22 | 93.9% |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| ☺ | Yn 2012-13 collwyd 303,322 o sesiynau gan ddisgyblion ysgol gynradd o gymharu â 322,986 yn y flwyddyn flaenorol (2011-12), a oedd wedi methu â chyflawni'r targed o drwch blewyn ( 0.1%) er bod perfformiad wedi gwella. Mae perfformiad 1.71% yn is na'r awdurdod a berfformiodd orau yng Nghymru. | | | | | | |
| **EDU 016 b** | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (MAC)<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 90.7% | 19eg allan o 22 | 91.7% | 91.7% | 19eg allan o 22 | 92.1% |
| ☺ | Yn 2012-13 collwyd 271,170 o sesiynau mewn ysgolion uwchradd o gymharu â 310,243 yn 2011-12. Mae'r mesur yn dal i fod yn y chwartel isaf ac mae'n 0.4% yn is na Chyfartaledd Cymru Gyfan ac yn 2% yn is na'r Awdurdod a berfformiodd orau. | | | | | | |
| **LCL 001b** | Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 4,652 | 17eg allan o 22 | 4,900 | 5,012 | 17eg allan o 22 | 5,968 |
| ☺ | Yn 2012-13, ar gyfartaledd, roedd 360 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn fwy na'r flwyddyn flaenorol neu 90,663 o ymweliadau gwirioneddol â Llyfrgelloedd yng Nghaerffili. Roedd y cynnydd hwn i'w briodoli i lyfrgell Abercarn a agorodd ym mis Mai 2012. Cafwyd 112 o ymweliadau fesul 1,000 o'r boblogaeth yn fwy na'r targed. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn y chwartel isaf. | | | | | | |

| Dengys ein dangosyddion perfformiad y canlynol: | | | |
|---|---|---|---|
| Canlyniadau'r flwyddyn bresennol o'u cymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol | | ☹ | Yn waeth na'r flwyddyn flaenorol |
| | | 😐 | Yn cyfateb i'r flwyddyn flaenorol |
| | | ☺ | Yn well na'r flwyddyn flaenorol |
| | | **Dd/G** | Nid oes data ar gael neu ni ellir ei gymharu – gweler sylwadau unigol am esboniad. |

## Gwerthuso gwybodaeth arall am berfformiad a gasglwyd yn ystod y flwyddyn 2012/13

☺ Cynyddodd nifer y dysgwyr sy'n oedolion sy'n dilyn rhaglenni sgiliau sylfaenol o 951 i 1046 yn 2012/13

😐 Cynyddodd nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth ychydig o 4652 i 4684.

☺ Dengys ein Harolwg o Aelwydydd 2013 y canlynol: Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau ar gyfer Llyfrgelloedd oedd 97% (sy'n well na'r 93% yn 2011).

☹ Gwelwyd lleihad yn nifer y llyfrau a fenthycwyd fesul unigolyn yn 2012-13, o gymharu â 2011-12, (4,022 i 3,593) yn rhannol oherwydd alldro gwael ar gyfer y chwarter olaf - a oedd yn gysylltiedig â'r tywydd gwael. Er bod y perfformiad cyffredinol yn siomedig mae gweithgarwch mewn safleoedd a adnewyddwyd yn ddiweddar neu a adleolwyd yn mynd yn groes i'r duedd hon, gyda phob lleoliad yn dangos cynnydd o 14% neu fwy,

☺ Mae pob un o'n prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi llwyddo i gyflawni eu targedau ar gyfer recriwtio a chyflawniad yn y flwyddyn academaidd 11/12 (blwyddyn ariannol 12/13). Yr amrywiaeth o brosiectau y bwriedir iddynt helpu unigolion i gael swydd drwy wella eu sgiliau a hyder gan dargedu meysydd o gymorth i grwpiau penodol megis rhieni unigol.

☺ Nid oedd gennym unrhyw ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol yn ystod y flwyddyn o Ysgolion Cynradd a 0.5 oedd nifer y disgyblion o Ysgolion Uwchradd (sy'n cyfateb i bum disgybl). Ein nod yw sicrhau na chaiff unrhyw ddisgyblion eu gwahardd o ysgolion. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol

☺ Lleihaodd nifer gyfartalog y diwrnodau ysgol na chafodd disgyblion a oedd wedi'u gwahardd yn barhaol gynnig darpariaeth addysg briodol, lawn amser yn ystod y flwyddyn o 92 diwrnod i 55.6 diwrnod a chredwn fod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod ysgolion yn cael eu herio'n well a gwell prosesau ar gyfer gwneud darpariaeth. O ran nifer gyfartalog y diwrnodau y bu disgyblion yn aros am ddarpariaeth ran amser oedd 1.2 diwrnod a oedd ychydig yn well na'r llynedd.

😐 Llwyddwyd i gadw canran y diwrnodau ysgol a gollwyd mewn **Ysgolion Cynradd** oherwydd gwaharddiadau tymor sefydlog ar 0.03% er mai 538 oedd nifer gwirioneddol y diwrnodau a gollwyd yn 12/13, a oedd yn well na'r ffigur a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol, sef 698. Fodd bynnag, am fod nifer y disgyblion yn uchel a nifer y gwaharddiadau yn isel mae'r ganran yn aros yn union yr un peth. Gostyngodd canran y diwrnodau a gollwyd **mewn Ysgolion uwchradd** a 1953 oedd nifer gwirioneddol y diwrnodau a gollwyd, a oedd yn well na'r ffigur a gofnodwyd yn 11/12, sef 2823.

😐 O ran ein datganiadau anghenion addysgol arbennig terfynol a roddwyd i ddisgyblion o fewn 26 wythnos, (gan gynnwys a heb gynnwys eithriadau) roedd perfformiad yn dal i fod rhwng 91% a 96% yn y drefn honno.

- ☺ Gostyngodd canran y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd i 19.02 o 22.19% yn 2011/2012. Y perfformiad gwell ar gyfer y mesurau hyn yw sicrhau bod nifer y lleoedd gwag mor isel â phosibl.
- ☹ Fodd bynnag, cynyddodd canran yr ysgolion uwchradd â lleoedd gwag ychydig o 16.89% i 18.62%. Rydym yn ymwybodol bod lleoedd gwag yn broblem ac mae sawl ffactor yn effeithio ar hyn gan gynnwys poblogaeth sy'n cynyddu neu'n lleihau. Rydym yn cynnal rhaglen a elwir yn 'Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, sy'n cynnwys cynlluniau i ad-drefnu ysgolion uwchradd ac adeiladu'r Ysgol Cyfrwng Cymraeg ar safle ysgol Sant Ilan. Drwy'r rhaglen hon rydym yn gobeithio lleihau nifer y lleoedd gwag.
- 😐 Mae canran yr ysgolion cynradd lle mae 25% neu fwy o'u lleoedd yn wag wedi gwella gan gynyddu i 30.67% (42.67% oedd y ffigur a gofnodwyd yn 2011/2012). Fodd bynnag, rydym yn dal i gredu bod hwn yn faes sy'n achosi pryder.
- 😐 Llwyddwyd i gadw canran yr ysgolion uwchradd lle mae 25% neu fwy o'u lleoedd yn wag ar 21.43%.
- ☺ Nododd 99% o rieni eu bod yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer dechrau yn yr ysgol o'i gymharu â 92.5% yn 2011/12
- ☺ Er yr hoffem wella ein lefel cyrhaeddiad gwnaed cynnydd o ran canran y disgyblion sy'n cyrraedd L4+ mewn asesiadau ar ddiwedd CA2 ar gyfer Saesneg (84.3) ac yn Gymraeg 88.1% o 86.3%. Mewn mathemateg % y disgyblion sy'n cyflawni L4+ ar ddiwedd CA2 oed 86.8 o 84.60.
- ☺ Yng nghyfnod allweddol 3 cynyddodd canran y disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 5+ yn Gymraeg o 75.9% i 84.3%
- ☺ Cynyddodd canran y disgyblion sy'n cyrraedd L5+ mewn asesiadau ar ddiwedd CA3 ar gyfer Saesneg 76.8 bron 6% a chynyddodd Mathemateg 3.2%
- ☹ Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng cyflawniad bechgyn a merched yn mynd yn fwy mewn rhai meysydd er ein bod wedi cynnal sawl menter er mwyn cau'r bwlch hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn o dan ein hamcan gwella ac yn Atodiad A, sy'n rhoi manylion llawnach.

| # Cyfadran yr Amgylchedd<br><br>**Datganiad Perfformiad Cyffredinol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2012/13** | **Sandra Aspinall**<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwraig Addysg a Dysgu Gydol Oes |  |
|---|---|---|

Mae Cyfadran yr Amgylchedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau statudol a lleol ar gyfer gwasanaethau rheng flaen megis casglu gwastraff, glanhau strydoedd, gwasanaethau hamdden, parciau a chefn gwlad, rheoli a chynnal a chadw ein ffyrdd, cludiant, cynllunio a diogelu budd y cyhoedd drwy Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach. Roedd gennym hyd at 2600 o staff cyflogedig a chyllideb o £59.72 m.

Ar gyfer y flwyddyn 2012/2013 rydym wedi sicrhau cynnydd a chyflawniadau cadarnhaol iawn a oedd o fudd i'r dinasyddion a'r cymunedau a wasanaethir gennym. Roedd hefyd rai meysydd nad aethant mor dda a byddwn yn manylu ar y meysydd hynny yn ein crynodeb. Dylid nodi, am fod Cyfadran yr Amgylchedd yn un fawr ac amrywiol, ein bod yn rhoi crynodeb allweddol yma. Fodd bynnag, mae'r manylion cyswllt ar gael yng nghefn y cynllun os hoffai unrhyw ddinesydd wybod mwy am berfformiad maes arbennig.

Yn gyffredinol, ac er gwaethaf y pwysau ariannol cynyddol a roddir ar y gyfadran hon, drwy ad-drefnu gwasanaethau, rheoli salwch a swyddi gwag, trefniadau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithio a rheolaeth ariannol a gwaith craffu trylwyr, rydym yn parhau i weld gwelliannau i'n hamgylchedd, ei seilwaith, cyfleusterau cymunedol a'r gwasanaethau a ddarperir ledled ein bwrdeistref. Dim ond drwy annog y gymuned ehangach a dinasyddion i gyfranogi y bu'n bosibl i ni sicrhau'r gwelliannau hyn.

Nodir isod rai o'n cyflawniadau allweddol ar gyfer y **Gymuned a Hamdden**:

Mae Tîm Rheoli Gwastraff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ychwanegu gwobr fawreddog at ei gabinet troffïau a enillwyd yn seremoni wobrwyo flynyddol y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE). Fe'i coronwyd yn Dîm Gwasanaeth Gorau yn 2012 o ganlyniad i welliant parhaus. Mae APSE yn gorff llywodraeth leol sy'n gweithio gyda mwy na 300 o gynghorau ledled y DU. Mae'r gwobrau hyn am wasanaeth yn cydnabod rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol rheng flaen.

Gwnaethom barhau i fynd yn groes i'r duedd drwy ragori'n gyson ar dargedau ailgylchu Llywodraeth Cymru diolch i'n proses gasglu a symleiddiwyd a'n dull rhagweithiol o annog mwy o unigion i gyfranogi a diolch i ymdrechion rhagorol ein trigolion sy'n 'ymwybodol o'r amgylchedd' .
Yn ystod haf 2012, gwnaethom hyrwyddo menter BalchderStryd Caerffili ymhellach a mynd â chyfres o ymgyrchoedd gorfodi proffil uchel i strydoedd y fwrdeistrefol sirol er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion amgylcheddol gan gynnwys cŵn yn baeddu, gollwng sbwriel, bonion sigaréts a thipio anghyfreithlon.

Datblygodd Chwaraeon Caerffili raglen chwaraeon 14 wythnos a'i rhoi ar waith, y bwriadwyd iddi wella sgiliau disgyblion ysgol Blwyddyn 6 'mwy galluog a thalentog' bwrdeistref sirol Caerffili a daeth y Ffagl Olympaidd i ganol tref Caerffili ar 26ain Mai 2012, gan ddod ag ysbryd a dathliadau'r Gemau Olympaidd gyda hi.

Anogwyd ysgolion, grwpiau cymunedol, busnesau ac unigolion ledled y fwrdeistref sirol i ddangos eu bod yn ymfalchïo yn eu hardal leol drwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth newydd, gyffrous. Trefnwyd Gwobrau Balchder Bro 2012 gan y cyngor er mwyn cydnabod ymdrech ac arloesedd y rhai sy'n helpu i sicrhau bod ein hardal yn lanach, yn ddiogelwch ac yn wyrddach ac yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef.
Mae mwy na 50 o ysgolion o bob rhan o fwrdeistref sirol Caerffili wedi cofrestru i gymryd rhan yn y Cynllun Ailgylchu Batris y disgwylir iddo ddechrau yn 2013, lle y bydd mwy na 17,500 o ddisgyblion a Groundwork Caerffili, mewn partneriaeth â'r cyngor, yn rheoli menter gymdeithasol newydd a elwir yn Fenter Dodrefn Cymunedol (Rhymni), sy'n dibynnu ar roddion gan y cyhoedd ac a fydd yn trefnu bod eitemau yn y cartref nad oes eu heisiau yn cael eu casglu gan drigolion, a gânt eu hadnewyddu wedyn a'u hailwerthu (ailgylchu).

Rhai o'n cyflawniadau allweddol o ran gwasanaethau **Peirianneg** oedd arwain y ffordd yng Nghymru gyda chynllun gwerth £1 filiwn i atgyweirio ei rwydwaith priffyrdd yn dilyn problemau a achoswyd gan y tywydd rhewllyd yn ystod y gaeaf. Cynhaliwyd cyfanswm o 41 o gynlluniau ar wahân ar draws amrywiaeth o gymunedau.
Cwblhawyd y cynllun gwerth £14 miliwn i wella'r rhwydwaith ffyrdd o amgylch datblygiad newydd Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach ac mae'r Gwelliannau Priffordd yn helpu i fynd i'r afael â thagfeydd a gwella llif traffig, rhwng yr A469 a'r A472.
Mabwysiadwyd 44 o ddatblygiadau priffordd (sy'n ymwneud ag ystadau tai preswyl) yn 2012/13 a chanddynt werth asedau o fwy na £2.6m.
Sicrhaodd trefniadau partneriaeth ddatblygiad newydd cyfleusterau Parcio a Theithio Pengam (a agorwyd yn swyddogol ar 6ed Mehefin 2013).
Adolygwyd ein Cynllun Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf ac aethpwyd ati i'w integreiddio ymhellach mewn meysydd gwasanaeth ym mhob rhan o'r cyngor. Cafwyd gaeaf caled arall ac ymdriniwyd ag ef yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rhoddodd bwysau ariannol ar yr awdurdod.
Cytunodd y cyngor ar ei Strategaeth Rheoli Llifogydd ac mae'n parhau i gyflawni ei Gynlluniau Rheoli Llifogydd yn unol â'r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
Mae Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) wedi rhoi £80k i'r Cyngor er mwyn iddo fwrw ymlaen â'r gwaith o gynllunio gorsaf reilffordd newydd i Grymlyn.

Cynyddodd nifer y ceisiadau am wasanaeth a gafwyd yn ystod y flwyddyn 16.6%. Roedd cynnydd amlwg yn nifer y ceisiadau i ddarparu biniau halen a llenwi tyllau mewn ffyrdd. Mae hyn i'w briodoli i'r tywydd garw a gafwyd. Yn yr un modd, roedd ceisiadau i ymdrin ag iâ/eira ar lwybrau troed/lonydd cerbydau gryn dipyn yn uwch. Roedd ceisiadau am fagiau tywod i amddiffyn eiddo rhag llifogydd hefyd yn uwch. Defnyddiwyd Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor i gefnogi cais am arian i Fenter Benthyciadau Llywodraeth Leol (LGBI). Nododd lawer o heriau sy'n wynebu'r cyngor o ran rheoli'r gwaith o gynnal ei briffordd. Mae arian y LGBI a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r cyngor i ymgymryd â gwaith priffyrdd gwerth £2.8m.

Rhoddwyd hyfforddiant beicio sy'n cyrraedd Safonau Cenedlaethol i wyth ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd.

Fodd bynnag, mae rhai meysydd sy'n achosi pryder. Nid yw'r gyllideb a bennir ar gyfer gwaith cynnal priffyrdd yn cynyddu'n gymesur â dirywiad yr ased priffyrdd, fel y nodir yng Nghynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor. At hynny, nid yw'r broses o neilltuo adnoddau ar gyfer archwiliadau o briffyrdd a gwaith ‘paentio ac atgyweirio’ ar gyfer tyllau mewn ffyrdd wedi bod yn effeithiol eleni oherwydd problemau yn gysylltiedig â darparu adnoddau. Gohiriwyd trefniadau cydweithio gydag awdurdodau cyfagos oherwydd newid mewn pwyslais gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'r Canllaw diwygiedig i ddatblygwyr ar Gynllunio Priffyrdd wedi'i gyflwyno i'r cyhoedd mewn fformatau amlgyfrwng, dim ond yn electronig.

Mae rhai llwyddiannau allweddol ar gyfer gwasanaethau **Adfywio a Chynllunio** yn cynnwys yr hen sinema hanesyddol yn Rhisga a ailagorodd fel Llyfrgell a Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd, trawiadol ar ôl cwblhau cynllun i'w drawsnewid a gostiodd £2.25 miliwn.

Mae rhaglen gyffrous yn mynd rhagddi i drawsnewid Canol Tref Trecelyn, o ganlyniad i'r cyngor yn sicrhau pecyn ariannu gwerth miliynau o bunnau. Bwriedir cyflwyno palmentydd lletach a diogelach; gwella arwynebau ffyrdd; a chreu mannau cyhoeddus newydd - gan ddefnyddio deunyddiau palmentu naturiol, dodrefn stryd o ansawdd uchel a celfwaith nodedig a arweinir gan y gymuned a bydd hyn oll yn helpu i adfywio canol y dref. Bydd mesurau tawelu traffig newydd yn helpu i arafu traffig a chreu amgylchedd diogelwch i gerddwyr.

Mae'r dyfodol yn argoeli’n dda i Fargod diolch i nifer o gynlluniau cyffrous sy'n helpu i adfywio canol y dref. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar ddatblygiad manwerthu newydd gwerth miliynau o bunnau sy'n cynnwys archfarchnad Morrisons fawr y disgwylir iddi agor ym mis Rhagfyr 2013 yn ogystal â nifer o safleoedd manwerthu llai o faint. Mae CBSC hefyd wedi cytuno ar gynlluniau cyffrous i ariannu sinema a datblygiad manwerthu gwerth £6 miliwn yng nghanol tref Bargod ac ym mis Ebrill 2012 dechreuodd gwaith ar ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd ar Ystad Ddiwydiannol y Lawnt yn Rhymni.

O fewn gwasanaethau **Cefn Gwlad** ac fel rhan o'n blaenoriaeth i hyrwyddo **cynaliadwyedd,** dyfarnwyd Baneri Gwyrdd mawreddog i ddau o'n parciau gwledig deniadol. Parc Cwm Darran ger Deri a Choedwig Cwmcarn yw'r safleoedd diweddaraf yn ardal Caerffili i ennill y wobr a geisir yn ddyfal. Dathlodd Coetir Cymunedol Oakdale a Phenmaen ennill gwobr ‘Balchder yn Eich Ardal’ eleni am eu cyflawniadau gwyrdd rhagorol. Erbyn hyn cydnabyddir Coedwig a Chanolfan Ymwelwyr Cwmcarn (sy'n hafan i bobl a bywyd gwyllt) hefyd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer beicio mynydd a cheir llwybr traws gwlad sy'n 15km o hyd gyda darnau disgynnol, heriol.

Lansiwyd llwybr cerdded newydd lle gellir gweld cartwnau lliwgar a grëwyd gan Gren, y cartwnydd poblogaidd o'r Cymoedd, yn Hengoed. Datblygwyd 'Taith Gerdded Gren' er cof am y cartwnydd poblogaidd o Gymru Grenfell Jones ac ar hyd y llwybr mae cymeriadau hynod Gren i'w gweld wedi'u gosod ar dirnodau o amgylch ei bentref genedigol.

Dechreuodd gwaith ar ffermdy, nad yw'n gysylltiedig â'r grid, ym Manmoel – sy'n brosiect unigryw a gyflawnir gan gynllunwyr a staff datblygu cynaliadwy'r Cyngor yn ogystal â chwmnïau cyfleustodau allanol. Mae'r cynllun wedi'i roi ar y rhestr fer ar gyfer un o wobrau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI yng Nghymru).

Diolch i well digwyddiadau hyrwyddo, cyfleusterau wedi'u hadnewyddu ac wedi'u gwella a mwy o amrywiaeth o weithgareddau yn Amgueddfa a Chanolfan Dreftadaeth y Tŷ Weindio, Sefydliad y Glowyr Coed Duon a Phlasty Llancaeach Fawr Manor, parhau i gynyddu y mae'r defnydd a wneir o'r atyniadau hyn gan y cyhoedd a'u diddordeb ynddynt ac mae nifer yr ymwelwyr yn rhagori ar eu targedau.

Drwy gydol y flwyddyn, trefnwyd a chyflawnwyd rhaglen flaengar, helaeth a llwyddiannus o ddigwyddiadau a'i gwnaeth yn bosibl i ymgysylltu cryn dipyn â'r gymuned a chynnwys dinasyddion, a gododd broffil ein hardal, a gyfrannodd at yr economi leol ac a helpodd i hyrwyddo rhai o'n strategaethau partneriaeth ehangach eraill, megis ein mentrau Adfywio ac Iechyd a Lles. Rhai o'r prif ddigwyddiadau oedd; Caws Mawr Caerffili; Y Sinema Awyr Agored ym Margod; Proms yn y Parc, Caerffili; Taith Seiclo Prydain (Caerffili) a nifer o ddigwyddiadau yn yr Haf a'r Gaeaf a gynhaliwyd yng nghanol trefi Caerffili, Bargod a Choed Duon. O ganlyniad i'r digwyddiadau cymunedol, mae gwybodaeth am fusnesau lleol yn dechrau dangos gwelliannau i'w gweithgareddau. Hefyd, enghraifft dda o ddatblygiad a gyflawnwyd ar ôl cynnal Taith Prydain, oedd sefydlu menter gymdeithasol newydd a elwir yn 'Rainbow', sydd bellach yn cynnig atebion beicio am bris rhesymol i'n dinasyddion.

Er gwaethaf y sefyllfa economaidd wan, gostyngodd lefelau meddiannaeth y Portffolio o Eiddo Masnachol y Cyngor (Unedau diwydiannol, pafiliynau swyddfa a swyddfeydd â gwasanaethau) ychydig o dan ein targed, sef 95%, a nodwyd eu bod yn 91%. Fodd bynnag, mae rhagolygon economaidd yn awgrymu bod hyn yn debygol o wella ac mae ymgyrch farchnata wedi'i thargedu bellach ar waith i wella perfformiad (meddiannaeth).

Gwelwyd lleihad sylweddol yn nifer y ceisiadau cynllunio sydd hefyd yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd. Er gwaethaf hyn, ni welwyd unrhyw welliant o ran canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn amserlenni penodedig.

Mae ein cyfundrefnau arolygu (siopau a busnesau) yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel am y bwriedir iddynt ddiogelu defnyddwyr a helpu busnesau cyfrifol. Drwy arolygiadau cylchol, popeth o asiantau tai a modurdai i gwmnïau Rhyngrwyd a theatrau, rydym yn sicrhau bod eu harferion masnachu, eu deunydd hysbysebu a'u prisiau yn cydymffurfio â'r gyfraith. Drwy ymyrryd rydym yn parhau i gynnal lefelau cywiro uchel lle y ceir achosion difrifol o dorri Safonau Masnach (97%) a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag Iechyd Anifeiliaid (100%)

Fodd bynnag, ni chyflawnwyd ein targedau ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer canran y busnesau risg ganolig a oedd yn agored i arolygiad neu weithgaredd gorfodi rhaglenedig, a arolygwyd yn ddarostyngedig i gamau gorfodi amgen ar gyfer: Safonau Masnach (Canlyniad 54% yn erbyn Targed o 100%) ac Iechyd Anifeiliaid (Canlyniad 86% yn erbyn Targed o 100%). Roedd hyn i'w briodoli i ostyngiad mewn lefelau staffio ac ymchwiliad mawr a oedd yn ymwneud ag Iechyd Anifeiliaid yn ystod y flwyddyn.

## Gwybodaeth a gwaith dadansoddi ariannol sy'n ymwneud â Chyfadran yr Amgylchedd ar gyfer 2012/13

Ar y cyfan, mae'r Gyfadran yn parhau i weithio o fewn terfynau'r gyllideb a ddyrannwyd iddi yn gyson ac mae wedi gwneud rhai arbedion ac arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn rheoli pwysau costau sy'n deillio o newidiadau demograffig a'r galw cynyddol am wasanaethau. Yn ddiau mae'r broses o sicrhau'r arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi cael cryn effaith ar y modd y darperir gwasanaethau rheng flaen, ond roedd angen eu gwneud er mwyn dileu costau diangen a cheisio dod o hyd i ffyrdd gwell o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Dros y tair i bum mlynedd nesaf bydd y dirwedd ariannol yn parhau i fod yn un heriol i'n hawdurdod ac er bod y Gyfadran wedi llwyddo i reoli ei chyllid yn dda yn ystod 2012-13, mae'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu yn y dyfodol yn rhai gwirioneddol, sylweddol a heriol.

Y sefyllfa alldro ar gyfer Cyfadran yr Amgylchedd ar gyfer 2012/13 oedd tanwariant cyffredinol o £635k.
Roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i amrywiaeth o wasanaethau, megis Adfywio a Chynllunio, lle roedd tanwariant o £405k i'w briodoli i'r ffaith bod swyddi staff yn wag, bod costau gweithredol yn is a bod mwy o incwm wedi'i gynhyrchu, yn arbennig mewn perthynas â'n Canolfannau Ymwelwyr.

Roedd gan y Gwasanaethau Peirianneg a Chludiant orwariant o £195k, a oedd i'w briodoli'n bennaf i ofynion o ran cynnal ffyrdd a gwaith cynnal a chadw gaeaf yn dilyn y gaeaf caled a'r difrod a achosodd i ffyrdd.
Roedd gan y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd danwariant o £158k a oedd i'w briodoli i'r ffaith bod swyddi staff yn wag, (Teledu Cylch Cyfyng, Diogelwch Cymunedol ac Iechyd Amgylcheddol), bod costau gweithredol a chostau straen pensiwn yn is a bod ein Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden wedi arbed £77k mewn tanwariant.

Dwy o'r cyllidebau mwyaf o fewn Cyfadran yr Amgylchedd yw ein hasedau priffyrdd a rheoli gwastraff. Rydym wedi canolbwyntio ar gynyddu'r gwastraff rydym yn ei ailddefnyddio ac ailgylchu er mwyn lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Ar hyn o bryd y ddirwy a bennwyd gan Ewrop ar gyfer mynd dros y targedau a nodwyd ar gyfer anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi yw £200 fesul tunnell a byddai cost ariannol sylweddol yn gysylltiedig â hyn pe na fyddem yn mynd i'r afael â'r mater. Fodd bynnag, rydym yn perfformio'n dda yn erbyn targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Ar gyfer 2012/13 y canlyniad oedd 57.07% yn erbyn targed o 56.6%.

Mae Prosiect Gwyrdd yn gydweithrediad â phedwar awdurdod arall a fydd yn dargyfeirio ein holl wastraff bioddiraddadwy o safleoedd tirlenwi drwy ei losgi a bydd yn cynyddu'r gwastraff gweddilliol rydym yn ei ailgylchu gan ddileu'r risg na fyddwn yn cyflawni targedau Ewropeaidd. Disgwylir iddo gael ei roi ar waith yn 2016.

Ceir rhagor o fanylion am wasanaethau unigol a ddarperir ar wefan ein Cyngor, neu drwy gysylltu â'r swyddfeydd ar: http://www.caerphilly.gov.uk/default.aspx Ffôn: 01433 815588 neu 01495 226622. Trown nawr at ein perfformiad yn erbyn Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012/13 a oedd yn rhan o Gyfadran yr Amgylchedd.

## Amcan Gwella Cyfadran yr Amgylchedd - Gwneud Caerffili yn lle diogelach i fyw ynddo (AG 2)

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2012/13**

Rydym am wella canfyddiad y cyhoedd o effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth o ran lleihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau.

☺ Aseswyd yr Amcan Gwella hwn a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn **Llwyddiannus** yn 2012/13. Daethom i'r casgliad hwn am fod ein perfformiad yn dangos tueddiadau sy'n gwella yn erbyn y canlyniadau roeddem am eu gwella. Er enghraifft, gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymatebwyr a oedd yn credu ein bod yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn partneriaeth â'r heddlu a lleihaodd nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Yr hyn a wnaethom yn dda a'r gwahaniaeth a wnaeth**

- Nododd Arolwg o Aelwydydd 2013 y canlynol; cytunodd 64% o ymatebwyr fod yr Heddlu a CSC yn ymdrin â materion pwysig sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. (Mae hyn yn welliant o gymharu â'r ffigur a gofnodwyd yn arolwg 2011, sef 58%).
- Arweiniodd gwaith mewn partneriaeth i leihau 'Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol' at leihad o 31% yn nifer y troseddau ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd gan yr Heddlu a gostyngiad o 11% mewn Troseddu yn Gyffredinol, o gymharu â 11/12.
- Ymdriniwyd â materion golwg y stryd drwy'r fenter Balchder Stryd. Un o feysydd allweddol y fenter hon fu cynyddu nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyflwynir ar gyfer gollwng sbwriel a chŵn yn baeddu a chyflwynwyd 365 a 73 o hysbysiadau yn y drefn honno o gymharu â 136 a 59 yn y flwyddyn flaenorol. Achredwyd Cwnstabliaid Lleol a Swyddogion Cymorth Cymunedol i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig eleni er mwyn cynyddu presenoldeb swyddogion gorfodi'r gyfraith ar ein strydoedd.
- Parhawyd i ddefnyddio'r dull ymyrryd amlasiantaeth llawn er mwyn ymdrin ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drwy'r broses Pedair Ergyd ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Llwyddwyd i gynnal y gyfradd gadael rhwng y rhai sy'n ymuno â'r broses yn Ergyd 1 a'r rhai sy'n cyrraedd Ergyd 4 ar 99%.
- Cafodd gwasanaeth yr Eiriolwr dros Ddioddefwyr ei wella eleni gyda'r gweithiwr Cymorth i Ddioddefwyr yn cael ei hyfforddi i lefel NVQ mewn Gwasanaeth Cyfryngu i helpu dioddefwyr a thystion mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n achosi problemau. Mae'r Eiriolwr dros Ddioddefwyr hefyd yn parhau i gynorthwyo dioddefwyr a thystion ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atgyfeiriwyd 327 o unigolion ato yn 2012/13 y cafodd pob un ohonynt gwahanol lefelau o gymorth.

- Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Ddiogelach (SCCSP) hefyd wedi rhoi arian i Gofal a Thrwsio Caerffili ddarparu cyfarpar diogelwch i 29 o ddioddefwyr sy'n agored i niwed a oedd yn cynnwys camerâu Teledu Cylch Cyfyng a gynigiwyd i ddioddefwyr risg uchel a dioddefwyr sy'n agored i niwed am y tro cyntaf.
- Mae ymyrraeth a chymorth dargyfeiriol yn parhau drwy brosiect Canolfan Allgymorth Gwasanaethau Ieuenctid a thrwy ymyrraeth uniongyrchol a ariennir yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
- Dechreuodd Prosiect Bernie (menter i leihau nifer yr achosion o gynnau tanau glaswellt yn fwriadol) ar 8fed Mawrth 2013 gyda lansiad yn archfarchnad Tesco, Ystrad Mynach a pharodd am chwe wythnos. Roedd y prosiect yn cynnig ymateb amlasiantaeth i'r broblem ac yn cynnwys ymgyrch hysbysebu a marchnata, patrolau o amgylch yr ardal a nifer fawr o weithgareddau i bobl ifanc, yr oedd pob un ohonynt n canolbwyntio ar broblemau cynnau tanau glaswellt yn fwriadol. Cynigwyd mwy na 500 o leoedd ar gyfer gweithgareddau ieuenctid i bobl ifanc yn yr ardal, a ddarparodd weithgareddau dargyfeiriol a chyfle i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n gysylltiedig â thanau glaswellt bwriadol. Ei nod yw lleihau nifer y tanau glaswellt a gaiff eu cynnau'n fwriadol drwy fynd i'r afael ag ymddygiad ag agweddau o fewn y gymuned.
- Cyflwynwyd cynllun Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol Iau eleni yn ein hysgolion cynradd er mwyn addysgu plant blwyddyn 4 a 5 am yr effaith a gaiff ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ein cymunedau. Cynhaliwyd cynllun peilot rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2013 a oedd yn cynnwys naw ysgol a 325 o ddisgyblion. Mae'r cynllun bellach yn cael ei gyflwyno i bob Ysgol Gynradd ledled y fwrdeistref sirol gan ganolbwyntio ar ddisgyblion Blwyddyn 5.
- Yn ystod 2012/13 rhoddwyd sylw i waith paratoi ar gyfer prosiect a elwir yn ‘Fenter Caerffili Ddiogelach Gyda'r Nos’ a fydd yn dod â phartneriaid statudol ac anstatudol at ei gilydd i fynd i'r afael â materion sy'n dal i fod yn achos pryder o amgylch ein tafarnau a'n clybiau gyda'r nos.
- Sefydlwyd cyfadeiladau tai gwarchod yr Awdurdod fel Parthau Dim Galw Diwahoddiad a oedd yn golygu bod cyfanswm o 33 o barthau yn y fwrdeistref erbyn diwedd 2012/13.
- Er gwaethaf newidiadau i'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio **(**RIPA-deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth ac ymchwilio) a gyfyngodd ar nifer y pryniannau alcohol prawf gan blant dan oed y gellir eu cynnal, gwnaethom barhau i dargedu a mynd i'r afael â meysydd y gwyddys eu bod yn achosi pryder.
- Dengys ystadegau fod gweithgarwch lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bryder ei bod yn bosibl na fydd lefelau cyflawniad blynyddoedd blaenorol yn parhau ar yr un cyflymder ac, wrth i nifer yr achosion leihau, ni ddisgwylir i'r gostyngiadau canrannol fod mor sylweddol yn y dyfodol.
- Parhaodd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn ystod 2012/13 mewn perthynas â lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.
- Cynyddwyd cwmpas ein rhwydwaith cylch teledu cyfyng hefyd yn ystod 2012/13. Mae'r gwaith o ailddatblygu'r cyfleuster Parcio a Theithio newydd y bwriedir ei agor yng Ngorsaf Drenau Pengam bellach yn cynnwys camerâu teledu cylch cyfyng ac mae ein rhwydwaith teledu cylch cyfyng yn gyffredinol wedi cynyddu o 144 i 148 o gamerâu, sy'n golygu bod gan 28 o ganol trefi gwahanol a phentrefi yn y Fwrdeistref Sirol system teledu cylch cyfyng.
- O Arolwg o Aelwydydd 2013: Cytunodd 64% o ymatebwyr fod CBSC a'r heddlu yn ymdrin â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.  Mae hyn yn welliant o gymharu â'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y ddau arolwg diwethaf, sef 58% yn 2011 a 53% yn 2009.

**Yr hyn nad aeth yn dda**

- Oherwydd newidiadau rheoliadol, ni lwyddwyd i gynnal yr un lefel o ran 'Nifer y pryniannau prawf gan blant dan oed a gyflawnwyd ar gyfer alcohol', ag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.
- Mae rhai pryderon ynghylch parhad cyfarfodydd PACT y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a gynhelir mewn rhai o'n wardiau, nifer yr unigolion sy'n mynd iddynt a'u heffeithiau.
- Er bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig ag economi'r nos, ni chaiff Menter Caerffili Ddiogelach Gyda'r Nos ei lansio tan fis Medi/Hydref 2013.

**Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well**

- Mae pob un o'r rhaglenni gwaith diogelwch cymunedol a flaenoriaethwyd ac y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi dangos newidiadau cadarnhaol i'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid, ein dinasyddion a'n cymunedau ehangach. Yr her bellach yw cynnal lefelau priodol o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a thargedu adnoddau partneriaeth at feysydd lle y bo angen.
- Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o wybodaeth berthnasol, er mwyn blaenoriaethu ein rhaglenni gwaith (yn amodol ar ddeddfwriaeth, cyfrifoldebau partneriaethau cymunedol a'r adnoddau sydd ar gael) i fynd i'r afael â phryderon cymunedau a dinasyddion.

## Amcan Gwella - Hyrwyddo manteision ffordd o fyw iach ac egnïol)

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2012/13:**

- Cynyddu nifer y bobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau hamdden ac yn cymryd rhan ym mhob math o weithgarwch corfforol ledled y fwrdeistref sirol.
- Gwella iechyd a disgwyliad oes pobl yn ein bwrdeistref sirol yn yr hirdymor.

☺ Aseswyd yr Amcan Gwella hwn a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn **Llwyddiannus** ar gyfer 2012/13

Lluniwyd y farn hon yn seiliedig ar ddadansoddiad o weithgarwch a pherfformiad yn erbyn y camau gweithredu a'r dystiolaeth a nodwyd yn ein cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn (gweler Atodiad 1). Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu a gwnaeth y rhan fwyaf o'n mesurau perfformiad gyflawni'r targedau y gwnaethom eu gosod i ni ein hunain ar gyfer y flwyddyn neu ragori arnynt. Er na chyflawnwyd popeth a gynlluniwyd rydym wedi ystyried effaith hyn ar ein canlyniadau datganedig a chredwn, ar gyfartaledd, fod yr amcan gwella hwn wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer 2012/13 am ein bod wedi cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol a dengys ein tystiolaeth fod mwy o oedolion a phlant yn fwy egnïol mewn nifer o feysydd allweddol.

**Yr hyn a wnaethom yn dda a'r gwahaniaeth a wnaeth**

O'r 30 o gamau gweithredu yn ein cynllun gweithredu (gweler atodiad a), cwblhawyd 25 o gamau gweithredu, neu gwnaethant gynnydd boddhaol, erbyn diwedd mis Mawrth 2013. Roedd 19 o'r 23 o ddangosyddion perfformiad (82.6%) a ddefnyddiwyd i fesur ein cynnydd o dan yr amcan hwn wedi cyflawni'r targed neu ragori arno erbyn diwedd y flwyddyn. Mae rhai o uchafbwyntiau cadarnhaol y camau gweithredu a'r mesurau ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys y canlynol;

- Parhaodd y defnydd o wneir o ganolfannau hamdden i gynyddu ac ar ddiwedd y flwyddyn cynyddodd nifer yr ymweliadau â'n Canolfannau Hamdden i 1,277,952, a oedd uwchlaw'r targed, sef 1,159,371. Cynyddodd nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden 11% rhwng 2011/12 a 2012/13.
- Mae gan Ganolfannau Hamdden y nifer fwyaf o aelodau a gofnodwyd erioed ar gyfer Gwasanaethau Hamdden ac erbyn hyn mae ganddynt fwy na 100,000 o aelodau. Mae hyn yn gynnydd o 15% o gymharu â 2011/12.
- Ar ddiwedd y flwyddyn gwnaed 27,415 o ymweliadau nofio am ddim gan blant dan 16 oed â'n pyllau nofio. Yn ogystal â rhagori ar y targed ar gyfer 12/13 roedd y ffigur hwn 7% yn fwy na nifer yr ymweliadau yn ystod 2011/12.
- Roedd nifer yr ymweliadau â gweithgareddau Chwaraeon Caerffili hefyd uwchlaw'r targed ar gyfer 2012/13. Gwnaed mwy na 78,000 o ymweliadau unigol yn ystod 2012/13, a oedd 3,000 yn fwy na'r targed ar gyfer y flwyddyn, sef 75,000. Roedd nifer yr ymweliadau lluosog â gweithgareddau Chwaraeon Caerffili 19% yn fwy na'r targed a chafwyd 220,928 o ymweliadau o gymharu â tharged o 185,000.

- Hyfforddodd Chwaraeon Caerffili 1,643 o gyflogeion a gwirfoddolwyr yn ystod 2012/13. Roedd y ffigur hwn 43 yn fwy nag a fwriadwyd a bron 300 yn fwy na'r llynedd.
- Ym mis Gorffennaf 2012 derbyniodd yr Awdurdod wobr aur y Safon Iechyd Corfforaethol.
- Rydym yn parhau i gynnal sioeau teithiol, digwyddiadau hyfforddi a digwyddiadau cyhoeddusrwydd ledled y fwrdeistref sirol, ond yn enwedig mewn nifer o'n cymunedau mwyaf difreintiedig, er mwyn hyrwyddo negeseuon Change4Life Newid am Oes ac athroniaeth cychwyn iach.
- Yn ystod 2012/13 roedd dros 29,000 yn fwy o ymwelwyr â Ffordd Coedwig Cwmcarn nag a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o fwy na 15% rhwng y blynyddoedd.
- Yn 2012/13 cafwyd mwy na dwbl (11,177) y nifer o ymweliadau â gwefan Her Iechyd Caerffili nag a gafwyd yn 2011/12 (5,448).

**Yr hyn nad aeth yn dda**

Nododd ein dadansoddiad bedwar cam gweithredu lle mae angen i ni wneud cynnydd pellach, sef:

- Gwnaethom fawr ddim cynnydd o ran adolygu'r cytundebau sy'n bodoli rhwng ysgolion a gwasanaethau hamdden lle mae cyfleusterau hamdden wedi'u cyd-leoli ac yn cael eu rhannu ar safleoedd ysgolion yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod hwn yn faes i'w wella lle mae cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac mae angen gwneud rhagor o waith. Mae'r gwasanaeth wedi blaenoriaethu'r gwaith hwn o fewn ei Gynllun Gwella Gwasanaethau ar gyfer 2013/14.
- Datblygwyd rhaglen nofio ddwys newydd i ysgolion, a roddwyd ar waith o fis Medi 2012. Ar ddiwedd mis Mawrth 2013 roedd 62 allan o 68 o ysgolion wedi ymrwymo i'r rhaglen. O fis Medi 2013 byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan yn y rhaglen hon fel rhan o'r Cynllun Pasbort Dŵr newydd.
- Cafwyd oedi cyn datblygu a gweithredu'r pecyn cymorth lles Cymunedol, oherwydd problemau yn gysylltiedig ag adnoddau a chyllid ar ddechrau 2012/13. Er nad ataliodd hyn y ‘pecyn cymorth’ rhag cael ei ddatblygu, mae wedi peri oedi i'r gwaith o'i weithredu. Fodd bynnag, disgwyliwn i'r pecyn cymorth’ gael ei weithredu'n llawn erbyn Hydref 2013.
- Dywed ein gwybodaeth proffilio cwsmeriaid wrthym fod ‘defnyddwyr yn eu harddegau’ yn grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein canolfannau hamdden. Rydym yn gweithio gyda'r Fforwm Ieuenctid i gyflwyno rhagor o gynlluniau cymhelliant er mwyn denu defnyddwyr ar eu harddegau. Rydym yn bwriadu datblygu Cymhwysiad Cerdyn Clyfar i'w ddefnyddio gyda ffonau clyfar a llechenni.

**Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well**

Yn 2012/13 roedd pedwar mesur lle na chyflawnwyd y targed, sef;

- cyrhaeddodd 15% o ysgolion safon ansawdd Activemark yn ystod 2012/13, a oedd yn llai na'r targed ar gyfer y flwyddyn, sef 27%. Mae Activemark yn safon ansawdd a weithredir gan Activemark Cymru gan ei ddatblygu ar y cyd â Chwarae Cymru a'r Gymdeithas Addysg Gorfforol. Dyfernir y safon ansawdd i ysgolion er mwyn cydnabod addysg gorfforol a rhaglenni chwaraeon ysgol o safon uchel. Nid oedd ein perfformiad yn ystod 2012/13 cystal â'r disgwyl oherwydd newid yn y ffordd yr asesir safon ansawdd Activemark.
- Yn ystod 2012/13 ni fu'n bosibl i ni ymdrin â chymaint (982 o achosion) o achosion atgyfeirio ymarfer corff ag a fwriadwyd (1080 o achosion), neu fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol (1166 o achosion yn 2011/12). Mae'r gwasanaeth atgyfeirio ymarfer corff wedi gweld nifer gynyddol o achosion sy'n ymwneud â phroblemau iechyd mwy cymhleth, y mae'n cymryd mwy o amser i ymdrin â hwy. Fodd bynnag, ariennir y gwasanaeth hwn gan Lywodraeth Cymru ac nid oes ganddo lawer o arian. Golyga hyn y gellir ymdrin â llai o achosion bob blwyddyn am mai dim ond hyn a hyn o amser sydd gan hyfforddwyr
- Yn ystod 2012/13 pennwyd targed o 42% ar gyfer canran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ein Hysgolion Cynradd. Fodd bynnag, yn y flwyddyn honno, 38.5% oedd canran y disgyblion a gafodd brydau ysgol am ddim. Yn ystod 2012/13 mae ein hymrwymiad i gynllun Blas am Oes wedi cael effaith negyddol ar ganran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ein hysgolion cynradd. Mae pob ysgol gynradd bellach wedi ymgysylltu'n llawn â deddfwriaeth Blas am Oes, a ddaeth i rym o fis Medi 2012. Fodd bynnag, mae hyn wedi amharu ar nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am nad yw'r dewisiadau iachach ar fwydlenni, sy'n un o gonglfeini cynllun Blas am Oes, yn boblogaidd gyda phlant sy'n golygu bod llai o blant am gael opsiwn pryd yr ysgol neu'n ei ddewis. Rydym yn cydnabod bod hyn yn broblem ac yn gweithio tuag at gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis ein prydau drwy hyrwyddo manteision iechyd prydau ysgol i rieni a disgyblion.
- Roedd ein perfformiad 178 o nofiadau yn llai na'n targed (42,049 o nofiadau) ar gyfer nifer y sesiynau nofio am ddim i oedolion 60 oed a throsodd yn 2012/13. Fodd bynnag, roedd ein perfformiad yn ystod 2012/13, sef 41,871 o nofiadau, yn welliant o gymharu â 2011/12 pan gofnodwyd 40,788 o nofiadau. Rydym yn cynllunio rhagor o fentrau er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein targed yn y dyfodol.

## Amcan Gwella - Cynnal yr ystod o Gyfleoedd Cyflogaeth ar gyfer preswylwyr)

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2012/13:**

- Cefnogi busnesau yn enwedig busnesau micro, busnesau bach a busnesau canolig eu maint i gynnal neu ddiogelu nifer y swyddi y gallwn eu creu drwy ddarparu grantiau a chyngor arbenigol i fusnesau orau y gallwn
- Helpu i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth drwy weithio mewn partneriaeth â rhaglenni sy'n helpu i roi'r sgiliau a'r addysg angenrheidiol i oedolion a phobl ifanc er mwyn iddynt gael gwaith.
- Y canlyniad yn y tymor hwy rydym yn anelu ato yw gwella cyfleoedd i gael gwaith gan fod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar helpu pobl i osgoi tlodi

☺ Aseswyd yr Amcan Gwella hwn a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn **Llwyddiannus** ar gyfer 2012/13

**Yr hyn a wnaethom yn dda a'r gwahaniaeth a wnaeth**

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a restrir yn y cynllun gweithredu wedi parhau o 2011-12 ac mae cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ym mhob achos. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn erbyn cefndir o ddirwasgiad parhaus a all fod yn gwaethygu. Mae lefelau diweithdra yn dal i fod yn uchel – mae bron 6,000 o unigolion yn y Fwrdeistref Sirol yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, nad yw'n cael ei fonitro o dan yr Amcan Gwella. Gellir gweld bod nifer yr hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn lleihau (bron 5% yn ystod y 18 mis diwethaf). Fodd bynnag, gellir priodoli hyn i'r broses ailasesu sy'n cael ei chynnal gan Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd hon, mae nifer o weithgareddau a rhaglenni calonogol, sy'n sail i ymateb y Cyngor (a phartneriaid):

- Mae'r prosiectau a ariennir gan yr UE – Genesis 2, Pontydd i Waith, Sgiliau Gwaith i Oedolion a Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle – oll wedi darparu system bwysig iawn i helpu unigolion i gael swydd a'i chadw, er mai dim ond yn ddiweddar y dechreuodd y prosiect olaf.
- Mae Cynllun Hyfforddeiaethau'r Cyngor yn parhau i gynnig cyfleoedd pwysig i unigolion lleol. Mae'r prosiect hwn wedi arwain at ddatblygu Rhaglen Basbort, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2013, a'n nod yw y bydd y rhaglen hon yn cynyddu nifer y bobl ifanc a gefnogir i hyd at 200 neu ragor y flwyddyn.
- O ran creu a diogelu swyddi yn y sector preifat, mae Tîm Cymorth i Fentrau Busnes y Cyngor yn parhau i roi cyngor, canllawiau a chymorth grant i fusnesau lleol. Mae hyn yn cynnwys annog busnesau i fasnachu ar-lein ac mae datblygiad prosiect Fy Nhref GO2, sydd eisoes wedi datblygu porth ar-lein i fusnesau ym Margod a Rhymni, yn hwyluso'r gwaith hwn. Mae'r prosiect ar y trywydd cywir a chynigiwyd yr un gwasanaeth mewn pum tref arall hefyd yn 2012-13 (roedd y gwasanaeth ar waith ym mhob un o'r pump erbyn mis Hydref 2012) ac mae'r Cyngor hefyd yn ceisio arian i gyflwyno'r prosiect mewn rhannu eraill o Gymru.

- O ganlyniad i'r ymateb cadarnhaol i'r arolwg o denantiaid (Chwefror ’12), mae'r Cyngor bellach yn datblygu gweithgareddau er mwyn sicrhau bod buddsoddiad Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael yr effaith fwyaf posibl o ran cynnal, creu a chefnogi swyddi newydd a chyfleoedd hyfforddi ledled y fwrdeistref.
- Nodir isod rai cyflawniadau allweddol a gofnodwyd yn ystod 2012/13:
    - Dyfarnwyd 125 o gontractau cyflenwyr i fusnesau lleol.
    - Gwahoddwyd 347 o fusnesau lleol i dendro ar gyfer contractau.

I gloi, mae'r economi leol yn dal i fod yn fregus, ond mae nifer o lwyddiannau pwysig a gweithgareddau parhaus, sy'n cael effaith gadarnhaol. Adeiledir ar hyn ystod 2013, pan fyddwn yn datblygu cynigion ar gyfer y cylch nesaf o arian yr UE (2014-20).

**Yr hyn nad aeth yn dda**

Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, nid yw'r economi leol wedi gweld unrhyw welliannau sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond ymddengys ei bod wedi'i chynnal ar y cyfan.  Er enghraifft, gwnaethom helpu i greu 139 o swyddi newydd, diogelu 1130 o swyddi drwy roi cymorth grant a hefyd greu cyfleoedd prentisiaeth/hyfforddiant i 132 o unigolion. Mae'n amlwg bod yr heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yw nodi pob un o'r grwpiau yr ymddengys fod angen cymorth arnynt ac ymgysylltu’n llawn â'r rhai y gellir neu y gellid eu helpu.

Hefyd, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r sector cyhoeddus wedi'i chael hi'n anodd iawn perswadio Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) i gefnogi a chynorthwyo'r gwaith o gyflawni busnes yr Awdurdod. Er mwyn annog BBaChau ac ennyn eu diddordeb mewn gweithio gyda'n Hawdurdod, rydym bellach wedi sefydlu ‘Swyddog Cyswllt Cyflenwyr’ a leolir o fewn yr Adran Gaffael, a benodwyd yn unswydd i ddatblygu busnesau lleol, yn enwedig BBaChau. Rydym hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith i baratoi ar gyfer cynnal nifer o sesiynau ymwybyddiaeth, gweithdai a digwyddiadau cynghori a chefnogi, rhwng mis Hydref 2012 a mis Mehefin 2013 gan obeithio ennyn diddordeb ac annog mwy o fusnesau i dendro am gontractau (cyflenwyr) lleol.

**Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well**

Dylid nodi mai ychydig iawn o ‘reolaeth uniongyrchol‘, os o gwbl, sydd gennym dros yr holl agweddau ar gyfleoedd cyflogaeth (neu ddiffyg cyflogaeth) yn ein bwrdeistref, ac mai partneriaeth wirioneddol yw hon â'r sector preifat, yr adran gwaith a phensiynau, y canolfan gwaith ac ati. Er hynny, mae angen i ni weithio ar ddatblygu cynigion ar gyfer y cylch nesaf o arian yr UE (2014-20) cymunedau a dinasyddion.  Y llynedd cyflwynwyd ‘Cynllun Pasbort y Cyngor’ fel rhan o'n blaenoriaeth ‘Rydym am wella cyfleoedd gwaith yn ein Bwrdeistref Sirol, fel y gall pobl fyw bywydau gwell’, sydd wedi helpu i ddarparu tua 150 o gyfleoedd prentisiaeth. (Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn wedi'i anghymwyso bellach gan ein harchwilwyr am fod y system bryd hynny yn ei gwneud hi'n anodd gwirio ffigurau er bod hyn wedi'i unioni bellach).

## Amcan Gwella - Lleihau ein hôl troed carbon a gwella ein cynaliadwyedd (AG 8)

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2012/13:**

- Lleihau allyriadau $CO_2$ o'n hadeiladau a'n goleuadau stryd.
- Lleihau effaith tlodi tanwydd ar ddeiliaid tai ym Mwrdeistref Sirol Caerffili
- Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ymhlith ein staff a thrigolion y fwrdeistref i'w galluogi i leihau eu hallyriadau carbon.
- Lleihau effaith ein teithiau a'n trafnidiaeth ar yr amgylchedd

☺ Aseswyd yr Amcan Gwella hwn a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn **Llwyddiannus** ar gyfer 2012/13, am fod ein data perfformiad yn dangos tueddiadau sy'n gwella o ran y materion y rhoddwyd sylw iddynt.

**Yr hyn a wnaethom yn dda a'r gwahaniaeth a wnaeth**

Datblygodd a mabwysiadodd yr Awdurdod, gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon, Strategaeth Lleihau Carbon hirdymor yn 2009, er mwyn mynd i'r afael â'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon. Nodir isod rai o'n cyflawniadau allweddol a nodwyd ar ddiwedd 2012/13:

- Dros y saith mlynedd diwethaf a thrwy roi gwahanol brosiectau a ariennir gan gynllun Cronfa Ynni Awdurdodau Lleol (LAEF) ar waith, mae buddsoddiadau mewn technolegau wedi sicrhau arbedion carbon oes gyfan cronedig o 1,588 o dunelli'r flwyddyn.
- Darparodd cynllun LAEF £75,000 er mwyn gwella rheolyddion goleuadau stryd (1,000 o lampau stryd) ymhellach, er mwyn rheoli gwaith cynnal a chadw gofynnol yn well, lleihau nifer yr oriau gweithredol, y defnydd o ynni a lefelau allyriadau a gostwng lefelau golau.
- Adeiladu tair Ysgol Gynradd newydd a fydd yn cael budd o ddeunyddiau a thechnolegau adeiladu modern ac yn cymryd lle hen adeiladau aneffeithlon.
- Cynhaliwyd astudiaeth i ystyried uned gwres a phŵer gyfunol, wedi'i hadnewyddu i'w gosod yng nghanolfan hamdden Heolddu, a ddaeth i'r casgliad y gellid sicrhau manteision o ran lleihau costs, y defnydd o ynni ac allyriadau. Rydym bellach yn ystyried cynnal astudiaeth bellach yn 13/14 i ystyried unrhyw fanteision eraill y gellid eu sicrhau pe câi uned gwres a phŵer gyfunol newydd ei gosod.
- Cynhaliwyd astudiaethau dichonoldeb er mwyn asesu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau trydan dŵr ledled y fwrdeistref sirol. Bwriedir adolygu adborth a chasgliadau drwy gydol 2013/14. Dengys ymchwiliadau parhaus yn Ffordd Coedwig Cwmcarn bod gan y safle botensial da ar gyfer cynhyrchu trydan dŵr, ond mae'r costau ariannol/manteision o ran ynni yn dal i gael eu hadolygu.
- Mae ein Tîm Ynni wedi datblygu ymhellach systemau data llawer gwell sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad a'u sicrhau, a fydd yn ein galluogi i ddadansoddi a chofnodi newidiadau cyfnodol yn y defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn well.

- Rydym wedi helpu i leihau effaith tlodi tanwydd ar aelwydydd yn CBS Caerffili gan fanteisio ar geisiadau llwyddiannus am arian i fynd i'r afael ag eiddo mewn ardaloedd penodol yn y fwrdeistref.  Drwy gydol 2012/13, bu CBSC yn cydweithio â nifer o ddarparwyr ynni, Llywodraeth Cymru, darparwyr tai (cyhoeddus a phreifat) a chontractwyr, i ddarparu nifer fawr o osodiadau technoleg ynni a gwneud newidiadau i eiddo o dan y cynlluniau canlynol:
  - Rhaglen Arbed:  Rhaglen buddsoddi strategol mewn perfformiad ynni a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009 er mwyn dod â manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i Gymru a chydgysylltu buddsoddi ym mherfformiad ynni cartrefi yng Nghymru (er mwyn lleihau'r newid yn yr hinsawdd, helpu i ddileu tlodi tanwydd a hybu datblygu ac adfywio economaidd).  Er enghraifft, yn 2012/13, gwnaeth CBSC gais llwyddiannus am arian i gynnal prosiect o dan raglen Arbed yn Fochriw. Dechreuodd y prosiect hwn yn ddiweddar ar y safle ac mae'n cael ei reoli gan Gartrefi Melin. Mae dros 300 o eiddo sector preifat a fydd yn cael budd o gymysgedd o fesurau sy'n cynnwys Inswleiddio Waliau Allanol, boeleri cyddwyso nwy, optimeiddiwyr foltedd a systemau awyru â mewnbwn cadarnhaol. Amcangyfrifir bod y gwaith yn werth £2.5 miliwn a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

    Mae cais arall hefyd wedi'i gyflwyno ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni'r anheddau preifat yn Llwyncelyn ac mae'r cais hwn wedi'i dderbyn dros dro ac mae'n cael ei ddatblygu at ddibenion cynnal arolwg yn 2013/14.
  - Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau (CESP): Mae buddsoddiadau yn 2012/13 yn werth mwy na £1.2m, sy'n cynnwys yn bennaf; Inswleiddio 311 o atigau; Gosod 276 o Foeleri Cyddwyso a 1,161 o systemau Inswleiddio Waliau Allanol.
- Gwnaethom annog ein staff i ystyried defnyddio dulliau amgen o deithio (megis trafnidiaeth gyhoeddus), cyfnewid eu cerbydau am gerbydau mwy ecogyfeillgar (sy'n defnyddio tanwydd yn effeithlon) a hefyd ystyried cerdded a beicio.

  Ar ddiwedd 2012/13, roedd ein staff wedi newid i 191 o gerbydau newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac roedd 291 o unigolion wedi'u cofrestru ar ein cynllun aberthu cyflog beicio i'r gwaith.
- Comisiynodd yr awdurdod adroddiad annibynnol ar ein defnydd o gerbydau fflyd, a nododd saith argymhelliad allweddol a allai helpu i sicrhau gwelliannau.

**Yr hyn na wnaethom yn 2012/13.**

Fel rhan o'n rhaglen cynaliadwyedd a lleihau carbon, ni chynhaliwyd arolwg penodol o staff a gynlluniwyd (am fod gennym lai o adnoddau staff) a fyddai wedi rhoi gwybodaeth i ni am y canlynol:
- Lefel dealltwriaeth ein staff o ddatblygu cynaliadwy.
- Canran y staff sy'n teithio i'r gwaith ar eu pen eu hunain mewn car.

Ni chafodd hyn effaith uniongyrchol ar yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd, ond gallai fod wedi helpu i lywio ein prosesau cynllunio.

**Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well**

Mae lleihau ein hôl troed carbon a gwella ein cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn.  Felly, bydd llawer o waith yn parhau i gael ei wneud/ystyried yn ein prosesau cynllunio a darparu gwasanaethau ym mhob rhan o'r awdurdod.

## Dadansoddi Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ar gyfer 2012/13

## Gwasanaethau Amgylcheddol

| Cyf | Disgrifiad | 2011 12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **LCS 002b** | Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | Dd/G | Dd/G | | 7,607 | 7,715* | 14eg allan o 22 | 8,864 |
| | Er i'r ffigur a gofnodwyd, sef 7,715, ragori ar ein targed (7,607) ar gyfer 2012/13 roeddem yn dal i fod yn is na Chyfartaledd Cymru Gyfan (8,864) ac roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog. *Mae'r dangosydd hwn wedi'i amodi gan SAC ac wedi'i ailgyfrif i ddarparu ar gyfer y newidiadau i ganllawiau 2012/13 er mwyn rhoi'r ffigur a nodwyd uchod<br>Nid oes unrhyw wybodaeth gymharol uniongyrchol ar gael ar gyfer 2011/12, am i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gasglu data newid ar gyfer 2012/13 | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **PLA 006b** | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | Dd/G | Dd/G | | Dd/G* | 42%* | 11eg allan o 22 | 45% |

| Cyf | Disgrifiad | 2011 12 | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| | Mae'n anodd pennu targed ar gyfer y mesur hwn am fod y canlyniad yn dibynnu'n fawr ar fuddsoddwyr a datblygwyr $3^{ydd}$ parti sydd â diddordeb (megis cymdeithasau tai a thai'r sector preifat). Felly, dylid nodi fod unrhyw unedau tai fforddiadwy ychwanegol a adeiledir yn fudd / gwelliant i'n cymuned/dinasyddion. Mae'r canlyniad a gyflawnwyd yn 2012/13, sef 42%, yn cynrychioli 108 o unedau tai allan o gyfanswm o 257 ac roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog**.** Nid oes unrhyw wybodaeth gymharol uniongyrchol ar gael ar gyfer 2011/12, am i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gasglu data newid ar gyfer 2012/13.<br>* Mae'r dangosydd hwn yn ddangosydd rhag-boblogedig a daw gwybodaeth o'r ffurflen casglu data tai fforddiadwy a'r ffurflen casglu data adeiladau newydd. Mae'r ffigurau ar gyfer 2012-13 wedi'u hamodi gan SAC ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru am iddi ganfod fod data rhag-boblogedig trydydd parti yn annibynadwy. | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **THS 007** | Canran yr oedolion 60 oed a throsodd sydd â cherdyn bws rhatach. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 87.8% | $7^{fed}$ allan o 22 | 90% | 88.4% | $6^{ed}$ allan o 22 | 84.8% |
| ☺ | Mae nifer yr unigolion sy'n manteisio ar y mesur hwn yn dibynnu'n fawr ar ein dinasyddion yn gofyn am y gwasanaeth, yn hytrach na bod y cerdyn bws rhatach yn cael ei roi'n awtomatig i bob dinesydd sy'n gymwys i'w gael Er ein bod wedi gweld cynnydd bach yn nifer yr unigolion sy'n manteisio ar y mesur yn 2012/13 (36,757 allan o 41,596) o gymharu â 2011/12 (35,483 allan o 40,392), roedd ein perfformiad ychydig yn is na'n targed lleol, sef 90%.<br>Ar gyfer 2011/12 roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog ac mae'r gwelliant bach a welwyd yn ystod 2012/13 bellach yn ein rhoi yn y chwartel uchaf ac yn golygu ein bod gryn dipyn yn uwch na Chyfartaledd Cymru Gyfan. | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **STS 006** | Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith. **(DSC)** **Amcan Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 98.34% | $7^{fed}$ allan o 22 | 99% | 99.05% | $3^{ydd}$ allan o 22 | 92.16% |
| | Roedd y ffigur a gofnodwyd, sef 99.5% (1,663 o achosion a gliriwyd allan o 1679 a gofnodwyd), yn uwch na'n targed ar gyfer 2012/13 (99%) a dyma oedd y $3^{ydd}$ sgôr uchaf yng Nghymru. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r llynedd pan oeddem yn y $7^{fed}$ safle yng Nghymru gyda sgôr o 98.4% (1,841 allan o 1,872).<br>Ar gyfer 2011/12 roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog, sydd wedi gwella bellach yn 2012/13 gan ein rhoi yn y chwartel uchaf gyda sgôr sydd gryn dipyn yn uwch na Chyfartaledd Cymru Gyfan. | | | | | | |
| | | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011 12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ein Canlyniad** | **Safle yng Nghymru** | | **Targed** | **Ein Canlyniad** | **Safle yng Nghymru** | **Cyfartaledd Cymru Gyfan** |
| **WMT 004b** | Canran y gwastraff trefol a anfonwyd i safle tirlenwi. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | Dd/G | Dd/G | | 39% | 42.01% | 10$^{fed}$ allan o 22 | 41.03% |
| | Roedd y ffigur a gofnodwyd ar gyfer 2012/13, sef 42.01%, yn is na'r targed. Ar gyfer y dangosydd hwn dengys canlyniad is welliant. Roedd hyn yn golygu ein bod yn y 10$^{fed}$ safle yng Nghymru (yr ystod ganolog) ac roedd ein perfformiad ychydig yn waeth na Chyfartaledd Cymru Gyfan, sef 41.03%. Tywydd garw yn ystod gaeaf 2012/13 (y 3ydd a'r 4ydd Chwarter) yw'r rheswm pam na chyflawnwyd ein targed ar gyfer y flwyddyn. Oherwydd cyfnodau hir o eira ac iâ penderfynwyd rhoi'r gorau i gasgliadau ailgylchu ar ymyl y palmant dros dro o blaid un casgliad ar gyfer pob math o wastraff cartref, a anfonwyd i safle tirlenwi. Fodd bynnag dywed y wybodaeth am ein perfformiad i ni ragori ar ein targed yn ystod chwarter 1af ac 2il chwarter 2012/13 (38.5% a 38.8%). Gwnaethom hefyd bennu targed heriol i ni ein hunain ar gyfer 2012/13 (39%), o gymharu â 2011/12 (45%).<br>Nid oes unrhyw wybodaeth gymharol uniongyrchol ar gael ar gyfer 2011/12, am i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gasglu data newid ar gyfer 2012/13 | | | | | | | |
| **WMT 009b** | Canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys biowastraff a wahanwyd yn y tarddle a gaiff ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | Dd/G | Dd/G | | 56.6% | 57.07% | 3$^{ydd}$ allan o 22 | 52.26% |
| | Roedd y canlyniad ar gyfer 2012/13, sef 57.7%, yn uwch na'n targed (56.6%). Roedd hyn yn golygu ein bod yn y chwartel uchaf a'r 3$^{ydd}$ safle yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn, ac nid oeddem ond 0.4% islaw Pen-y-bont ar Ogwr (57.11%) a oedd yn yr 2$^{il}$ safle. Er ein bod yn dal i berfformio'n arbennig o dda yn y maes hwn, dylid nodi bod y rhan fwyaf o'n gwelliannau mawr i'r gwasanaeth hwn bellach wedi'u gwneud. O ganlyniad, mae ein perfformiad o ran ailgylchu wedi gwella'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf (gan gynyddu mwy na 30%). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd yn anodd i ni barhau i wella ein perfformiad ar yr un raddfa yn y dyfodol.<br>Nid oes unrhyw wybodaeth gymharol uniongyrchol ar gael ar gyfer 2011/12, am i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gasglu data newid ar gyfer 2012/13 | | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011 12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **STS0 05b** | Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid **(MAC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 95.5% | $14^{eg}$ allan o 22 | | 95% | 97.4% | $7^{fed}$ allan o 22 | 95.8% |
| ☺ | 97.4% oedd y canlyniad yn 2012/13, o oedd yn uwch na'r targed ar gyfer y flwyddyn, sef 95%. Roedd hyn yn golygu ein bod yn y $7^{fed}$ safle yng Nghymru, uwchlaw Cyfartaledd Cymru Gyfan, sef 95.8%. Unwaith eto, roedd hyn yn welliant o gymharu â pherfformiad y llynedd pan oeddem yn y $14^{eg}$ safle yng Nghymru gyda sgôr o 95.5%.<br>Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog. | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **THS 012** | Canran y ffyrdd A, B ac C sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. **(MAC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | 8.9% | $6^{ed}$ allan o 22 | | 4.35% | 8.6% | $8^{fed}$ allan o 22 | 13.4% |
| ☺ | Gwellodd perfformiad ychydig yn 2012/13 (8.6%) o'i gymharu â 11/12 (8.9%), ond ni chyflawnodd ein targed lleol, sef 4.35%. Dengys canlyniadau'r mesur hwn fod yr awdurdod yn wynebu her o ran cynnal ei rwydwaith ac mae'r tywydd garw anarferol a welwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf hefyd wedi effeithio ar gyflwr y priffyrdd a chyfraddau dirywio (yn enwedig tyllau mewn ffyrdd). Mesur newydd oedd hwn a sefydlwyd yn 2011/12. Ar gyfer 2011/12 ystyriwyd bod ein safle perfformiad yng Nghymru yn y chwartel uchaf, ac er i'n perfformiad wella ychydig yn ystod 2012/13, rydym bellach wedi symud i'r ystod ganolog. | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **PPN 009** | Canran y sefydliadau bwyd, sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd. **(MAC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 87.23% | $7^{fed}$ allan o 22 | | 70% | 87.26% | $11^{eg}$ allan o 22 | 86.63% |
| ☺ | Er i ni weld lleihad bach yng nghyfanswm y sefydliadau ledled y fwrdeistref yn 2012/13, dengys perfformiad i ni gyflawni canlyniad ychydig yn well yn 2012/13, sef 87.26% (sy'n cynrychioli 1,322 allan o 1,515 o sefydliadau) o gymharu â 87.23% (1,407 allan o 1,613 o sefydliadau) yn 11/12, sydd gryn dipyn yn uwch na'r targed disgwyliedig o ddim ond 70%.<br>Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, ystyriwyd bod ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog. | | | | | | | |

| Dengys ein dangosyddion perfformiad y canlynol: | | | |
|---|---|---|---|
| Canlyniadau'r flwyddyn bresennol o'u cymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol | | ☹ | Yn waeth na'r flwyddyn flaenorol |
| | | 😐 | Yn cyfateb i'r flwyddyn flaenorol |
| | | ☺ | Yn well na'r flwyddyn flaenorol |
| | | **Dd/G** | Nid oes data ar gael neu ni ellir ei gymharu – gweler sylwadau unigol am esboniad. |

## Gwerthuso gwybodaeth arall am berfformiad ar gyfer y flwyddyn 2012/13

### Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden

- Casglwyd cyfanswm o ychydig dros 1,000 o dunelli yn fwy o wastraff o'n cartrefi yn ystod 2012/13 (23,762) o gymharu â'r llynedd (22,591). Ailddefnyddiwyd neu ailgylchwyd 58% (13,761 o dunelli) o'n gwastraff a oedd yn uwch na'r canrannau a gofnodwyd mewn blynyddoedd blaenorol a hefyd ei darged blynyddol, sef 56.6% (13,449 o dunelli), sy'n golygu bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.
- Cofnodwyd y lefelau uchaf erioed o gyfranogiad mewn cynlluniau ailgylchu ar ymyl y palmant gyda 78% o aelwydydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau, o gymharu â tharged blynyddol o 76% a'n perfformiad y llynedd, sef 75%. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 29% dros y pum mlynedd diwethaf. (49% yn 2007/08)
- Dychwelwyd 96.26% o daflenni diffygion cerbydau erbyn diwedd 2012/13, sy'n ein helpu i fodloni gofynion ein trwydded gweithredwr (fflyd cerbydau). Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r targed blynyddol (95%) a pherfformiad y flwyddyn flaenorol (96.18%).
- Yn 2012/13 costiodd £2.22 (net fesul ymweliad) i'r Awdurdod ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r targed o £2.78 (net fesul ymweliad) ar gyfer 2012/13 a'r gost ar gyfer 2011/12, sef £2.55.
- Yn 2012/13 costiodd ychydig dros £152 (net fesul claddedigaeth) i ddarparu gwasanaethau claddu ledled yr Awdurdod. Roedd y gost hon gryn dipyn yn llai na'r targed blynyddol, sef £325 (net fesul claddedigaeth) a chost y llynedd, sef £355.22 (net fesul claddedigaeth). Fodd bynnag, mae'r lleihad hwn i'w briodoli'n benodol i gynnydd blynyddol mewn ffioedd claddu o 18.5% a chwyddiant.
- Dengys Arolwg o Aelwydydd 2013 y canlynol: Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar ein cyfleusterau a'n gwasanaethau ar gyfer y canlynol:
  - Canolfannau Chwaraeon a Hamdden oedd 86% (87% yn 2011).
  - Casglu Sbwriel oedd 91% (89% yn 2011).
  - Gwasanaethau Ailgylchu oedd 96% (94% yn 2011).
  - cofnododd Gwastraff Gardd a Bwyd a'r Safleoedd Amwynder Dinesig 92% (y canrannau oedd 91% a 89% yn 2011).
- Ar ddiwedd 2012/13 roedd bron 15% o'n Lwfans Tirlenwi ar ôl, yn erbyn targed ar ddiwedd y flwyddyn o 5%. Pennir y Lwfans Tirlenwi gan Lywodraeth Cymru a bwriedir iddo gyfyngu ar y gwastraff trefol bioddiraddadwy y gall awdurdodau lleol ei anfon i safleoedd tirlenwi heb fod yn agored i gosbau drud. Y llynedd newidiodd Llywodraeth Cymru y lwfansau ar gyfer pob awdurdod lleol a chafodd y lwfansau wedi'u hailgyfrif effaith andwyol ar Gaerffili. Fodd bynnag, y gofyniad cyffredinol yw bod pob awdurdod lleol yn aros o fewn y lwfans a bennwyd ac rydym wedi gwneud hynny, yn gyson o flwyddyn i flwyddyn. Petawn mewn perygl o fynd dros ein lwfans, yr ydym yn ei fonitro'n ofalus iawn, rydym wedi rhoi opsiynau ar waith ar gyfer dargyfeirio gwastraff arall o safleoedd tirlenwi er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r targed ar gyfer y flwyddyn.

☹ Yn 2012/13, cynhaliwyd 8257 o archwiliadau o safleoedd a chofebau ym mhob un o'n mynwentydd a'n gerddi coffa. Ni chyflawnwyd y targed blynyddol ar gyfer 2012/13, sef 19,998 o archwiliadau arfaethedig. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i gyfnodau hir o dywydd garw yn ogystal ag adnoddau staff o ganlyniad i ddadfuddsoddiadau mewn gwasanaethau mewn blynyddoedd blaenorol.

**Gwasanaethau Peirianneg**

☺ 3.96 diwrnod oedd nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i atgyweirio lampau stryd diffygiol yn ystod 2012/13 (a oedd yn well na'r ffigur a gofnodwyd yn 11/12, sef 4.5 diwrnod).

☺ Gwellodd canran y digwyddiadau peryglus (priffyrdd) a atgyweiriwyd o fewn 24 awr i 98% yn 2012/13 (o gymharu â 97.7% yn 11/12).

☺ Gwellodd canran y Prif ffyrdd(A) a oedd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol ychydig i 5.08% yn 2012/13 (o gymharu â 5.78% yn 11/12).

☺ O Arolwg o Aelwydydd 2013: Canran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar rwydwaith ffyrdd y gymdogaeth ar gyfer y canlynol:
- Rheoli priffyrdd oedd 65% (sy'n uwch na'r 59% a gofnodwyd yn 2011).
- Gwaith Cynnal a Chadw yn y Gaeaf oedd 69% (sy'n uwch na'r 46% a gofnodwyd yn 2011).

😐 Ar hyn o bryd, rydym wedi neilltuo 3.4% o'n lleoedd parcio ceir cyhoeddus sydd wedi'u dynodi'n lleoedd parcio i'r anabl (86 allan o 2500 o leoedd, sy'n cyfateb i'r ffigur a gofnodwyd yn 11/12).

☹ Er gwaethaf lleihad bach yn nifer yr Hysbysiadau Tâl Ychwanegol a gyflwynwyd (tocynnau parcio) i 3,142 yn 2012/13 (o gymharu â 3,317 yn 2011/12), cafwyd 946 o apeliadau (o gymharu â 874 yn 11/12), yr ildiwyd 581 ohonynt (o gymharu â 365 yn 11/12).

**Gwasanaethau Adfywio a Chynllunio**

☺ Yn 2012/13, cynhaliwyd lefel uchel o geisiadau cynllunio llawn tro cyntaf a gymeradwywyd y tro cyntaf, sef 99.67% (298 allan o 299 o geisiadau), wrth i'r gwasanaeth barhau i ddarparu gwasanaeth cymorth cyn gwneud cais effeithiol.

☺ Yn ystod 2012/13, cynhaliodd y Gwasanaethau Rheoli Adeiladu ei lefelau boddhad cwsmeriaid hefyd, a nododd fod y gwasanaeth yn dda neu'n well gan roi sgôr o 92.5% iddo (o gymharu â 11/12).

☺ Hefyd yn 2012/13, cynyddodd canran yn ymwelwyr a nododd eu bod wedi mwynhau eu hymweliad â'n Parciau Gwledig i 94% (o gymharu ag 88% yn 11/12)

☺ Rydym hefyd yn parhau i gynnal canran yr Hawliau Tramwy y mae aelodau o'r cyhoedd yn ystyried eu bod yn hawdd i'w defnyddio ar 78% (o gymharu â 11/12). Mae gennym 847km o Hawliau Tramwy yn y fwrdeistref.

- ☹ Yn 2012/13, gostyngodd canran y ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn o fewn wyth wythnos ychydig i 87.9% (349 allan o 379), o gymharu â 90.7% yn 11/12 (379 allan o 418).
- ☹ Nid ydym wedi cynnal Arolwg Agweddau Siopa ynghylch lefelau boddhad sy'n nodi canfyddiad dinasyddion o fywiogrwydd a hyfywedd canol ein Trefi ers 2010, am fod sawl cynllun adfywio yn dal i fynd rhagddynt ar hyn o bryd a fydd yn effeithio ar ganfyddiadau yn y dyfodol.
- ☹ Yn 2012/13, mae nifer yr unigolion sy'n ymweld â chanol tair o'n trefi allweddol wedi graddol leihau, sef Bargod, y Coed Duon a Chaerffili.

**Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd**

- ☺ Ar ddiwedd 2012/13, llwyddwyd i gynnal canran (lefel) yr ysgolion a sgoriodd 85% ac uwch yn eu harchwiliadau ansawdd arlwyo, ar 96% (sef y ganran a gofnodwyd yn 11/12).
- ☺ Yn sgil rhoi 'deddfwriaeth Blas am Oes' Llywodraeth Cymru ar waith, ar ddiwedd 2012/13, cynyddwyd canran y disgyblion ysgol Uwchradd a gafodd brydau ysgol i 53.02% (o 51.01% ar gyfer yr un cyfnod yn ) a chanran y disgyblion ysgol Gynradd a gafodd brydau ysgol i 39.81% (o 38.46% yn 11/12), er gwaethaf y dewisiadau iachach ar fwydlenni, nad ydynt bob amser yn boblogaidd gyda phlant.
- ☺ Yn ystod 2012/13, gwelwyd cynnydd yng nghanran yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd, a gynyddodd weithgarwch gorfodi i 40.68% (683 o achosion allan o 1679) o gymharu â 40.28% (754 allan o 1872) ar gyfer 11/12.
- ☺ Am y 3edd flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd lefelau boddhad cleientiaid yn gyffredinol, am dderbyn gwasanaeth da iawn (canlyniadau arolygon ar gyfer Cofrestrwyr) ar 100%.
- 😐 Er i ni golli dau allan o 10 Warden Diogelwch Cymunedol ar ddiwedd 2011/12, roeddem yn cyflogi naw ar ddiwedd 2012/13 a disgwylir i un arall ymuno â ni ar ddechrau 2013/14.
- ☹ Ar ddiwedd 2012/13, gostyngodd lefelau boddhad defnyddwyr o ran gwasanaethau a ddarparwyd yr ystyriwyd eu bod yn eithaf bodlon neu'n fodlon iawn (ar gyfer Safonau Masnach) ychydig i 96% (o gymharu â 98% ar ddiwedd 11/12).

  Fodd bynnag, ☺ gwellodd boddhad Masnachwyr a Busnesau (ar gyfer Safonau Masnach) yr ystyriwyd eu bod yn eithaf bodlon neu'n fodlon iawn i 100% o 98%.

# Y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol

## Datganiad Perfformiad Cyffredinol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2012/13

**Dave Street**

**Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol**



Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd, llwyddodd y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol i fantoli'r gyllideb. Ar gyfer 2012-2013 gwnaed hyn drwy reoli'r gyllideb yn gadarn a gweithredu amrywiaeth o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd yn llwyddiannus, nad ydynt wedi amharu ar wasanaethau rheng flaen. Mae newidiadau demograffig a'r galw cynyddol am wasanaethau sy'n gysylltiedig â hwy bellach yn rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau a bydd angen rheoli goblygiadau ariannol hyn yn ofalus yn y blynyddoedd i ddod, drwy roi agenda drawsnewid sylweddol ar waith.

Ym mis Rhagfyr 2012, roedd y Gyfadran yn destun arolygiad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar rôl a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a pha mor dda oedd y trefniadau ym mhob awdurdod lleol o ran helpu'r Cyfarwyddwr i wneud ei waith. Yn gyffredinol roedd adroddiad yr Arolygiad yn gadarnhaol iawn ac roedd y Cyngor a'r Gyfadran yn fodlon ar ei ganfyddiadau.

Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol craidd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Prif nod y Bil yw trawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru, yn bennaf drwy hyrwyddo annibyniaeth unigolion a rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt. At hynny, bydd y Bil yn ceisio atgyfnerthu trefniadau cydweithredu rhwng sefydliadau a darparu fframwaith ar gyfer integreiddio gwasanaethau allweddol. Gobeithio y bydd y Bil yn helpu'r Gyfadran hon i ymateb i'r heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol drwy ddarparu'r fframwaith er mwyn ein galluogi i ddechrau ar y broses o newid.

Roedd cyflawni rhaglen integreiddio Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili a Blaenau Gwent yn flaenoriaeth allweddol i'r Gyfadran yn 2012-13. Yn anffodus yn 2013, wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, daeth yn amlwg bod sefyllfa ariannol gyffredinol y ddau awdurdod lleol wedi newid ers dechrau'r rhaglen. Roedd y penderfyniad i derfynu'r rhaglen ar ei ffurf bresennol yn un anodd i'w wneud ar gyfer y ddau awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd angen ei wneud er mwyn diogelu lefelau gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Er na fydd y gwaith gyda'n cydweithwyr ym Mlaenau Gwent yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd, rydym yn sylweddoli y bydd angen trawsnewid gwasanaethau er mwyn ateb galw a disgwyliadau cynyddol, a lle y ceir achos busnes cadarn sy'n nodi y bydd trefniant cydweithredu yn fuddiol fe'i hystyrir.

Bydd y blynyddoedd i ddod yn hanfodol bwysig i'r sector gofal cymdeithasol ac ni fyddwn yn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen heb ymrwymiad parhaus pawb. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob aelod o staff, pob gofalydd a phob aelod etholedig am ei ymroddiad a'i benderfyniad dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ymdrechu i wella ein gwasanaethau. Bu eich cymorth yn amhrisiadwy.

**Gwybodaeth a gwaith dadansoddi ariannol sy'n ymwneud â'r Gyfadran ar gyfer 2012/13**

Mae'r Gyfadran yn parhau i fantoli ei chyllideb yn gyson ac mae wedi gwneud arbedion ac arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn rheoli pwysau costau sy'n deillio o newidiadau demograffig a'r galw cynyddol am wasanaethau. Sicrhawyd yr arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd hyn heb amharu ar y modd y darperir gwasanaethau rheng flaen a gwnaed hyn drwy amrywiaeth o gamau gweithredu gan gynnwys adolygu ac ailstrwythuro gofynion staffio, ailgyflunio gwasanaethau, ad-drefnu swyddfeydd a lleihau costau cefn swyddfa. At hynny, mae'r Gyfadran wedi cymryd rhan mewn nifer o fentrau osgoi costau ac, o ganlyniad, mae adnoddau bellach yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol.

Dros y tair i bum mlynedd nesaf bydd y dirwedd ariannol yn parhau i fod yn un anodd. Er bod yr Is-adran wedi llwyddo i reoli ei chyllid yn dda yn ystod 2012-13, mae'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Is-adran yn y dyfodol yn rhai gwirioneddol a sylweddol. Yn ogystal â phwysau cynyddol sy'n deillio o'r galw ychwanegol am wasanaethau, bydd yr adolygiadau o gleientiaid Gofal Iechyd Parhaus gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn golygu y bydd cyfran o'r cleientiaid hyn sy'n dychwelyd i ofal cymdeithasol ar gyfer arian yn rhoi pwysau ar adnoddau sydd eisoes yn brin. Bydd pob un o'r ffactorau a nodwyd uchod yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a bydd yn golygu y bydd angen newid y ffordd rydym wedi darparu gwasanaethau yn draddodiadol er mwyn ein galluogi i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Y sefyllfa alldro ar gyfer y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2012/13 oedd tanwariant o £170k. Fodd bynnag, cofnododd yr Uned Gludiant Integredig orwariant o £149k o ran darparu cludiant gofal cymdeithasol sy'n rhoi tanwariant net o £21k. Mae hyn yn cyfateb i lai na 0.03% o gyllidebau cyfunol cludiant Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol. O fewn y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol, gorwariodd yr Is-adran Gwasanaethau Oedolion £21k neu o.04% o'i chyllideb, tanwariodd y Swyddogaeth Cymorth i Fusnesau £11k neu 0.4% o'i chyllideb a thanwariodd Gwasanaethau Plant £180k neu 0.9% o'i chyllideb. Roedd llawer o danwariant Gwasanaethau Plant wedi'i gynllunio'n gynnar mewn ymateb i'r gorwariant disgwyliedig ar gludiant gofal cymdeithasol.

Mae'n annhebygol y bydd awdurdodau lleol yn gallu helpu gwasanaethau i dyfu er mwyn ateb y galw cynyddol oni allant drawsnewid y ffordd y maent yn gweithio. Mae gofal cymdeithasol wedi'i ddiogelu i ryw raddau rhag toriadau yn setliad arian refeniw blynyddol Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond disgwylir i hyn ddod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2013-14. Yn ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili, o'i wirfodd, wedi ymestyn y diogelwch hwn hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2015-16 ac mae £1.2m o arian ychwanegol hefyd wedi'i ddyrannu i Wasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14 er mwyn lliniaru effaith ariannol y galw cynyddol am wasanaethau.

Fodd bynnag, mae cynnydd pellach disgwyliedig yn y galw am wasanaethau yn awgrymu y bydd angen sicrhau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2014-15 a 2015-16. Bydd y Gyfadran yn datblygu amrywiaeth o gynigion i'w hystyried gan Aelodau Etholedig dros y misoedd i ddod.

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru werthusiad o gyfraniad Gwasanaethau Cymdeithasol at gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor a daeth i'r casgliad, er bod gwasanaethau cymdeithasol yn ymdopi o fewn y gyllideb gyffredinol, gwelwyd nad oes gan y Cyngor ddull cadarn o ddatblygu achosion busnes a phennu, darparu, monitro a gwerthuso arbedion er mwyn ymateb i'r galw a heriau'r dyfodol". (Adroddiad gan SAC a gyhoeddwyd yn 2013). I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r adran "Adolygu ein gwasanaethau" yn yr adroddiad hwn.

## Amcan Gwella ar gyfer 2012/13 - Gwella amseroldeb ac ansawdd asesiadau o anghenion cleientiaid.

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2012/13:**

- Bydd y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn cael ymateb mwy amserol a phriodol.
- Caiff mwy o asesiadau eu cwblhau o fewn ein terfyn amser targed.
- Gwella ansawdd asesiadau a gwblheir gan ein Gweithwyr Cymdeithasol.
- Byddwn yn lleihau faint o amser y bydd yn rhaid i chi aros rhwng cael asesiad a derbyn y gwasanaethau y cytunwyd arnynt.
- Bydd y safonau gofal a ddarparwn yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth.
- Byddwn yn creu cysylltiadau clir â'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd o ganlyniad i'r wybodaeth am gwynion.

☺ Aseswyd yr Amcan Gwella hwn a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn **Llwyddiannus** ar gyfer 2012/13; am fod yr holl gamau gweithredu y gwnaethom gytuno arnynt a mynd ati i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn wedi'u cyflawni ac, yn bwysicach na hynny, gallwn hefyd nodi bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud yn ystod y 12 mis diwethaf - rhestrir y manylion isod.

**Yr hyn a wnaethom yn dda a'r gwahaniaeth a wnaeth**

Mae'r broses archwilio ffeiliau achosion chwarterol, gwaith monitro parhaus a'r adroddiad ar y canfyddiadau yn parhau i wella ansawdd a safon asesiadau. Rydym yn parhau i hyrwyddo Cymorth Hunangyfeiriedig (lle mae defnyddwyr gwasanaethau yn rheoli eu cyllideb ofal eu hunain a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i wella eu bywydau) i holl ddefnyddwyr ein gwasanaethau, ynghyd ag adolygiad diweddar o bolisïau a gweithdrefnau, o ganlyniad rydym bellach wedi cyflwyno cyfradd fesul awr safonol sy'n ei gwneud yn haws i ddefnyddiwr y gwasanaeth reoli ei gyllideb.

Allan o naw dangosydd perfformiad misol ar ddiwedd mis Mawrth 2012, mae chwech yn perfformio'n dda ac maent eisoes yn cyflawni'r targed a bennwyd gennym. Mae dau ddangosydd ychydig islaw'r targed a bennwyd. Un o'r targedau hynny yw nifer y bobl sy'n aros mwy na 28 diwrnod am ofal dydd. Ar ddiwedd mis Mawrth dim ond tri unigolyn a oedd yn aros mwy na 28 diwrnod am ofal dydd, sy'n dda am mai ein targed o ran nifer y bobl sy'n aros mwy na 28 diwrnod am ofal dydd oedd 0. Y rheswm dros hyn yw bod angen diwrnod ychwanegol ar ddau ddefnyddiwr gwasanaethau a bod un defnyddiwr gwasanaethau yn aros am le yng nghanolfan ddydd Caerffili.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, rydym wedi lleihau nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n aros am asesiad, o 127 o ddefnyddwyr gwasanaethau yn 2011-12, i 60 o ddefnyddwyr gwasanaethau yn 2012-13, am ein bod wedi recriwtio staff asiantaeth ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o asesiadau. Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud dros y flwyddyn mae angen i ni barhau i fonitro hyn wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu.

**Yr hyn na wnaethom yn 2012/13.**

Mae un dangosydd gryn dipyn yn is na'r targed, sef canran yr asesiadau a ddechreuwyd ar amser. Allan o 7307 o asesiadau, dechreuwyd 5323 ar amser (72.80%). Ceir meysydd sy'n achosi pryder o fewn y timau canlynol; y tîm Iechyd Meddwl Pobl Hŷn, tîm y Therapyddion galwedigaethol, y tîm Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau a'r tîm camddefnyddio sylweddau. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod y Mesur Iechyd Meddwl wedi'i gyflwyno ym mis Mehefin 2012 ac mae wedi cael effaith fawr ar y gwasanaeth oherwydd y diffyg eglurder ynghylch rôl y cydgysylltydd gofal o fewn y sector Iechyd, y broses o roi'r mesur ar waith a'r newid mewn arferion a dogfennaeth.

**Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well**

Yn ogystal â monitro amseroldeb ein hasesiadau rydym hefyd yn monitro eu hansawdd drwy archwiliadau chwarterol. Mae'r broses hon yn ein helpu i ddeall pa mor dda rydym yn ei wneud o ran diwallu anghenion unigolion. Dengys canlyniadau ein harchwiliad diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2012 fod tystiolaeth glir bod defnyddwyr gwasanaethau yn cymryd rhan y broses asesu a bod eu dymuniadau, eu barn a'r canlyniadau y maent am eu cyflawni yn cael eu trafod a'u cofnodi. Fodd bynnag, cafwyd ambell achos lle roedd gorddibyniaeth ar y teulu a pherthnasau am wybodaeth.

Un maes penodol lle mae angen i ni wneud yn well yw nodi gofalyddion. Dengys ein harchwiliadau nad yw unigolion, yr ymddangosai eu bod yn cyflawni tasgau gofalu yn aml, yn cael eu nodi fel gofalydd. Mae angen gwneud gwelliannau yn y maes hwn er mwyn sicrhau y cynigir asesiad i ofalyddion yn eu rhinwedd eu hunain. Bydd ansawdd ein hasesiadau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni yn 2013-2014.

## Amcan Gwella - Mae asiantaethau a phartneriaid yn cydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc.

**Yr hyn y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2012/13:**

Gan ddefnyddio Tîm o amgylch y Teulu byddwn yn cefnogi teuluoedd ag anghenion sy'n datblygu er mwyn atal yr anghenion hynny rhag cyrraedd sefyllfa lle mae angen ymyriad statudol.

☺ Aseswyd yr Amcan Gwella hwn a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn **Llwyddiannus** ar gyfer 2012/13 am fod ein gwerthusiadau wedi dangos bod defnyddwyr y gwasanaeth yn credu ei fod yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

**Yn hyn a wnaethom a'r gwahaniaeth a wnaethom**

Mae'r Tîm o amgylch y Teulu wedi gwneud cynnydd cyson dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyflawni sawl canlyniad cadarnhaol ar gyfer teuluoedd yn y fwrdeistref sirol ac mae wedi bod yn llwyddiannus yn gyffredinol. Yn gyffredinol, roedd 91% o rieni/gofalyddion sy'n cymryd rhan ym mhroses y Tîm o amgylch y Teulu o'r farn bod pobl yn gwrando arnynt yn ystod y broses ac mae 81% o'r farn bod y Tîm o amgylch y Teulu wedi gwneud gwahaniaeth iddynt yn 2012/13.

Mae'r Tîm o amgylch y Teulu wedi datblygu dros y flwyddyn ac mae'n gweithio'n dda i gynnwys y teuluoedd a gaiff eu hatgyfeirio at y gwasanaeth ac mae wedi creu cydberthnasau gwaith da â'r gweithwyr proffesiynol sy'n rhoi cymorth i deuluoedd.

Mae atgyfeiriadau at y Tîm o Amgylch y Teulu bellach yn cael eu prosesu drwy'r tîm Cyswllt ac Atgyfeirio, sy'n gweithredu fel y 'drws ffrynt' unigol ar gyfer atgyfeiriadau at y Tîm o amgylch y Teulu. Golyga hyn fod y Tîm o amgylch y Teulu bellach yn cael atgyfeiriadau mwy priodol ac, felly, mae'r gyfradd atgyfeirio wedi gostwng.

Mae paneli amlasiantaeth yn mynd yn dda, gyda gweithwyr proffesiynol arweiniol yn cael eu nodi a thrafodaethau defnyddiol yn cael eu cynnal ynghylch achosion unigol a'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael i deuluoedd.

Yn 2012/13 cwblheir asesiadau gan swyddogion y Tîm o amgylch y Teulu yn hytrach na gweithiwr proffesiynol arweiniol, sy'n golygu bod y broses bellach yn gyflymach. Unwaith y bydd asesiadau wedi'u cwblhau nid oes angen pennu Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol bob amser. Nid yw pob teulu yn gofyn am ddull cydgysylltiedig a arweinir gan weithiwr proffesiynol ac mae dull asiantaeth unigol yn fwy buddiol.

**Yr hyn na wnaethom**

Mae 21 allan o'r 23 o gamau gweithredu wedi'u cyflawni a'u gweithredu. Gan ein bod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r broses o integreiddio â Blaenau Gwent, mae cyfleoedd i gydweithio yn dal i fod yn destun adolygiad ac mae'r cam gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion o'r adolygiad Diogelu: y Bwrdd Rheoli gyda gwasanaethau Plant ac Addysg wedi'u sefydlu ac ar waith, heb ei gwblhau eto. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu ac ISCAN yn cydweithio'n agos, ac mae rheolwr ISCAN yn aelod o banel y Tîm o amgylch y Teulu. Fodd bynnag, nid yw opsiynau ar gyfer integreiddio'r modelau wedi'u hystyried eto.

**Yr hyn y gallem ei wneud yn well**

Mae angen i ni barhau i wella cyfradd ymateb rhanddeiliaid o ran adborth; mae hyn yn cynnwys adborth gan deuluoedd, gweithwyr proffesiynol arweiniol ac atgyfeirwyr, er mwyn i ni allu gwerthuso'r gwasanaeth a ddarperir yn effeithiol. Rydym wedi adolygu ein dulliau presennol a byddwn yn newid y ffordd rydym yn cael adborth yn 2013/14.

Unwaith y bydd y Tîm o amgylch y Teulu wedi derbyn atgyfeiriad mae'r swyddog o'r Tîm o amgylch y Teulu yn ceisio cyfarfod â'r teulu a atgyfeiriwyd o fewn wythnos, sy'n golygu bod yr ymateb cychwynnol yn un amserol. Fodd bynnag, unwaith y bydd gweithiwr proffesiynol arweiniol wedi'i nodi ceir oedi weithiau cyn y bydd teulu yn cael cymorth am fod rhestrau aros am rai gwasanaethau, a all beri rhwystredigaeth i deuluoedd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i throsglwyddo i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a fydd yn ei defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

## Dadansoddiad o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ar gyfer y Gyfadran ar gyfer 2012/13

## Gwasanaethau Cymdeithasol

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **SCA 001** | Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau yn ymwneud â gofal cymdeithasol, fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | 8.02 diwrnod | 20fed allan o 22 | | 8 diwrnod | 9.32 diwrnod | 20fed allan o 22 | 4.57 diwrnod |
| ☹ | Yn 2012-13 cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal oedd 9.32, sy'n uwch o'i chymharu â ffigur y llynedd, sef 8.02. Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith bod gan ddarparwyr gofal hirdymor a darparwyr gofal yn y cartref annibynnol lai o gapasiti. Rydym yn waeth na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 4.75. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, ystyriwyd bod ein safle perfformiad yng Nghymru yn y chwartel isaf. * Mae'r dangosydd hwn yn ddangosydd ôl-boblogedig a daw'r wybodaeth o gronfa ddata HOWIS (Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru) ac amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth gan y SYG. Mae'r ffigurau ar gyfer 2012-13 wedi'u hamodi gan SAC ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru am iddi ganfod fod data ôl-boblogedig trydydd parti yn annibynadwy. | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **SCA 002a** | Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu hŷn) a gefnogir yn y gymuned, fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 143.96 | 1af allan o 22 | | 142 | 151.67 | 1af allan o 22 | 77.53 |
| ☺ | Yn 2012-13 gwnaethom helpu 349 yn fwy o oedolion 65 oed neu hŷn i fyw yn y gymuned, gan gynnal ein safle perfformiad yng Nghymru yn y chwartel uchaf am y tair blynedd diwethaf. Rydym hefyd wedi cynnal ein safle 1af yng Nghymru. | | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **SCA 002b** | Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal, fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | 20.21 | 9fed allan o 22 | 23.5 | 19.41 | 7fed allan o 22 | 20.63 |
| ☺ | Yn 2012-13 gwnaethom gefnogi llai o bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Y gyfradd oedd 19.41 o gymharu ag 20.21 yn y flwyddyn flaenorol. Fel awdurdod rydym yn ceisio helpu mwy o bobl i ddychwelyd i fyw yn y gymuned a, lle y bo'n bosibl, leihau'r galw am leoedd mewn cartrefi gofal. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog ac islaw cyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **SCA 019** | Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi'i rheoli **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 90.12% | 11eg allan o 22 | 90% | 89.30% | 18fed allan o 22 | 91.84% |
| ☹ | Yn 2012-13 cwblhawyd 89.30% (292 allan o 327) o'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle mae'r risg wedi'i rheoli. Gwrthododd y dioddefwyr honedig gymryd rhan mewn unrhyw gamau lliniaru yn y 35 o achosion sy'n weddill, sydd wedi arwain at ostyngiad bach yn ein perfformiad o gymharu â ffigur y llynedd, sef 90.12%. Ar gyfer 2011/12 roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog, ond ar gyfer 2011/12, gwnaethom ostwng i'r chwartel isaf, islaw cyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **SCA 007** | Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31ain Mawrth, y dylid bod wedi adolygu eu cynlluniau gofal yn ystod y flwyddyn **(MAC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 97.2% | 1af allan o 22 | 97% | 93.4% | 3ydd allan o 22 | 80.9% |
| ☹ | Yn 2012-13 adolygwyd 93.4% o gynlluniau gofal ein cleientiaid, sydd ychydig yn is na ffigur y llynedd, sef 97.2%. Mae hyn i'r briodoli i'r ffaith bod gan ddarparwyr gofal hirdymor lai o gapasiti. Ar nodyn cadarnhaol er bod ein safle wedi gostwng o gymharu â 2011/12, yn 2012/13 mae ein safle perfformiad yn dal i fod yn y chwartel uchaf ac uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **SCA 018a** | Canran y gofalyddion oedolion y cynigiwyd asesiad neu adolygiad o'u hanghenion iddynt yn eu rhinwedd eu hunain yn ystod y flwyddyn **(MAC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 89.1% | 10$^{fed}$ allan o 22 | 88% | 90.0% | 13$^{eg}$ allan o 22 | 86.8% |
| ☺ | Yn 2012-13 cynigiwyd asesiad o'u hanghenion i fwy o ofalyddion oedolion. Cynyddodd y ganran i 90% o gymharu ag 89.1% yn y flwyddyn flaenorol. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog ac islaw cyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | |
| **SCA 020** | Canran y cleientiaid sy'n oedolion a gefnogir yn y gymuned yn ystod y flwyddyn **(MAC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 91.55% | 2$^{il}$ allan o 22 | 90% | 91.87% | 1$^{af}$ allan o 22 | 86.16% |
| ☺ | Yn 2012-13 gwnaethom gefnogi mwy o bobl hŷn yn y gymuned. Cynyddodd y ganran i 91.87%, o gymharu â 91.55% yn y flwyddyn flaenorol. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, mae ein safle perfformiad yng Nghymru yn dal i fod yn y chwartel uchaf a chryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | |
| **SCC 002** | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod y cyfnod, neu gyfnodau, o dderbyn gofal, am resymau ar wahân i drefniadau trosglwyddo, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | 8.6% | 7$^{fed}$ allan o 22 | 8.5% | 6.0% | 1$^{af}$ allan o 22 | 13.7% |
| ☺ | Yn 2012-13 gwellodd ein perfformiad gan godi i 6% o gymharu ag 8.6% yn y flwyddyn flaenorol. Rydym wedi gwella ein safle yng Nghymru hefyd, gan godi o'r 7$^{fed}$ safle a'r ystod ganolog yn 2011-12 i'r safle 1$^{af}$ yng Nghymru a'r chwartel uchaf ar gyfer 2012-13. | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ein Canlyniad** | **Safle yng Nghymru** | **Targed** | **Ein Canlyniad** | **Safle yng Nghymru** | **Cyfartaledd Cymru Gyfan** |
| **SCC 004** | Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad is yn well** | 8.8% | $10^{fed}$ allan o 22 | 9% | 6.9% | $5^{ed}$ allan o 22 | 9.4% |
| ☺ | Yn 2012-13 gwellodd ein perfformiad gan godi i 6.9% o gymharu ag 8.8% yn y flwyddyn flaenorol. Rydym wedi gwella ein safle yng Nghymru hefyd, gan godi o'r $10^{fed}$ safle a'r ystod ganolog yn 2011-12 i'r $5^{ed}$ safle yng Nghymru a'r chwartel uchaf ar gyfer 2012-13. | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **SCC 011b** | Canran yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle ceir tystiolaeth bod y plentyn wedi'i weld ar ei ben ei hun gan y Gweithiwr Cymdeithasol. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 31.7% | $13^{eg}$ allan o 22 | 40% | 36.9% | $13^{eg}$ allan o 22 | 37.5% |
| ☺ | Yn 2012-13 rydym wedi cynyddu canran yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd lle mae'r plentyn wedi'i weld ar ei ben ei hun gan y gweithiwr cymdeithasol i 36.9% o gymharu â 31.7% yn y flwyddyn flaenorol. Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, ystyriwyd bod ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog ac ychydig islaw cyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **SCC 033d** | Canran y bobl ifanc 19 oed a oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | Dd/G | Dd/G | 97% | 100% | $1^{af}$ allan o 22 | 93.4% |
| | Ar gyfer 2012/13, roedd ein perfformiad yng Nghymru yn y safle $1^{af}$ - uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan ac, felly, ar frig y chwartel uchaf.<br>Nid oes unrhyw wybodaeth gymharol uniongyrchol ar gael ar gyfer 2011/12, am i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gasglu data newid ar gyfer 2012/13 | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **SCC 033e** | Canran y bobl ifanc 19 oed a oedd yn arfer derbyn gofal, y mae'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn llety addas nad yw'n llety argyfwng. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | Dd/G | Dd/G | | 94% | 95.8% | 11$^{eg}$ allan o 22 | 93.2% |
| | Ar gyfer 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn yr ystod ganolog ac uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan. Nid oes unrhyw wybodaeth gymharol uniongyrchol ar gael ar gyfer 2011/12, am i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gasglu data newid ar gyfer 2012/13 | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **SCC 033f** | Canran y bobl ifanc 19 oed a oedd yn arfer derbyn gofal, y mae'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â hwy, y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | Dd/G | Dd/G | | 60% | 75% | 5$^{ed}$ allan o 22 | 56.4% |
| | Ar gyfer 2012/13, roedd ein safle perfformiad yng Nghymru yn y chwartel uchaf a chryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Nid oes unrhyw wybodaeth gymharol uniongyrchol ar gael ar gyfer 2011/12, am i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gasglu data newid ar gyfer 2012/13 | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **SCC 037** | Sgôr pwyntiau gyfartalog cymwysterau allanol ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal, mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan awdurdod lleol. **(DSC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 183 | 15$^{fed}$ allan o 22 | | 180 | 157 | 20$^{fed}$ allan o 22 | 221 |
| ☹ | Yn 2012-13 ein perfformiad oedd 157, o gymharu ag 183 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y garfan wedi cael mwy o bwyntiau na'r llynedd, ond am fod pum plentyn ychwanegol yn derbyn gofal mae hyn wedi effeithio ar y cyfartaledd cyffredinol. Yn 2011/12, roeddem yn y 15$^{fed}$ safle yng Nghymru, (yr ystod ganolog) ond rydym bellach wedi gostwng i'r 20$^{fed}$ safle (y chwartel isaf) yn 2012-13 ac rydym gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 Ein Canlyniad | 2011/12 Safle yng Nghymru | 2012/13 Targed | 2012/13 Ein Canlyniad | 2012/13 Safle yng Nghymru | 2012/13 Cyfartaledd Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SCC 041a** | Canran y plant cymwys, y plant perthnasol a'r plant a arferai fod yn berthnasol sydd â chynlluniau llwybr. **(DSC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 98.2% | 7fed allan o 22 | 99% | 99.3% | 11eg allan o 22 | 89.5% |
| ☺ | Yn 2012-13 gwellodd ein perfformiad gan godi i 99.3% o gymharu â 98.2% yn y flwyddyn flaenorol. Rhwng 2011/12 a 2012/13, rydym yn dal i fod yn yr ystod ganolog, er i ni ostwng i'r o'r 7fed safle i'r 11eg safle. Rydym yn dal i fod gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 89.5%. | | | | | | |
| **SCC 001a** | Canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal ar waith. **(MAC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 100% | 1af allan o 22 | 100% | 100% | 1af allan o 22 | 89.1% |
| 😐 | Ar gyfer 2011/12 a 2012/13, rydym yn dal i fod yn y safle 1af yng Nghymru (y chwartel uchaf) a chryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 89.1%. | | | | | | |
| **SCC 011a** | Canran yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn lle ceir tystiolaeth bod y plentyn wedi'i weld gan y Gweithiwr Cymdeithasol. **(MAC)**<br>**Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 63.2% | 17eg allan o 22 | 60% | 67.5% | 20fed allan o 22 | 75.4% |
| ☺ | Rydym wedi gwella ein lefelau perfformiad o 63.2% i 67.5% yn 2012/13. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod yn y chwartel isaf yng Nghymru am ddwy flynedd yn olynol a chryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | | | | | | |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| **SCC 025** | Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau. **(PAM)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 83.5% | $15^{fed}$ allan o 22 | | 85% | 74.0% | $17^{eg}$ allan o 22 | 83% |
| ☹ | Yn 2012-13 canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd 74%, sydd wedi gostwng o gymharu â 83.5% yn y flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i'r broses o gofnodi'r wybodaeth ac argaeledd y wybodaeth gofnodedig hon pan gafodd ei choladu. Rydym wedi codi o'r $15^{fed}$ safle yng Nghymru (yr ystod ganolog) yn 2011-12 i'r $17^{eg}$ safle ac rydym bellach yn y chwartel isaf yn 2012-13. | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **SCC 030a** | Canran y gofalyddion ifanc sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a aseswyd yn ystod y flwyddyn. **(MAC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 100% | $1^{af}$ allan o 22 | | 95% | 96.9% | $14^{eg}$ allan o 22 | 92.3% |
| ☹ | Yn 2012-13 canran y gofalyddion ifanc sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a aseswyd oedd 96.9%, sydd wedi gostwng o gymharu â 100% yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn i'w briodoli i'r ffaith nad yw dau blentyn yn cymryd rhan yn y broses, sy'n golygu nad ydynt wedi'u hasesu. Rydym wedi disgyn o'r safle $1^{af}$ yng Nghymru (y chwartel uchaf) yn 2011-12 i'r $14^{eg}$ safle yng Nghymru (yr ystod ganolog) yn 2012-13. | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **SCC 045** | Canran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant mewn angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol. **(MAC)** **Cyfeiriad Gwella: Mae'r canlyniad uwch yn well** | 94.8% | $2^{il}$ allan o 22 | | 87% | 90.6% | $8^{fed}$ allan o 22 | 86.4% |

| Cyf | Disgrifiad | 2011/12 | | | 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | | Targed | Ein Canlyniad | Safle yng Nghymru | Cyfartaledd Cymru Gyfan |
| ☹ | Yn 2012-13 cynhaliwyd 90.6% o adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant mewn angen, o gymharu â 94.8% yn y flwyddyn flaenorol. Lleihaodd y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal a nifer y plant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn. Felly roedd angen cynnal llai o adolygiadau ar gyfer y garfan hon. Mae'r rhesymau dros oedi yn cynnwys y canlynol: tywydd gwael, argaeledd rhieni/gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc. Rydym wedi disgyn o'r 2il safle yng Nghymru (y chwartel uchaf) yn 2011-12 i'r 8fed safle yng Nghymru (yr ystod ganolog) yn 2012-13. | | | | | | | |

| Dengys ein dangosyddion perfformiad y canlynol: | | | |
|---|---|---|---|
| Canlyniadau'r flwyddyn bresennol o'u cymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol | (coch) | ☹ | Yn waeth na'r flwyddyn flaenorol |
| | (melyn) | 😐 | Yn cyfateb i'r flwyddyn flaenorol |
| | (gwyrdd) | ☺ | Yn well na'r flwyddyn flaenorol |
| | | **Dd/G** | Nid oes data ar gael neu ni ellir ei gymharu – gweler sylwadau unigol am esboniad. |

**Gwerthuso gwybodaeth arall am berfformiad a gasglwyd ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn 2012/13**

☺ Rydym wedi lleihau nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n aros am asesiad, o 127 o ddefnyddwyr gwasanaethau yn 2011-12, i 60 o ddefnyddwyr gwasanaethau yn 2012-13, am ein bod wedi recriwtio staff asiantaeth ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o asesiadau.

☺ Ar ddiwedd 2012-13 nid oedd unrhyw ddefnyddwyr gwasanaethau yn aros mwy na 14 diwrnod am ofal personol.

☹ Gostyngodd canran yr asesiadau a ddechreuwyd ar amser o 80.10% yn 2011-12 i 72.80% yn 2012-13. Allan o 7307 o asesiadau, dechreuwyd 5323 ar amser. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod y Mesur Iechyd Meddwl wedi'i gyflwyno ym mis Mehefin 2012 ac mae wedi cael effaith fawr ar y gwasanaeth oherwydd y diffyg eglurder ynghylch rôl y cydgysylltydd gofal o fewn y sector Iechyd, y broses o roi'r mesur ar waith a'r newid mewn arferion a dogfennaeth. Mae'r tîm Camddefnyddio Sylweddau yn un bach iawn ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu gyda dau o aelod sy'n absennol oherwydd salwch hirdymor.

☹ Mae nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol wedi cynyddu o bum achos o oedi yn 2011-12 i 19 achos o oedi yn 2012-13. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i'r ffaith bod gan ddarparwyr gofal hirdymor a darparwyr gofal yn y cartref annibynnol lai o gapasiti.

☺ Rydym wedi cynyddu canran yr atgyfeiriadau a roddwyd i weithiwr cymdeithasol ar gyfer asesiadau cychwynnol o 60% yn 2011-12 i 67.10% yn 2012-13.

☺ Rydym wedi cynyddu canran yr asesiadau craidd a gynhaliwyd o fewn 35 diwrnod gwaith o 90.70% yn 2011-12 i 92.10% yn 2012-13.

☹ Mae canran yr adolygiadau o gynlluniau plant mewn angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol wedi gostwng ychydig o 88.40% yn 2011-12 i 84.20% yn 2012-13. Y llynedd, roedd mwy o Blant mewn Angen yn y garfan ac, felly, roedd angen cynnal 400 yn fwy o adolygiadau.

☹ Mae canran y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yr adolygwyd eu hachosion wedi gostwng ychydig o 97.90% yn 2011-12 i 96% yn 2012-13. Y llynedd roedd llai o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant nag mewn blynyddoedd blaenorol. Felly, roedd llai o adolygiadau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn.

## Crynodeb o Berfformiad Caerffili yn 2012-2013
## Ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC)


Er mwyn i Lywodraeth Cymru fesur pa mor dda mae awdurdodau lleol yn perfformio defnyddiodd 44 o fesurau cenedlaethol ar gyfer 2012-13 a elwir yn Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol ac yn Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus. Mae'r 44 dangosydd hyn yn ymdrin â phrif feysydd polisi'r Llywodraeth, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd. Dengys y crynodeb canlynol sut y perfformiodd Caerffili yn erbyn y dangosyddion hyn, sut rydym yn cymharu â'r 21 o awdurdodau eraill yng Nghymru ac a wnaethom gyrraedd y safonau (cyflawni'r targedau) y gwnaethom bennu i ni ein hunain yn erbyn y dangosyddion hyn. Am fanylion llawn am yr holl Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus cofnodir data ym mhob un o adrannau'r cyfadranau yn yr adroddiad hwn ynghyd â dadansoddiad unigol ar dudalennau


Yn 2012-13 roedd 44 o Ddangosyddion cenedlaethol drwy'r setiau DCS a MAC. Gwellodd 24 o'r 44 o ddangosyddion o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol, roedd 10 yn waeth, cynhaliodd 2 eu perfformiad ar 100% ac ni ellir cymharu wyth â 2011/12, oherwydd y newidiadau a wnaeth Llywodraeth Cymru i'r ffordd y'u casglwyd.  O'r 24 o ddangosyddion a wellodd mae 14 rhwng yr 11eg safle a'r 20fed safle yng Nghymru ac mae 10 yn y deg safle uchaf. Mae'r ddau ddangosydd a gynhaliodd eu perfformiad ar 100% yn y safle 1af yng Nghymru. O'r 10 a berfformiodd yn waeth mae dau yn y 10 safle uchaf yng Nghymru.

O'r 13 dangosydd hynny na chyflawnodd ein targedau ar gyfer 2012-13: perfformiodd pump yn well o gymharu â 2011-12 ac mae dau yn y chwartel ganol ac uchaf yng Nghymru. Ceir achlysuron pan nad yw'n briodol pennu targedau ar gyfer rhai o'r dangosyddion.  Er enghraifft.  Tai Fforddiadwy:  Am esboniad llawn o'r rhesymau pam nad yw'n briodol pennu targedau, gweler yr adran yn yr adroddiad hwn sy'n ymdrin â'r Amgylchedd.

| | **Sut y gwnaethom berfformio o gymharu 2012/13 â 2011/12?** | | | | **Sut y gwnaethom berfformio o gymharu â Chymru?** | | | **Sut y gwnaethom berfformio o gymharu â'n Targedau?** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yn well | Yn waeth | Dim newid | Ni ellir ei gymharu | Chwartel Uchaf | Canol | Chwartel Isaf | Cyflawnwyd y Targed | Ni chyflawnwyd y Targed | Ni phennwyd unrhyw darged |
| Corfforaethol | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| Addysg | 8 | 2 | 1 | 1 | 2 | 3 | 7 | 9 | 3 | 0 |
| Yr Amgylchedd | 5 | 0 | 0 | 4 | 3 | 6 | 0 | 5 | 3 | 1 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 9 | 7 | 1 | 3 | 8 | 7 | 5 | 14 | 6 | 0 |
| **Cyfanswm** | **24** | **10** | **2** | **8** | **13** | **18** | **13** | **30** | **13** | **1** |
| *Ffynhonnell: 'Uned Ddata Cymru'* | | | | | | | | *Ffynhonnell: Mewnol* | | |

## Perfformiad Caerffili yn 2012-13 o gymharu â Chymru mewn Chwartelau (DSC a MAC)



## Perfformiad Caerffili yn 2012-13 o gymharu â Chymru mewn Chwartelau (DSC a MAC)


### Mesur Ystadegau Perfformiad (cymharu safleoedd cyflawniad)

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi data perfformiad ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn cyflwyno adroddiadau arno, mae'n aml yn eu cymharu â'i gilydd ac yn nodi pwy sydd yn y chwarter uchaf (y chwartel uchaf), y chwarter isaf (y chwartel isaf) a'r rhai sydd yng nghanol yr ystod (y canolrif neu'r canol) o ran yr holl ganlyniadau a gofnodwyd. Mae hyn yn rhoi syniad o'r '25% sy'n perfformio orau', y '25% sy'n perfformio waethaf' a'r rhai sydd yng nghanol yr ystod (perfformwyr canolig).

Er enghraifft, os mai dim ond am 20 allan o'r 22 o awdurdodau lleol y cofnodir data perfformiad, gallai fod pump sy'n perfformio'n dda (y chwartel uchaf), 10 perfformiwr canolig (canolrif/canol) a phump sy'n perfformio'n wael (y chwartel isaf).




### Perfformiad Caerffili o'i gymharu â gweddill Cymru yn 2012/13




Mae 10 allan o'r 44 o ddangosyddion wedi gostwng i chwartel is, mae 22 yn dal i fod yn yr un chwartel ag yr oeddent ynddo yn 2011/12 ac mae pedwar wedi codi i chwartel uwch. Ni ellir cymharu wyth â'r flwyddyn flaenorol.

O'r 31 o ddangosyddion yn y chwartel canol a'r chwartel uchaf mae 12 o'r dangosyddion hyn yn gysylltiedig ag addysg. Mae pob un o'r naw mesur sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd yn y chwartel uchaf neu'r chwartel canol. Mae 15 o'r 20 o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol yn y chwartel canol neu'r chwartel uchaf ac mae dau allan o dri dangosydd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau Corfforaethol yn y chwartel uchaf yng Nghymru.

Mae 17 o'r dangosyddion hynny a wellodd yn y chwartel canol a'r chwartel uchaf yng Nghymru ac mae pedwar allan o'r 10 dangosydd a waethygodd yn dal i fod yn y chwartel canol a'r chwartel uchaf. O'r wyth na ellir eu cymharu a'r ddau a gynhaliodd eu perfformiad ar 100% mae naw yn y chwartel canol a'r chwartel uchaf.

# Cytundeb Canlyniadau 2010-2013

Mae gan y Cyngor gytundeb tair blynedd â Llywodraeth Cymru a ddechreuodd yn 2010. Cytunwyd y byddem yn gwella'r 10 maes allweddol a restrir isod fel y'u dewiswyd o restr o flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Rhoddir manylion cryno'r cytundebau a'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn y flwyddyn olaf (2012/13) isod:

| **Canlyniad Cyffredinol** (FEL Y'I PENNWYD GAN LYWODRAETH CYMRU) | **Y Canlyniad Gwirioneddol y Cytunwyd Arno** (Ein cyfraniad at y canlyniad cyffredinol) | **Prif brosiectau** (Yr hyn y byddwn yn ei wneud, yn benodol) | **Hunanasesu Gwasanaethau ar gyfer 2012/13** (Sut y gwnaethom berfformio, yn ein barn ni) |
|---|---|---|---|
| Lleihau Annhegwch ym maes Iechyd | ① Gwella argaeledd, hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes a darparu rhai newydd er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch o ran darpariaeth iechyd meddwl. | • Ymdrin â phroblemau iechyd meddwl yn gynnar drwy ddatblygu tîm gofal iechyd meddwl sylfaenol newydd<br>• Rhannu adnoddau â phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau<br>• Sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu cynrychioli'n well o ran eu gofal eu hunain, gwybodaeth well am sut i gael gafael ar wasanaethau | **Llwyddiannus**<br>Cwblhawyd pob cam gweithredu ac roedd pedwar o'r chwe dangosydd perfformiad uwchlaw'r targed ar gyfer y flwyddyn. Mae tystiolaeth bod ein gwaith wedi cael effaith ym maes Iechyd Meddwl a chynyddodd nifer yr unigolion mewn gwaith a chyfleoedd cyflogaeth. |

| **Canlyniad Cyffredinol** (FEL Y'I PENNWYD GAN LYWODRAETH CYMRU) | **Y Canlyniad Gwirioneddol y Cytunwyd Arno** (Ein cyfraniad at y canlyniad cyffredinol) | **Prif brosiectau** (Yr hyn y byddwn yn ei wneud, yn benodol) | **Hunanasesu Gwasanaethau ar gyfer 2012/13** (Sut y gwnaethom berfformio, yn ein barn ni) |
|---|---|---|---|
| Diogelir Pobl Rhag Niwed a Chamdriniaeth | ② Defnyddio dull ataliol o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed er mwyn gwella ansawdd yr ymateb i achosion o gam-drin a atgyfeiriwyd drwy gydgysylltu'r broses Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA) | • Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth<br>• Rheoli arian ar gyfer oedolion sy'n agored i amddiffyn<br>• Lleihau risgiau drwy wella safonau ymarfer a sicrhau mwy o gyfranogiad gan ddefnyddwyr gwasanaethau | **Rhannol Lwyddiannus**<br>Cwblhawyd pob cam gweithredu. Fodd bynnag, o'r naw mesur a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth, roedd chwech ychydig islaw'r targed. O'r chwe mesur hynny, perfformiodd pedwar yn waeth na'r llynedd ac er y rhoddir rhai rhesymau credwn y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y perfformiad hwn yn rhannol lwyddiannus. |
| Gwella Cyfleoedd Cyflogaeth Lleol | ③ Helpu i gynnal a, lle y bo'n bosibl, gynyddu cyfleoedd cyflogaeth drwy weithio mewn partneriaeth â rhaglenni sy'n rhoi'r sgiliau, yr addysg a'r rhwydweithiau cymorth i oedolion a phobl ifanc i'w helpu i gael swyddi ac aros ynddynt. | • Lleihau dyblygu â'r rhai sy'n darparu cynlluniau diweithdra<br>• Nodi bylchau mewn cynlluniau a'u llenwi<br>• Defnyddio ymgyrchoedd recriwtio a hyfforddiant a dargedwyd o ran contractau cyfalaf mawr<br>• Hyrwyddo gwirfoddoli er mwyn gwella cyfleoedd cyflogaeth<br>• Datblygu atebion cymunedol wedi'u teilwra i ddatrys problem diweithdra | **Llwyddiannus**<br>Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu neu disgwylir iddynt gael eu cwblhau yr haf hwn. Dengys tystiolaeth fod ein gwaith a gweithgarwch ein partneriaid yn cael effaith gadarnhaol, megis cynyddu nifer y swyddi a grëwyd o ganlyniad i ymgyrchoedd recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu. |

| **Canlyniad Cyffredinol** (FEL Y'I PENNWYD GAN LYWODRAETH CYMRU) | **Y Canlyniad Gwirioneddol y Cytunwyd Arno** (Ein cyfraniad at y canlyniad cyffredinol) | **Prif brosiectau** (Yr hyn y byddwn yn ei wneud, yn benodol) | **Hunanasesu Gwasanaethau ar gyfer 2012/13** (Sut y gwnaethom berfformio, yn ein barn ni) |
|---|---|---|---|
| Pob Plentyn a Pherson Ifanc yng Nghymru yn Mwynhau'r Iechyd Gorau Posibl heb Gamdriniaeth, Erledigaeth na Cham-fanteisio | ④ Caiff anghenion plant a phobl ifanc sy'n datblygu eu diwallu cyn gynted â phosibl ac yn y ffordd fwyaf priodol a chyfannol. | • Cyflwyno rhaglen y Tîm o amgylch y Plentyn. Newidiodd hanner ffordd drwy 2011/12 i'r Tîm o amgylch y Teulu<br>• Camau gweithredu o'r cynllun Diogelu Plant ar hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill | **Llwyddiannus**<br>Mae pob cam gweithredu wedi'i gyflawni a'i weithredu'n llawn. Mae'r Tîm o amgylch y Teulu wedi cyflawni nifer o ganlyniadau pwysig i deuluoedd yn y fwrdeistref sirol ac mae adborth gan rieni a gofalyddion yn gadarnhaol iawn ynghylch y rhaglen. |
| Cyrhaeddiad Addysgol yn Gwella | ⑤Atgyfnerthu ein ffocws ar ymyriadau cynnar, sgiliau sylfaenol, codi dyheadau ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach, ymgysylltu o'r newydd â grwpiau ac unigolion sydd wedi ymddieithrio oddi wrth y system addysg. | • Gwella'r broses drosglwyddo ar gyfer dysgwyr<br>• Mynd i'r afael â thanberfformiad bechgyn<br>• Nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) | **Llwyddiannus**<br>Mae pob cam gweithredu bellach wedi'i gwblhau ac mae chwech allan o wyth darn o dystiolaeth wedi gwella eleni. O'r ddau fesur nad ydynt wedi gwella cynyddodd canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, tra lleihaodd nifer y cofrestriadau i sefyll arholiadau Safon Uwch, er bod gennym dystiolaeth i ddangos bod hyn i'w briodoli i gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n ymgymryd â dysgu galwedigaethol. |

| **Canlyniad Cyffredinol** (FEL Y'I PENNWYD GAN LYWODRAETH CYMRU) | **Y Canlyniad Gwirioneddol y Cytunwyd Arno** (Ein cyfraniad at y canlyniad cyffredinol) | **Prif brosiectau** (Yr hyn y byddwn yn ei wneud, yn benodol) | **Hunanasesu Gwasanaethau ar gyfer 2012/13** (Sut y gwnaethom berfformio, yn ein barn ni) |
|---|---|---|---|
| Mae Llai o Droseddu ac Ymdrinnir â Materion Diogelwch Cymunedol sy'n Effeithio ar Gymunedau yn Effeithiol | ⑥ Gweithio gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ddatblygu'r 'Broses Pedair Ergyd' i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwasanaethau gwell i'r rhai sy'n dyst i ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn lleihau'r effaith ar y gymuned | • Datblygu'r broses pedair ergyd i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhellach<br>• Cynyddu nifer y gwasanaethau i ddioddefwyr<br>• Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir | **Llwyddiannus**<br>Arweiniodd gwaith mewn partneriaeth i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol at leihad pellach o 31% yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd gan yr Heddlu yn 12/13 o gymharu â 11/12. |
| Cyfrannu at y gwaith o liniaru newid yn yr hinsawdd | ⑦Rhoi sawl menter ar waith sy'n effeithio ar ein cymunedau, gan wella lefelau defnydd o ran ynni a dŵr, lleihau allyriadau carbon a chynyddu allbynnau ailgylchu yn y dyfodol er mwyn arbed ynni a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. | • Adeiladu'r cartrefi cod 5 (lefel uchaf o gynaliadwyedd ac ansawdd) cyntaf yn Abertridwr gyda Chymdeithas Tai Unedig Cymru<br>• Defnyddio hyrwyddwyr Ynni er mwyn dysgu deiliaid tai i ddefnyddio technoleg tai<br>• Adeiladu ysgolion newydd – ysgol Greenhill, ysgolion St James a Chwm Ifor | **Llwyddiannus**<br>Gwnaed cynnydd da o ran y rhan fwyaf o'r cytundeb hwn er bod rhywfaint o lithriant mewn perthynas â'r amserlen, sydd i'w briodoli'n rhannol i oedi a achoswyd gan 3ydd partïon. |
| Gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol a mwynhad ohono | ⑧ Mewn partneriaeth byddwn yn cynnal rhaglen dair blynedd er mwyn annog trigolion y fwrdeistref i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol iach mewn mannau gwyrdd naturiol lleol. | • Rhoi prosiect Dewch Allan! ar waith<br>• Rhaglen o welliannau<br>• Lansio prosiect gwarchodfa natur genedlaethol Aberbargod<br>• Gweithio gydag ysgolion lleol addysg ac ymwybyddiaeth ym maes bioamrywiaeth | **Llwyddiannus**<br>Cwblhawyd pob cam gweithredu ac nid yn unig y mae pob un o'r wyth darn o dystiolaeth wedi cyflawni'r targed neu ragori arno ond, yn bwysicach na hynny, mae pob un wedi gwella o gymharu â'r llynedd. |

| **Canlyniad Cyffredinol** (FEL Y'I PENNWYD GAN LYWODRAETH CYMRU) | **Y Canlyniad Gwirioneddol y Cytunwyd Arno** (Ein cyfraniad at y canlyniad cyffredinol) | **Prif brosiectau** (Yr hyn y byddwn yn ei wneud, yn benodol) | **Hunanasesu Gwasanaethau ar gyfer 2012/13** (Sut y gwnaethom berfformio, yn ein barn ni) |
|---|---|---|---|
| Mwy o Gyfranogi mewn Chwaraeon a Hamdden Egnïol | ⑨ Diwylliant lle mae ein plant a'n pobl ifanc yn ymgymryd â chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel rhan reolaidd o'u bywyd bob dydd a seilwaith ffyniannus i gefnogi chwaraeon a hamdden egnïol ledled y fwrdeistref. | • Cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden egnïol gyda phartneriaid a hebddynt<br>• Cynyddu nifer yr hyfforddwyr a'r gwirfoddolwyr<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng chwaraeon a'r agenda iechyd | **Llwyddiannus**<br>Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau a disgwylir i'r rhai sy'n weddill gael eu cwblhau yr haf hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hwn yn llwyddiant ffiniol, am na chyflawnodd 10 mesur eu targed, gyda thri ohonynt yn perfformio'n waeth na'r llynedd. Fodd bynnag, rhoddwyd rhesymau dilys a dengys tystiolaeth bellach fod cyfranogiad wedi parhau i gynyddu mewn meysydd eraill. |
| Gwaith Caffael Mwy Effeithlon ac Effeithiol | ⑩ Set o bedwar prosiect sy'n dangos cydweithio sy'n sicrhau mwy o fanteision nag y gallai gwaith caffael yn unig eu sicrhau (os bydd achos busnes yn nodi mai dyma'r dull cywir o weithredu) | • Prosiect Gwyrdd<br>• Contractau staff a reolir gan asiantaethau<br>• Contract goleuadau stryd ar y cyd<br>• SEWIC - Rhaglen Comisiynu Plant Rhaglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru (SEWIC) | **Llwyddiannus**<br>Sefydlwyd pob prosiect. Dengys y dystiolaeth ariannol fod arbedion sylweddol wedi'u sicrhau ar gyfer pob un o'r prosiectau. |

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ein hunanasesiad o'r cytundebau ac yn rhoi gwybod i ni maes o law a yw'n cytuno â'n datganiad. Os yw'n llwyddiannus, bydd hyn yn arwain at ddyrannu £1.8m o arian grant.

# Trefniadau Cydweithredu yn 2012-13

Ers blynyddoedd lawer buom yn ymwybodol o fanteision cydweithio ag awdurdodau lleol eraill a gwasanaethau cyhoeddus eraill ledled Cymru, er mwyn darparu gwasanaethau gwell a rhoi mwy o ddewis i'n Dinasyddion.

Mae cydweithredu yn elfen bwysig o gynlluniau llywodraeth ganolog. Dim ond pan fo'r achos busnes yn dangos mai dyna'r peth cywir i'w wneud y byddwn yn cydweithio â sefydliadau eraill, neu pan allwn wella'r gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a rhoi mwy o ddewis i'r cyhoedd heb fawr ddim cost ychwanegol, os o gwbl, neu pan allwn sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy rannu adnoddau. Rydym yn cydweithio ag eraill ar amrywiaeth o brosiectau ac isod rydym yn rhestru ychydig o enghreifftiau o'r gwaith rydym wedi'i wneud gyda'n partneriaid yn ogystal â rhai enghreifftiau o drefniadau cydweithredu tymor hwy sy'n ategu ein hadroddiad perfformiad.

## Corfforaethol

**Cydweithio i wella gwasanaethau TG yng Nghaerffili a Blaenau Gwent.** Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili wedi cytuno i gydweithio â Blaenau Gwent er mwyn cefnogi ei systemau TG. Mae'r ddau awdurdod eisoes yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol integredig ac mae'r datblygiad diweddaraf hwn yn dangos mwy o gydweithredu agos rhwng y ddau gyngor cyfagos.

Mae cabinet Caerffili wedi cymeradwyo trefniant TG newydd â Blaenau Gwent, lle y caiff gwasanaethau lletya TG eu darparu o Ganolfan Ddata CBSC yn Ystrad Mynach. Dywedodd y Cynghorydd Keith Reynolds, aelod Cabinet Caerffili ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol, “Rydym yn awyddus i weithio gyda chynghorau eraill yn unol ag agenda gydweithredol Llywodraeth Cymru. Bydd y fenter ddiweddaraf hon yn helpu i leihau costau sy'n gysylltiedig â TG, gwella'r modd y darperir gwasanaethau a sicrhau ei bod yn haws i drigolion lleol gael gafael ar wasanaethau.”

Bydd Caerffili yn defnyddio'r capasiti sydd ar gael yn ei Ganolfan Ddata i ddarparu gwasanaethau data i Flaenau Gwent gan ddefnyddio trefniant ‘cwmwl’. Mae a wnelo cyfrifiadura cwmwl â darparu gwasanaeth TG, ar draws rhwydwaith, gyda defnyddwyr terfynol yn cael mynediad i'w cymhwysiad drwy borwr gwe tra bod safle arall yn gwneud y gwaith prosesu ac yn storio data. Mae'r prosiect diweddaraf hwn yn dilyn cydweithrediad TG llwyddiannus arall â Chyngor Dinas Casnewydd lle mae Caerffili yn darparu lle storio a chefnogaeth i'w systemau data.

**Mae cydweithio yn sicrhau manteision i'r ddwy ochr.** Mae cydweithredu rhwng timau Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn dod â manteision sylweddol i'r ddau gyngor drwy eu galluogi i brynu'n gallach mewn hinsawdd economaidd anodd. Dros y blynyddoedd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi buddsoddi mewn gweithgarwch caffael**,** gan ddatblygu tîm canolog

ymroddedig a fu'n helpu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ers mis Ebrill 2012, i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd drwy leihau costau a gwella ansawdd a phrosesau.
Mae'r trefniadau cydweithredu hefyd wedi helpu i ddiogelu swyddi yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac mae'r incwm a gynhyrchir yn talu am un swydd llawn amser ac un swydd rhan-amser yn y tîm caffael . Mae'r trefniadau cydweithredu yn gweithio'n dda ac yn rhoi cyfleoedd i'r ddau gyngor ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol, sydd hefyd yn dod â manteision i fusnesau lleol.

**Trawsnewidiwyd Gwesty'r Countryman yn dai â chymorth ar gyfer pobl ifanc yn gynt na'r hyn a nodwyd mewn argymhellion cenedlaethol.** Ail-lansiwyd Gwesty'r Countryman ym Markham fel prosiect tai â chymorth byrdymor. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i drigolion lleol, darparwyr gwasanaethau a chynghorwyr gyfarfod â rhai o'r bobl ifanc sy'n byw yn y cynllun ar hyn o bryd, cael eu tywys o amgylch y cyfleusterau a dysgu mwy am yr effaith gadarnhaol y gall y cynllun ei chael ar oedolion ifanc sy'n agored i niwed. Yn bresennol yn y lansiad roedd aelodau o staff yn cynrychioli gwasanaethau Plant, gwasanaethau Oedolion, Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, timau Cefnogi Pobl Gwent, staff Solas, darparwyr cymorth lleol eraill a thrigolion.

Roedd nifer o gynghorwyr CBS Caerffili yn bresennol, yr oedd llawer ohonynt wedi helpu'r cynllun i oresgyn rhwystrau ar y dechrau, gan gynnwys y Cynghorydd Harry Andrews, Arweinydd y Cyngor a'r Cynghorydd Robin Woodyatt, Aelod y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddywedodd; “Yn ddiau, mae'r fenter hon yn tystio i'r ffordd y gall gwaith mewn partneriaeth gyflawni a darparu gwell cyfleusterau i'n cymunedau. Gan gydweithio â'r tirfeddianwyr a Solas Cymru, rydym bellach yn gallu cynnig llety byrdymor addas i oedolion ifanc sy'n rhoi iddynt y sgiliau i'w galluogi i fyw'n annibynnol fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned yn ogystal â tho uwch eu pennau.”

## Addysg

**Mae hwb ariannol yn rhoi PASBORT i gyflogaeth i bobl ifanc**. Mae cynllun hyfforddiant a chyflogaeth arloesol yng Nghaerffili yn arwain y ffordd yng Nghymru. Mae Rhaglen PASBORT Caerffili, sydd â'r nod o sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau cywir i gael swydd, wedi cael hwb ariannol gwerth £372,000. Datblygwyd Rhaglen PASBORT gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili ac mae'n cynnwys Cyngor Caerffili, Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Fforwm Busnes Caerffili a'r Sector Gwirfoddol. Ei nod yw mynd i'r afael â bylchau sgiliau lleol drwy gynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc.

**Mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf** wedi bod yn darparu dulliau arloesol o gyrraedd y teuluoedd sy'n adnodd eu cyrraedd yn draddodiadol. Mae'r Rhaglen yn cynnwys llwybr dysgu cyfannol i deuluoedd y mae angen cymorth arnynt i fanteisio ar gyfleoedd dysgu yn y gymuned, a fydd yn datblygu eu sgiliau bywyd a'u sgiliau cysylltiedig â gwaith. Mae prosiect Dysgu Integredig i'r Teulu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi sicrhau gwell mynediad i sesiynau llythrennedd a rhifedd cymunedol a all fod yn gam cyntaf tuag at ddychwelyd i addysg ar gyfer llawer o deuluoedd, gan roi cyfle iddynt barhau â'u dysgu neu chwilio am waith.

**Mae Rhaglen Dechrau'n Deg** yn ymgysylltu â theuluoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ystod beichiogrwydd drwy'r blynyddoedd cynnar er mwyn cefnogi sgiliau rhianta, helpu plant i ddatblygu a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen mae llawer o deuluoedd wedi dod yn fwy gwydn a hunanddibynnol ac maent wedi mynd ymlaen i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi, addysg a chyflogaeth pellach. Mae datblygiad iaith cynnar yn un o flaenoriaethau Rhaglen Dechrau'n Deg. Mae Rhaglen Dechrau'n Deg yn llwyddo i sicrhau bod teuluoedd yn cael yr holl ddarpariaeth y mae ganddynt hawl i'w chael mewn 10 ardal ac mae cynlluniau i ymestyn y rhaglen rhwng 2013 a 2015 i gynnwys naw ardal arall. Mae grŵp llywio amlasiantaeth wedi llwyddo i ddatblygu'r Ganolfan Plant Integredig sydd newydd ei hadeiladu yn St James yng Nghaerffili, ac yn dilyn cynllun peilot yn ardal Rhymni i ddatblygu'r cysyniad o Ysgolion Bro, cytunwyd ar strategaeth ac mae pob ysgol bellach yn cymryd rhan weithredol. Mae Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn ategu ei gilydd ac maent yn cydweithio er mwyn sicrhau bod ymyriadau ataliol cynnar a phriodol ar gyfer i deuluoedd mewn angen ledled y fwrdeistref.

**Mae Gwasanaeth Cyflawniad Addysgol rhanbarthol** wedi'i sefydlu er mwyn cefnogi a herio ysgolion i godi lefelau cyflawniad pob plentyn. Daeth gwella presenoldeb a lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn flaenoriaethau brys i'r Awdurdod Lleol yn 2011-12. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dull cadarn o gasglu, cofnodi a dadansoddi data. Mewn cydweithrediad ag ysgolion a phartneriaid amlasiantaeth eraill, mae'r Awdurdod Lleol wedi diwygio amrywiaeth o bolisïau ar ymddygiad a phresenoldeb a dogfennau canllaw. Mae pecyn hyfforddi amlasiantaeth wedi cyfrannu at leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd a chynyddu cyfraddau presenoldeb. Mae'r Strategaeth Sgiliau wedi rhoi ymyriadau wedi'u targedu sy'n darparu hyfforddiant a chymorth ychwanegol ar waith mewn ysgolion cynradd, er mwyn codi lefelau llythrennedd disgyblion sy'n ei chael hi'n anodd dilyn y cwricwlwm.

## Yr Amgylchedd

**Prosiect Bernie yn Ysbrydoli.** Mae prosiect arloesol i leihau nifer y tanau glaswellt a choedwig a gaiff eu cynnau'n fwriadol wedi bod yn llwyddiant ysgubol am yr ail flwyddyn. Mae pobl ifanc o ardal Bargod wedi bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r difrod y gall tanau glaswellt a gaiff eu cynnau'n fwriadol eu hachosi. Maent wedi dangos eu hochr artistig mewn sesiynau Celfyddyd Graffiti, wedi gostwng y bas mewn gweithdai DJ-io ac wedi ysgrifennu campweithiau telynegol ar danau glaswellt. Mae pobl ifanc hefyd wedi cael cyfle i fod yn ddiffoddwr tân am y dydd ac maent hefyd wedi adeiladu cartrefi i ffrindiau pluog a phryfetach drwy wneud blychau adar a phryfed gyda Groundwork Caerffili.

Yn ystod y prosiect caiff nifer y patrolau gan Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol, Swyddogion Tân a Swyddogion yr Heddlu eu cynyddu mewn ardaloedd â phroblemau; o fewn dwy wythnos yn unig cafodd y patrolau 146 o ryngweithiadau ag aelodau o'r cyhoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o Brosiect Bernie. Mewn blynyddoedd blaenorol mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus iawn gan sicrhau lleihad sylweddol (22%) yn nifer y tanau glaswellt bwriadol yn ardal Bargod ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

**Y Cyngor yn ennill gwobr am bartneriaeth dwyn metel.** Mae Tîm Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Thîm Plismona yn y Gymdogaeth Rhisga wedi ennill gwobr am bartneriaeth sydd wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o ddwyn metel yn yr ardal 50%.

Cyflwynwyd Gwobr Gweithio mewn Partneriaeth i'r bartneriaeth, sydd wedi sefydlu cynllun arloesol y bwriedir iddo leihau nifer yr achosion o ddwyn metel gan ddefnyddio deddfwriaeth o dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 1964, yn Seremoni Wobrwyo Heddlu Gwent eleni gan y Prif Gwnstabl. Aeth y cynllun a elwir yn ‘No ID? No Cash!’ ati i gofrestru'r holl gasglwyr metel a rhoi cardiau adnabod â llun a llyfrau cofnodi iddynt. Erbyn mis Ionawr 2012, roedd 151 o gasglwyr metel wedi'u cofrestru gyda'r cynllun newydd.

Rhwng mis Medi 2011 a mis Chwefror 2012 sefydlodd swyddogion y cyngor a swyddogion yr heddlu ddiwrnodau gweithredu rheolaidd, a oedd yn cynnwys stopio casglwyr metel ac archwilio eu cofnodion. Mae hyn, ynghyd â'r cardiau adnabod â llun, wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o ddwyn metel 50% ers yr haf diwethaf. Mae'r lleihad hwn yn nifer yr achosion o ddwyn metel wedi peri i'r cynllun gael ei gyflwyno ledled pob awdurdod yng Ngwent ac mae wedi dal sylw awdurdodau ledled y DU, gan gynnwys heddluoedd yn Nyffryn Tafwys a Dyfed Powys.

**Rhanbarthau yn dod at ei gilydd i drafod y dyfodol.** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cynnal Seminar cyntaf Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru. Y seminar oedd y cyfle cyntaf i aelodau etholedig a swyddogion cynllunio yn y rhanbarth drafod ar y cyd y potensial ar gyfer gwaith cynllunio rhanbarthol ac ystyried goblygiadau hyn i Ranbarth Dinas Caerdydd.

Roedd aelodau sy'n gyfrifol am faterion cynllunio o bob rhan o Dde-ddwyrain Cymru yn bresennol ynghyd â swyddogion sy'n gyfrifol am waith Cynllunio Strategol. Roedd cefnogaeth gyffredinol i gyflwyno haen ranbarthol o waith cynllunio ar ôl i'r cyfranogwyr gael cyfle i drafod yr enghreifftiau llwyddiannus o waith trawsffiniol rhwng awdurdodau megis ail-agor llinell reilffordd Glyn Ebwy a Phrosiect. At hynny, trafododd y rhai a oedd yn bresennol lwyddiant Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) er mwyn dangos sut y gellir sefydlu'r fath drefniadau cydweithredu yn y rhanbarth.

Dywedodd y Cynghorydd Ken James, Aelod y Cabinet ar gyfer Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy, "Hyrwyddodd y Seminar cyntaf hwn o'r Grŵp Cynllunio Strategol drafodaethau cadarnhaol ac edrychaf ymlaen at weld mwy o drefniadau cydweithredu a all ddeillio o'r grŵp hwn a fydd o fudd i'r fwrdeistref sirol a Rhanbarth De-ddwyrain Cymru."

**Digwyddiadau cyhoeddus yn darparu gwybodaeth am Brosiect Gwyrdd**. Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir a Dinas Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg. Mae gwastraff trefol y pum awdurdod, gyda'i gilydd, yn rhoi cyfrif am 40% o gyfanswm gwastraff trefol Cymru. Y flaenoriaeth yw ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl er mwyn cyflawni targedau ailgylchu cynyddol Llywodraeth Cymru hyd at 2015 ac ar ôl hynny.

Ar ôl i bob Cyngor partner gymeradwyo Viridor fel y Cynigydd a Ffefrir ar gyfer y contract 25 mlynedd, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol i ddarparu system rheoli gwastraff sy'n amgylcheddol gynaliadwy ar gyfer y bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda Viridor i benderfynu'n derfynol ar y telerau cytûn sydd wedi'u negodi, gyda'r bwriad o lofnodi'r contract yn ddiweddarach yn ystod yr hydref. Bydd Prosiect Gwyrdd yn cynnal ‘sesiynau galw heibio’ cyhoeddus yng Nghaerdydd a'r pedair ardal awdurdod lleol arall er mwyn parhau i roi gwybodaeth am y cynllun.

**Gweinidog yn lansio'n swyddogol gartref cynaliadwy newydd ffermwr.** Mae ffermdy ecogyfeillgar o'r radd flaenaf wedi cael sêl bendith y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, Alun Davies. Ymunodd y Gweinidog â Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gwesteion yng nghartref newydd Arthur Davies, sy'n ffermwr, a'i deulu ym Maes-yr-Onn, ym Manmoel

Mae'r eiddo yn gwbl gynaliadwy. Saif ar safle nad yw'n gysylltiedig â'r grid ac felly mae angen iddo fod yn hunangynhaliol o ran ei ddefnydd o ynni. Mae'r tŷ yn cynnwys nifer o dechnolegau cynaliadwy gan gynnwys paneli ffotofoltäig, cynaeafu dŵr glaw, boeler biomas a storfeydd thermol a system wresogi arloesol sy'n defnyddio'r bordiau wal. Mae'r eiddo yn gynnyrch tîm partneriaeth amlasiantaeth, sydd wedi gweithio'n agos â'r teulu i gynllunio ac adeiladu eu cartref delfrydol, sef ffermdy modern sydd wedi'i adeiladu yn arddull tŷ hir traddodiadol Cymreig gan sicrhau ei fod yn gydnaws â'r ardal drawiadol o'i amgylch.

Gwelodd Tîm Datblygu Cynaliadwy Cynllun Datblygu Gwledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfle i helpu i wireddu breuddwyd y teulu i fyw mewn lleoliad nad yw'n gysylltiedig â'r grid a datblygodd bartneriaethau â'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu a chwmni Scottish & Southern Energy plc, er mwyn cynllunio ac adeiladu ffermdy a chartref modern a chynaliadwy.

**Cynllun Cymunedau yn Gyntaf yn Mynd i'r Afael â Diweithdra.** Mae rhaglen a ariennir gan y Ganolfan Byd Gwaith ac a gyflawnir gan dîm Cymunedau yn Gyntaf CBSC yng Nghanolfan Gwybodaeth ac Adnoddau Whiterose yn Nhredegar Newydd, eisoes wedi llwyddo i ddod o hyd i waith ar gyfer dau berson ifanc ym mwrdeistref sirol Caerffili.

Mae **cynllun 'Sport That Works'**, sy'n para 12 wythnos, yn defnyddio sgiliau chwaraeon y gellir eu trosglwyddo megis crefft ymladd er mwyn helpu cyfranogwyr gyda'u ffocws a sianelu cryfder mewnol, ynghyd â sesiynau rygbi gyda'r prop Chris Horsman a arferai chwarae dros Gymru er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd gwaith tîm yn y gweithle. Cynhaliwyd Ffair Gyfleoedd fel rhan o'r rhaglen ar 2il Ebrill, lle y daeth 18 o asiantaethau cymorth at ei gilydd er mwyn siarad ag aelodau o'r cyhoedd a hysbysebu eu gwasanaethau. Roedd y rhai a gymerodd ran yng nghynllun 'Sport That Works' yn gallu cysylltu â sefydliadau a allai roi mwy o gymorth iddynt ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.

## Gwasanaethau Cymdeithasol

Uno Timau Datblygu'r Gweithlu Blaenau Gwent a Chaerffili Roedd cyflawni rhaglen integreiddio Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili a Blaenau Gwent yn flaenoriaeth allweddol i'r Gyfadran yn 2012-13. Yn anffodus yn 2013, wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, daeth yn amlwg bod sefyllfa ariannol gyffredinol y ddau awdurdod lleol wedi newid ers dechrau'r rhaglen. Roedd y penderfyniad i derfynu'r rhaglen ar ei ffurf bresennol yn un anodd ei wneud ar gyfer y ddau awdurdod lleol.

Fodd bynnag, roedd angen ei wneud er mwyn diogelu lefelau gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Er na fydd y gwaith gyda'n cydweithwyr ym Mlaenau Gwent yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd, rydym yn sylweddoli y bydd angen trawsnewid gwasanaethau er mwyn ateb galw a disgwyliadau cynyddol, a lle y ceir achos busnes cadarn sy'n nodi y bydd trefniant cydweithredu yn fuddiol fe'i hystyrir.

Ar 1af Ebrill 2012 mae timau hyfforddi'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ddau awdurdod lleol a phartneriaethau Blaenau Gwent a Chaerffili wedi integreiddio. Yn flaenorol byddent wedi cael eu galw'n Dîm Datblygu'r Gweithlu Blaenau Gwent a Thîm Dysgu a Datblygu Caerffili. Gyda'i gilydd, dyma'r Tîm Datblygu'r Gweithlu newydd. Mae'r tîm yn rhannu ei brofiad a'i adnoddau er mwyn darparu gwell gwasanaeth a fydd yn helpu ymarferwyr gyda'u strategaethau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol a chan helpu, yn benodol, i sicrhau gweithlu medrus, proffesiynol, cymwys a galluog.

Y **Strategaeth Anabledd Dysgu** yw'r strategaeth integredig gyntaf ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu i boblogaethau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen ac mae wedi'i datblygu drwy gydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaid i bennu cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu yn y dyfodol. Datblygwyd y Strategaeth gyda chyfranogiad gan unigolion ag anableddau dysgu a'u gofalyddion a bydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni rhaglen eang o newid a gwella gwasanaethau. Er mwyn cyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus bydd angen gweithredu mewn llawer o feysydd ym mhob un o'n gwasanaethau ac mae'n debygol o greu cyfleoedd i ni gydweithio'n llawer agosach er mwyn cynnig y gwasanaethau gorau i'r poblogaethau a wasanaethir gennym.

Mae **Prosiect Unigolion Coll** yn Brosiect Amlasiantaeth sy'n cynnwys pum Awdurdod Lleol yng Ngwent (Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Thorfaen), Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Gyda'i gilydd maent wedi llunio ffordd newydd o weithio gyda phlant yr hysbyswyd eu bod ar goll. Mae'r prosiect yn cael cymorth ariannol gan bob partner ac mae wedi cael arian gan y Gronfa Loteri Fawr. Daeth y gwasanaeth yn weithredol ar 1af Ebrill 2013. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r prosiect a disgwylir i werthusiad ffurfiol gael ei gynnal.

Y **Strategaeth Iechyd Meddwl** yw'r strategaeth integredig gyntaf ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i boblogaethau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen ac mae wedi'i datblygu drwy gydweithio er mwyn pennu cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y dyfodol. Roedd y Strategaeth yn seiliedig ar farn defnyddwyr gwasanaethau, gofalyddion, staff a rhanddeiliaid ac mae wedi rhoi'r cyfle i ni gydnabod gyda'n gilydd amrywiaeth ein poblogaeth. Rydym yn cydnabod mai dim ond drwy weithio fel partneriaid cydradd â defnyddwyr gwasanaethau, staff a sefydliadau eraill y gallwn gyflawni'r strategaeth hon, drwy ennyn ymddiriedaeth yn ein gilydd a'r gwasanaethau a ddarperir gennym.

Mae'r **Gwasanaeth Eiriolaeth ac Ymwelwyr Annibynnol Rhanbarthol** yn wasanaeth wedi'i gomisiynu a ddarperir gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS). Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu awdurdodau lleol Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen. Mae gwasanaethau eiriolaeth yr NYAS yn rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc am eu hawliau, yn rhoi cymorth i'w galluogi i ddefnyddio gweithdrefnau cwyno ffurfiol a chael eu clywed pan wneir penderfyniadau ynghylch eu bywydau. Mae'r gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol yn un ar gyfer plant nad ydynt yn cael fawr ddim cyswllt â'u teulu, os o gwbl. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cydberthnasau hirdymor, cyson a

sefydlog ag oedolion i blant a phobl ifanc nad ydynt, o bosibl, wedi cael profiadau cadarnhaol o gyfeillgarwch gydag oedolion. Gall hyn gynnwys sgwrsio dros baned o goffi, mynd am dro, mynd i'r sinema, helpu'r person ifanc i gadw mewn cysylltiad â'i grefydd neu ei ddiwylliant, helpu mewn adolygiadau, helpu gyda gwaith ysgol, chwaraeon, eistedd gyda'r person ifanc neu wrando arno a siarad ag ef.

Dim ond sampl o rywfaint o'r gwaith rydym yn ei wneud ar y cyd a geir yma, os hoffech wybod mwy cysylltwch â PMU@caerphilly.gov.uk

# Adolygu ein Gwasanaethau (Hunanasesu)

Mae gan y Cyngor amrywiaeth eang o ffyrdd o asesu ei berfformiad drwy ofyn y cwestiwn ‘pa mor dda ydym ni?’ a ‘sut rydym yn gwybod?’ Rydym yn dechrau gyda phob gwasanaeth sy'n rhoi cynllun manwl a elwir yn ‘gynllun gwella gwasanaethau’ ar waith er mwyn nodi'r gwelliannau y mae'r gwasanaeth am eu gwneud y flwyddyn honno.

**Cardiau sgorio perfformiad:** Mae gan bob gwasanaeth ‘gardiau’ electronig, sy'n casglu data perfformiad allweddol ar gyfer y gwasanaeth. Caiff y data hwn ei ddadansoddi a'i adolygu ar wahanol lefelau ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae ein pwyllgor Archwilio yn monitro agweddau ar ein perfformiad ac rydym yn parhau i arwain y ffordd o ran ein defnydd o feddalwedd perfformiad i Gymru gyfan wrth fonitro perfformiad. Mae ein cofrestrau risg, cwynion ac ymgynghori hefyd yn rhan o'n hunanasesiad.

**Amcanion Gwella**: Mae'r Cyngor hefyd yn nodi cyfres o Amcanion Gwella, sy'n flaenoriaeth i ni, yn seiliedig ar y meysydd hynny y mae ein data yn dangos bod angen i ni eu gwella neu'n seiliedig ar yr hyn y mae'r cyhoedd wedi dweud wrthym ei fod yn bwysig iddynt. Mae gan bob amcan gynllun gweithredu rydym yn ei ddefnyddio i fonitro sut rydym yn perfformio. Ceir enghraifft o hyn yng nghefn y ddogfen hon (Atodiad A).

**Craffu**: Mae ein cynghorwyr hefyd yn craffu ar y gwasanaeth a ddarperir gennym a'n perfformiad. Gelwir hyn yn Graffu ac mae un ar gyfer pob Cyfadran, sef Addysg am Oes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Lles, yr Amgylchedd Byw a Pholisi ac Adnoddau. At hynny, mae ein Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio materion sy'n ymwneud â Chyllid a Pherfformiad.

**Gwasanaethau Cwsmeriaid**: Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau o geisio barn cwsmeriaid ar yr hyn rydym yn ei wneud, o arolwg cynhwysfawr a ffurfiol o Aelwydydd i ddulliau mwy uniongyrchol, ar raddfa lai, a ddefnyddir i fesur teimladau cwsmeriaid yn ein canolfannau cyswllt lle yr ymdrinnir ag unigolion wyneb yn wyneb. Rydym hefyd yn cynnal arolwg barn wrth i bobl adael ein canolfan gyswllt ac rydym wedi ail-lansio ein proses gwyno er mwyn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ei defnyddio.

**Mathau eraill o Asesiad**

Mae gan wahanol Gyfadranau wahanol fathau o gyrff arolygu. Er enghraifft, mae'r Gyfadran Addysg yn destun arolygiad gan ESTYN ac, yn wir, buom yn destun asesiad Awdurdod cyfan eleni. Gellir gweld manylion yr asesiad hwn yn yr adran sy'n ymwneud ag Addysg.

Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn rheoleiddio perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae hunanasesiad manwl sy'n dwyn y teitl ‘ **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol’** ar gael yn [www.caerphilly.gov.uk/socialservicesacrf](www.caerphilly.gov.uk/socialservicesacrf)

## Yr hyn y dywedodd ein Rheoleiddwyr wrthym am ein Gwasanaethau yn 2012-2013

Roedd Adroddiad Gwella Blynyddol ein Rheoleiddwyr yn 2013 yn cynnwys yr asesiad cryno canlynol:

- Er bod y Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau i'w wasanaethau, mae gwendidau yn ei drefniadau hunanwerthuso, mae gwelliant mewn rhai meysydd blaenoriaeth allweddol yn araf ac mae diffygion difrifol yn ei drefniadau llywodraethu
- Ers dod i'r casgliad, ym mis Medi 2012, fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod 2012-13 cyn belled â'i fod yn cyflymu'r gwaith o gyflwyno gwelliannau, rydym wedi canfod diffygion difrifol yn ei drefniadau llywodraethu
- Mae perfformiad y Cyngor wrth wella gwasanaethau yn 2011-12 wedi bod yn gymysg ac mae wedi bod yn araf wrth fynd i'r afael â rhai meysydd blaenoriaeth allweddol.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno trefniadau rheoli perfformiad. Fodd bynnag, mae angen iddo fynd i'r afael â gwendidau yn ei ddull o hunanwerthuso a herio, ac adrodd ac ystyried ei berfformiad mewn ffordd fwy tryloyw a chytbwys.

O ganlyniad, mae wedi gwneud y pedwar argymhelliad statudol canlynol er mwyn i'r Cyngor wella arnynt, sef:

| | |
|---|---|
| A1 | Mynd i'r afael â'r pum argymhelliad a wnaed gan yr Archwilydd Penodedig yn ei *Adroddiad er Budd y Cyhoedd*, dyddiedig Mawrth 2013. |
| A2 | Mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella sydd heb eu cyflawni a nodwyd yng ngwaith yr Archwilydd Cyffredinol hyd yma. |
| A3 | Mynd i'r afael â'r tri argymhelliad a wnaed yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, Gwerthuso Cyfraniadau Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, dyddiedig Gorffennaf 2013. |
| A4 | Rhoi trefniadau ar waith sy'n galluogi'r Cyngor i ffurfio, craffu ar a chymeradwyo ei amcanion gwella yn brydlon i fodloni ei rwymedigaethau statudol o dan y Mesur. |

Gellir gweld yr adroddiad llawn yn: http://www.wao.gov.uk/cymraeg/home.asp

Dywedodd Stuart Rosser, Prif Weithredwr Dros Dro Cyngor Caerffili, "*Rydym yn cydnabod ac yn derbyn canfyddiadau'r adroddiad a gallaf gadarnhau bod gwaith wedi hen ddechrau i fynd i'r afael â llawer o faterion a godwyd yn y ddogfen. Rydym yn hyderus y bydd y cyngor yn gallu rheoli'r materion hyn yn llwyddiannus diolch i'n gweithlu rhagorol a chefnogaeth barhaus yr aelodau. Hoffwn sicrhau preswylwyr ein bod yn symud ymlaen fel sefydliad ac yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i bob rhan o'r gymuned."*

## Adroddiad er Budd y Cyhoedd

Ym mis Mawrth 2013 cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad er Budd y Cyhoedd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cyfeiriodd yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Penodedig at nifer o feysydd sy'n achosi pryder sy'n ymwneud â'r broses a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod i bennu cyflog ei brif swyddogion a'r methiant yn y trefniadau llywodraethu a ddeilliodd o hynny. Daeth yr Archwilydd i'r casgliad, “o ganlyniad i fethiannau o'r fath, mae'r Cyngor, yn fy marn i, wedi gweithredu'n anghyfreithlon mewn perthynas â'r broses hon ar gyfer pennu cyflogau."

Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad a'i argymhellion cysylltiedig yn llawn ac mae wedi gweithio gyda'r Archwilydd ers hynny er mwyn sicrhau y caiff camau priodol eu cymryd i wella. Rhoddodd yr Adroddiad er Budd y Cyhoedd gyfle i'r Cyngor fyfyrio ar ei systemau a'i weithdrefnau mewnol sefydledig, asesu a ydynt yn cydymffurfio ag arfer gorau ac ystyried unrhyw gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atgyfnerthu ein trefniadau llywodraethu er mwyn atal rhag y problemau rhag codi eto. Gwnaeth yr Archwilydd bum argymhelliad sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

1. Hysbysebu cyfarfodydd.
2. Gwrthdaro buddiannau.
3. Gweithdrefnau ar gyfer pwyllgorau newydd.
4. Cofnodion cyfarfodydd.
5. Eglurder a chyflawnrwydd adroddiadau i bwyllgorau.

Mae'r cynllun gweithredu a luniwyd gennym yn mynd ymhellach na'r pum argymhelliad am ein bod yn ymdrechu i sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn esiamplau o arfer gorau drwy gynnwys awgrymiadau i integreiddio newidiadau statudol diweddar a gyflwynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn ffordd a fydd yn atgyfnerthu prosesau gwneud penderfyniadau agored a thryloyw a rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd y broses graffu fewnol o ran herio perfformiad. Mae cynnydd yn cael ei wneud a chyflwynir adroddiadau arno i'r Pwyllgor Archwilio fel mater o drefn.

Nodir isod waith arall a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn **Rhaglen Waith 2011-12 a 2012-13**:

| Maes Astudio | Canlyniad Cryno gan SAC | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| Rheoli Asedau<br>Blwyddyn archwilio 11/12<br>Cyhoeddwyd yr adroddiad yn 2013 | Daeth SAC i'r casgliad canlynol: “Oherwydd diffyg blaenoriaethu a threfniadau llywodraethu priodol ar gyfer rheoli asedau, nid oes gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Asedau briodol y cytunwyd arni sy’n nodi’n glir sut bydd ei asedau’n cael eu defnyddio i gyflawni ei | *Fel y cydnabyddir yn yr adroddiad, mae gan y Cyngor strategaeth Rheoli Asedau ac mae'r strategaeth hon ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod canllawiau arfer gorau, megis Canllawiau ar Gynllunio Rheoli* |

| Maes Astudio | Canlyniad Cryno gan SAC | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | flaenoriaethau a chefnogi gwelliannau”. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cydnabod bod “llawer o newidiadau wedi’u gwneud i’r ffordd y mae’r Cyngor wedi rheoli ei asedau dros y 18 mis diwethaf” ond mae'n nodi wedyn fod datblygiad meysydd allweddol, megis cynlluniau rheoli asedau gwasanaeth, ‘wedi bod yn araf” | *Asedau yng Nghymru Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW)2, wedi'u defnyddio i ddatblygu'r ddogfen strategol.*<br>*Fodd bynnag, rydym yn derbyn cynigion SAC ar gyfer gwella a byddwn yn gwneud cynnydd er mwyn gwella.* |
| Adolygiad craffu - sy'n dilyn yr astudiaeth graffu genedlaethol a gynhaliwyd yn<br>2013-14 | Astudiaeth Genedlaethol a elwir yn ‘Craffu Da, Cwestiwn Da’<br>Fe'i cynhaliwyd yn 2013 pan gymerodd awdurdodau ran mewn astudiaeth o'u Trefniadau Craffu a datblygu cynlluniau i wella lle y bo'n briodol.<br>Gwneir y darn penodol hwn o waith ar ddiwedd 2013-14 fel gwaith dilynol i'r astudiaeth genedlaethol bresennol. | *Cymerodd y Cyngor ran yn yr astudiaeth drwy hunanasesu ein trefniadau craffu a chymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Fynwy. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwaith craffu er mwyn gwella ein trefniadau a bydd y trefniadau diwygiedig yn destun yr adolygiad gan SAC a nodwyd yn 2013/2014.* |
| Cynllun Ariannol Tymor Canolig (Diwydrwydd Dyladwy) mewn Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Blwyddyn archwilio 11/12<br>Cyhoeddwyd yr adroddiad 12/13 | Er bod gwasanaethau cymdeithasol yn ymdopi o fewn y gyllideb gyffredinol, gwelwyd nad oes gan y cyngor ddull cadarn o ddatblygu achosion busnes a phennu, darparu, monitro a gwerthuso arbedion er mwyn ymateb i’r galw a heriau’r dyfodol. | *Mae gan y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol hanes da o fantoli cyllidebau ond mae'n cydnabod bod angen achosion busnes cadarn i ategu cynigion ar gyfer ail-gyflunio gwasanaethau. Dylai'r broses hon gynnwys systemau priodol i fonitro a gwerthuso newidiadau i wasanaethau ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.* |
| Gwasanaethau Cwsmeriaid<br>Blwyddyn archwilio 11/12<br>Cyhoeddwyd yr adroddiad Awst 12/13 | Mae’r Cyngor yn darparu sianeli amrywiol i ddinasyddion allu defnyddio ei wasanaethau, ond mae ei ddull strategol o ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid yn dameidiog ac angen ei ddiweddaru ac nid yw’n gwerthuso ei ddarpariaeth gwasanaethau cwsmeriaid yn effeithiol. | *Rydym yn cydnabod bod gan Wasanaethau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol eu trefniadau eu hunain ac mae hyn yn briodol ar gyfer cymorth arbenigol. Roedd gan ein strategaeth bresennol (y cytunwyd arni yn 2005) amcanion hirdymor, sydd wedi'u cyflawni bellach, neu sydd ar fin cael eu cyflawni. Er mwyn gwneud hyn roedd angen buddsoddi cryn dipyn o amser, ymdrech ac adnoddau ac arweiniodd at ddatblygu darpariaeth mynediad i gwsmeriaid yn ein cymunedau sy'n uchel ei pharch. Cytunwn fod angen diweddaru* |

| Maes Astudio | Canlyniad Cryno gan SAC | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| | | *ein strategaeth yn sgil newidiadau yn ein hamgylchedd. Fodd bynnag, bu sawl adolygiad a gwerthusiad (gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid o Wasanaethau Cwsmeriaid a gynhaliwyd gan IDeA ac adolygiad Meincnodi gan SOCITM yn 2011) ac ailwerthusiad o'n trefniadau fel rhan o'n Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn 2010/11.* |
| Llywodraethu partneriaethau a threfniadau cydweithredu | Cwblhawyd y gwaith ac nid yw'r adroddiad wedi'i dderbyn eto | |
| Asesiad o'r effaith sy'n seiliedig ar wasanaethau | Cwblhawyd y gwaith ac nid yw'r adroddiad wedi'i dderbyn eto | |

| Rhaglen Waith Arfaethedig 2013-14 | Sefyllfa | Astudiaeth Genedlaethol 2013-14 ac Astudiaethau Gwella |
|---|---|---|
| Asesiad Corfforaethol – A yw'r cyngor wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth wella | Wedi'i gynnal, yn aros am y canlyniad | Diogelu |
| Adolygiad o Ansawdd Data – Pa mor gywir yw ein systemau at ddibenion cofnodi dangosyddion perfformiad | Wedi'i gynnal, yn aros am y canlyniad | Diwygiadau Lles |
| Asesiad o Berfformiad - Sut y gwnaethom berfformio yn ystod y flwyddyn 2013 | Fe'i cynhelir yn ystod Gaeaf 2013/14 ac fe'i cyhoeddir ym mis Mawrth 2014 | Cyflawni gyda llai |
| Ledled Gwent - cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol | Dim diweddariad ar hyn o bryd | |
| Adolygiad dilynol o swyddogaeth Adnoddau Dilynol | I'w gynnal yn ystod Hydref 2013 | |

Swyddfa Archwilio Cymru yw'r rheoleiddiwr goruchwyliol ar gyfer yr Awdurdod cyfan. Gellir gweld adroddiadau gan yr arolygiaethau perthnasol ar y gwefannau a restrir isod: www.wao.gov.uk. Gallwch gysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru drwy anfon neges e-bost i info@wao.gov.uk neu ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ CF11 9LJ

## Newyddion Rheoliadol Eraill

Rydym yn esbonio mwy am ganlyniadau ein harolygiad gan **ESTYN** yn 2012 yn yr Adran o'n Hadroddiad Perfformiad sy'n ymdrin ag ADDYSG. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/adroddiadau-arolygu/

Mae **Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cymru** a elwir yn AGGCC yn dadansoddi ein hunanasesiad blynyddol, a elwir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Dyma ble rydym yn asesu beth rydym yn ei wneud yn dda a ble mae angen i ni wella. Ar adeg argraffu'r ddogfen hon nid oeddem wedi cael ein hadborth ffurfiol gan AGGCC ond disgwylir iddo gael ei anfon yn fuan a chyhoeddir adroddiad manylach arno ar y wefan ganlynol: http://cssiw.org.uk/?skip=1&lang=cy

## Boddhad Cwsmeriaid

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd o ymgynghori a cheisio barn dinasyddion ynglŷn â pha mor fodlon ydynt ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo.
Un o'r prif ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw drwy ein harolwg manwl o aelwydydd, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2013 ledled ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn nodi lefelau boddhad â gwasanaethau yn ogystal â nodi canfyddiadau presennol o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut mae'r Cyngor a'r Heddlu yn ymdrin â'r problemau hyn ledled yr ardal. Cwblhawyd arolygon aelwydydd blaenorol yn 2001, 2003, 2005, 2007, 2009 a 2011.

Dosbarthwyd yr arolwg mewn dwy ffordd, un drwy **Arolwg drwy'r Post** at 10,000 o aelwydydd ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili ar sail hapsamplu er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gan bob rhan o'r fwrdeistref sirol. Dychwelwyd 1,807 o holiaduron drwy'r post wedi'u cwblhau yn 2013, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 18% ar gyfer yr arolwg drwy'r post. Mae'r ganran hon yn is na'r gyfradd ymateb a gofnodwyd ar gyfer arolwg drwy'r post 2011, sef 20.4%.

Dosbarthwyd yr arolwg hefyd drwy'r **We** ar wefan y Cyngor a chwblhawyd 473 o holiaduron ar-lein. Mae'r ffigur hwn gryn dipyn yn uwch nag yn 2011 pan gwblhawyd 276 o holiaduron ar-lein. Felly, cyfanswm nifer yr ymatebion i'r arolwg yn gyffredinol yn 2013 oedd **2,280**. Cyfunwyd yr ymatebion ac mae'r gwaith dadansoddi sy'n dilyn yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r holl ymatebion a gafwyd, waeth beth fo'u tarddle.

Nodir isod y canfyddiadau allweddol:

- At ei gilydd, roedd 82% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r ganran hon wedi cynyddu o 77% yn 2011 ac mae'n rhagori ar darged y Cynllun Gwella ar gyfer 2013, sef 78%.
- Mae gan ardal Cwm Rhymni Uchaf y lefel isaf o foddhad cyffredinol (78%) ac mae gan ardal Basn Caerffili y lefel uchaf (86%).
- Roedd 82% o ymatebwyr yn fodlon ar eu cymdogaeth ac roedd 62% yn fodlon ar ganol eu tref leol, sy'n welliant o gymharu â 2011.
- Unwaith eto, roedd gan ymatebwyr o Gwm Rhymni Uchaf y lefelau isaf o foddhad â'u cymdogaeth a chanol eu tref leol.
- Bu gwelliant ers 2011 o ran cyfran yr ymatebwyr sy'n credu bod ansawdd bywyd yn eu cymdogaeth a chanol eu tref leol wedi gwella yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Roedd 17% o ymatebwyr o'r farn bod lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gwella yn eu cymuned yn ystod y ddwy flynedd diwethaf (cwestiwn newydd yn arolwg 2013).
- Ceir lefelau uchel iawn o foddhad â phob agwedd ar wasanaethau ailgylchu a sbwriel.

- Cŵn yn baeddu, sbwriel/gwastraff yn crynhoi, cyflwr palmentydd/llwybrau a ffyrdd drwodd a chwyn a gordyfiant oedd y problemau mwyaf y credai ymatebwyr eu bod yn effeithio ar ymddangosiad eu strydoedd.
- Roedd lefelau uchel o foddhad â gweithgareddau hamdden, gweithgareddau dysgu a gweithgareddau diwylliannol, yn benodol, cafwyd cynnydd sylweddol mewn lefelau boddhad â llyfrgelloedd a pharciau ac ardaloedd chwarae 2011.
- Roedd lefelau uchel o foddhad â'r rhan fwyaf o agweddau ar y gwasanaeth bysiau lleol ac roedd lefelau boddhad â chyflwr arosfannau/llochesi bysiau wedi cynyddu'n sylweddol ers 2011.
- Cytunodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr 'Newsline' yn ffynhonnell ddefnyddiol o newyddion a gwybodaeth ac mae'n cael ei ddanfon atynt yn rheolaidd.


Cyhoeddir rhagor o waith dadansoddi manwl yn fuan a bydd ar gael ar ein gwefan http://www.caerphilly.gov.uk

## Sut i gysylltu â ni

Rydym yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar gynnwys ein hadroddiadau perfformiad a'r blaenoriaethau rydym yn eu pennu bob blwyddyn, fel y gallwn barhau i ddarparu gwybodaeth ystyrlon sy'n helpu i'ch hysbysu o ffocws y gwasanaeth, gan sicrhau ein bod yn wir yn gweithio ar y pethau sy'n bwysig o ran gwneud gwahaniaeth i chi, ein dinasyddion a'n cymunedau.

Cysylltwch â ni drwy: E-bost: perfformiad@caerffili.gov.uk NEU drwy We-ddolen:

https://eforms.caerphilly.gov.uk/AF3/an/default.aspx/RenderForm/?F.Name=FcP9x2bt_Eq&s=AZ/IXrNun6sq/im3fvK+tah14MvD+uS4TIx2Ku3UPBZrfdauS1RHgg==&pg=site a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin:


CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

home

Improvement Objectives - feedback

Fields marked * are mandatory

Do you agree that the priorities the council has set are the right priorities? (these are called Improvement Objectives) * ○ Yes ○ Partly ○ No

When publishing how we are performing against our priorities, what would you like to see more information on? (e.g financial data, quality of service, stories from members of the public?)

It is important that we are working on the areas that are most important to you and your opinion helps us to gauge this.

Whilst we are not able to reply directly to your feedback from this questionnaire if you have specific ideas or questions about the councils priorities please contact Ros Roberts on 01443 864328 or email roberr@caerphilly.gov.uk.

You are also welcome to give your views on a range of issues by joining our Viewpoint Panel or by following us on twitter and facebook.

**Thank you for your time.**

Submit Cancel

Fel arall, cysylltwch â:

**Ros Roberts**
Rheolwr Perfformiad
Uned Rheoli Perfformiad Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG
**Ffôn:** 01443 864238
**E-bost:** roberr@caerffili.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau gwahanol ar gais. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan hefyd yn: www.caerffili.gov.uk